

# Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad:  
**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

---

Dyddiad:  
**Dydd Iau, 23 Ebrill 2015**

---

Amser:  
**09.00**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

[SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru)

---

## Agenda

---

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)**

**2 Papurau i'w nodi (09:00–09:05)** (Tudalennau 1 – 99)

**3 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1 (09:05–10:00)**

(Tudalennau 100 – 112)

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Simon White, Rheolwr y Bil

Ceri Breeze, Diprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai

**4 Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth**

**1 (10:00–11:30)** (Tudalennau 113 – 125)

Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Gary Watkins, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw, Cyngor Caerdydd

Nick Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid Gweithredol, Cyngor Bwrdeistref Sirol

Rhondda Cynon Taf

**5 Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth  
2 (11:30–12:30) (Tudalennau 126 – 138)**

Iestyn Davies, Uwch Bennaeth Materion Allanol (Gwledydd Datganoledig),  
Ffederasiwn Busnesau Bach

Janet Jones, Cadeirydd Uned Polisi Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd  
o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol: (12:30)**

Eitem 7

**7 Bil Llywodraeth Leol (Cymru): Ystyried yr Adroddiad Drafft (12:30–  
12:40) (Tudalennau 139 – 183)**

## Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

---

Dyddiad: **Dydd Iau, 19 Mawrth 2015**

---

Amser: **08.49 – 10.50**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:

<http://senedd.tv/cy/2684>

---

### Cofnodion Cryno:

#### Aelodau'r Cynulliad:

Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)  
Christine Chapman AC  
Mike Hedges AC  
Alun Ffred Jones AC  
Ann Jones AC  
Julie Morgan AC  
Nick Ramsay AC

---

#### Tystion:

Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Gwasanaethau  
Cyhoeddus  
Caroline Turner, Llywodraeth Cymru  
Sanjiv Vedi, Llywodraeth Cymru  
Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Nicola Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro  
Morgannwg

---

#### Staff y Pwyllgor:

Bethan Davies (Clerc)  
Leanne Hatcher (Ail Clerc)  
Tanwen Summers (Dirprwy Clerc)  
Martin Jennings (Ymchwilydd)  
Richard Bettley (Ymchwilydd)  
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

---

---

## **1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Black AC.

## **2 Papurau i'w nodi**

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn gofyn am eglurhad ar y ffigyrau o amgylch y diogelwch a gynigir i'r Gyllideb Llywodraeth Leol.

## **3 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 10**

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Kate Chamberlain, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Nicola Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar ei ymchwiliad i Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3.2 Cytunodd Nicola Williams i ddarparu copi o'r llythyr at gleifion yn amlinellu proses gwynion y byrddau iechyd a throi am gymorth at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.3 Cytunodd Kate Chamberlain i ddarparu ffigurau ar y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru a nifer yr unedau preifat o fewn sefydliadau'r GIG.

## **4 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 11**

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Caroline Turner a Sanjiv Vedi, Llywodraeth Cymru ar ei ymchwiliad i Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## **5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:**

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## **6 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod y dystiolaeth**

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## **7 Blaenraglen Waith**

7.1 Cytunodd yr Aelodau ar y rhaglen waith ar gyfer tymor yr haf. Cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ynghylch Trethi Busnes.

## **8 Casglu trethi datganoledig: Dull o gynnal y gwaith craffu**

8.1 Trafododd yr Aelodau y dull o gynnal y gwaith craffu ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i Gasglu Trethi Datganoledig.

# Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 25 Mawrth 2015**

Amser: **09.02 – 12.10**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:  
<http://senedd.tv/cy/3155>

---

## Cofnodion Cryno:

### Aelodau'r Cynulliad:

Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)  
Peter Black AC  
Christine Chapman AC  
Mike Hedges AC  
Alun Ffred Jones AC  
Ann Jones AC  
Julie Morgan AC  
Nick Ramsay AC

### Tystion:

Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru  
Sarah Tully, Llywodraeth Cymru  
Bethan Davies, Llywodraeth Cymru  
Leighton Andrews AC, Y Gweinidog Gwasanaethau  
Cyhoeddus  
Gareth Thomas, Llywodraeth Cymru  
Clare Smith, Llywodraeth Cymru  
Nick Bennett, Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru in  
Welsh  
Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu  
Katrin Shaw, Public Service Ombudsman for Wales Office

### Staff y Pwyllgor:

Bethan Davies (Clerc)

---

Leanne Hatcher (Ail Clerc)  
Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)  
Martin Jennings (Ymchwilydd)  
Richard Bettley (Ymchwilydd)  
Helen Jones (Ymchwilydd)  
Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

---

## 1 Papur briffio ffeithiol gan Lywodraeth Cymru ar Dreth Tirlenwi

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
- 1.2 Cafodd y Pwyllgor bapur briffio ffeithiol gan Lywodraeth Cymru ar Dreth Tirlenwi.
- 1.3 Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ychwanegol ganlynol:
  - rhestr o wastraff cymwys;
  - rhestr o safleoedd tirlenwi awdurdodau lleol; a
  - rhestr o'r 191 o gyrff Amgylcheddol a chyrrff Dosbarthu Amgylcheddol sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

## 2 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Ystyriaeth gychwynnol

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a chytunodd i wahodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod ar gyfer gofyn rhagor o gwestiynau iddo.

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 5 Bil Llywodraeth Leol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

- 5.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu i'r Pwyllgor:
- unrhyw amcangyfrifon o gostau a geir yn yr achosion a gyflwynwyd iddo gan y chwe awdurdod lleol ar gyfer uno gwirfoddol;
  - eglurhad ynghylch a oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i uno cronfeydd pensiwn, a gwybodaeth ynghylch a oes rheolau penodol o ran cronfeydd pensiwn llywodraeth leol; ac

- adroddiad y Comisiwn Staff blaenorol (a gyhoeddwyd ym mis Medi 1996 o bosibl) mewn perthynas ag uno blaenorol.

## **6 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Sesiwn dystiolaeth 12**

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## **8 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y Prif Faterion**

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y prif faterion yn ei ymchwiliad i Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## **7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:**

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## **4 Papurau i'w nodi**

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.





24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel / Ffôn: 029 20 320500  
Fax / Ffacs: 029 20 320600  
Email / Epost: [wales@wao.gov.uk](mailto:wales@wao.gov.uk)  
[www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Ms Jocelyn Davies AM  
Chair, Finance Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Date: 25 March 2015  
Our ref: MP/2299/fgb  
Page: 1 of 1

*Dear Chair*

**INQUIRY INTO THE CONSIDERATION OF POWERS: PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES**

Thank you for the opportunity to provide a note to clarify a matter that I mentioned during the Committee's evidence session on 11 March 2015.

In responding to Julie Morgan's question as to whether the Ombudsman's recommendations are sometimes ignored (para 104 of the transcript), I said that I had a recollection that, in most sectors, the Ombudsman's recommendations are not ignored (para 106). On reflection, that is, if anything, an understatement, and I note that the Ombudsman says in his paper for the Committee of 21 January 2015 that, thus far, no public service provider has refused to implement a recommendation (para 2.49(f) of that paper). However, I also suggested that there was a sector that tended to ignore recommendations, but I realised while speaking that I was thinking somewhat at cross-purposes (para 108). What I had in mind was that the Local Government Ombudsman (for England) found it necessary on a couple of occasions in 2014 to issue private social care providers with adverse findings notices because of their failure to comply with recommendations.

Following the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, since November 2014, the Public Services Ombudsman for Wales has similar jurisdiction in relation to private social care providers as the Local Government Ombudsman has in England. Clearly, it is rather early to establish whether that sector is proving problematic in Wales, but I note that the Public Services Ombudsman for Wales has said in his paper for the Committee of 21 January 2015 that compliance may be harder to secure with social care providers than with public bodies (para 2.49(f) of that paper).

I hope that explanation is helpful, and I apologise for not being clear in the session.

*Yours sincerely,*

**MARTIN PETERS**  
**COMPLIANCE MANAGER**

Llinell union: 0300 062 8379  
Ebost: [Kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov.uk](mailto:Kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov.uk)

10 Ebrill 2015

Trwy Ebost: [Tanwen.Summers@cynulliad.cymru](mailto:Tanwen.Summers@cynulliad.cymru)

Annwyl Tanwen,

Ar ôl imi fod yn rhan o'r Pwyllgor ar 19 Mawrth 2015, fe wnes i gytuno i ddarparu gwybodaeth bellach am nifer y darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ac am nifer yr unedau preifat sydd o fewn sefydliadau'r GIG.

### **Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol**

Atodwyd tabl sy'n nodi'r darparwyr gofal iechyd annibynnol sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel ar 31 Mawrth 2015, o'r enw Atodiad 1.

### **Unedau Cleifion Preifat**

Ar hyn o bryd, dim ond un uned cleifion preifat sydd yng Nghymru. Mae Bridgend Clinic ([www.bridgendclinic.co.uk](http://www.bridgendclinic.co.uk)) wedi'i leoli ar dir Ysbyty Tywysoges Cymru a chaiff ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Bridgend Clinic yn cynnwys naw o welyau, ac ystafell cleifion allanol sy'n cynnwys pump o ystafelloedd triniaeth. Mae'n cynnig ymgynghoriadau a gweithdrefnau ar gyfer ystod o feysydd arbenigol.

Nid yw'n ofynnol i Bridgend Clinic (Uned Cleifion Preifat) gofrestru gydag AGIC oherwydd ei fod yn cael ei redeg gan y Bwrdd Iechyd. Rydym ar ddeall ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion y GIG yn ôl y galw.

At ddibenion prosesau cwyno a rôl AGIC, caiff Clinic Bridgend ei drin fel safle GIG ac mae AGIC ar ddeall pe na bai achwynydd yn fodlon ar ymateb y Bwrdd Iechyd i'w cwyn, fe fyddai mynediad ganddynt at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pe bai AGIC yn derbyn cwyn a fyddai'n ymwneud â Bridgend Clinic, y cam cyntaf fyddai llywio'r gŵyn at brosesau cwyno'r Bwrdd Iechyd, ac rydym wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

Yn ystod ein hymchwil, gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gadarnhau bod chwech o welyau yn cael eu neilltuo ar gyfer cleifion Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin. Ond nid yw'r rhain yn ffurfio uned a gallant hefyd gael eu defnyddio gan gleifion y GIG yn ôl yr angen. Fe wnaeth yr holl fyrddau iechyd eraill yn ogystal â'r holl Ymddiriedolaethau gadarnhau nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithredu fel Unedau Cleifion Preifat.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'K. Chamberlain'. The signature is written in a cursive style with a small dot above the 'K'.

**Dr K Chamberlain**  
**Prif Weithredwraig**

## Atodiad 1

### Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (ac eithrio deintyddion preifat)

<b>Math o Leoliad</b>	<b>Nifer</b>
Ysbytai iechyd meddwl/ anableddau dysgu	21
Ysbytai (ac eithrio ysbytai iechyd meddwl)	26
Clinigau	12
Asiantaethau Meddygol	1
Gwasanaethau Laser/ Golau Pwls Dwys	72

---

**Claire Clancy**

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad  
Chief Executive and Clerk of the Assembly

---

Jocelyn Davies AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

25 Mawrth 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Mawrth ynglŷn ag Adroddiad Perfformiad Corfforaethol diweddaraf y Comisiwn ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2014. Fe wnaethoch ofyn am ragor o wybodaeth am arolwg staff Comisiwn y Cynulliad a nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad am y tro cyntaf.

Cynhaliwyd yr arolwg staff diwethaf ym mis Gorffennaf 2013 a chyhoeddwyd y canlyniadau a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ym mis Hydref 2013. Roedd y themâu allweddol a oedd yn deillio o'r arolwg yn canolbwyntio ar recriwtio, rheoli perfformiad, adeiladau a datblygiad gyrfa. Gan fod y themâu yn debyg i'r rhai yn arolwg y flwyddyn flaenorol, penderfynwyd cymryd amser i ymchwilio i'r materion a mynd i'r afael â hwy. Felly, penderfynwyd peidio â chwblhau arolwg yn 2014 ac rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer yr arolwg nesaf ym mis Mai 2015. Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, bydd yr arolwg yn cael ei gysylltu â chyfres ehangach o weithgareddau ymgysylltu â staff, fel sesiynau trafod gyda mi.

O ran y nifer is o ysgolion newydd, rydych yn iawn i dynnu sylw at yr her y mae'r targed hwn yn ei gyflwyno i ni. Rydym yn ceisio symud o wasanaeth adweithiol i un rhagweithiol, gyda'r nod penodol o ymgysylltu â phob ysgol uwchradd yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd, nid dim ond yr ysgolion hynny sydd eisoes yn yr arfer o ymgysylltu â ni. Cafwyd penllanw o ran gweithgarwch ymgysylltu yn gysylltiedig â cham cychwynnol y Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc (rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2013), wrth inni ddefnyddio adnoddau'r fenter hon i estyn allan at ragor o ysgolion uwchradd; dychwelodd y cynllun ymgysylltu i lefelau mwy normal y flwyddyn ganlynol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
Claire.Clancy@cynulliad.cymru  
www.cynulliad.cymru  
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
Claire.Clancy@assembly.wales


Tudalen y pecyn 11  
0300 200 6230

Er bod y ffigurau Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, ein blaenoriaeth o dan y Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc yw canolbwyntio mwy o'n gwaith ar ysgolion uwchradd. Efallai y bydd gennych ddiddordeb nodi, o'r 208 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, 48 sydd heb ymgysylltu â ni hyd yn hyn yn ystod y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol y byddwn wedi ymgysylltu â 100% o ysgolion uwchradd erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

Ym mis Hydref, ymunodd gweithiwr ieuencid cymwysedig â'r tîm i ddatblygu ein gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd y tu hwnt i'n gwaith gydag ysgolion. Mae nifer o gyfarfodydd gyda sefydliadau a grwpiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc y tu allan i'r 'profiad ystafell ddosbarth' wedi cael eu cynnal. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr cynhaliwyd dau weithdy gyda myfyrwyr BA Gwaith Ieuencid a Chymuned ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir



**Claire Clancy**

**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**



**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**  
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales



**Jocelyn Davies AC**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

2 Ebrill 2015

Annwyl Jocelyn,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2014, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â diwygio gwasanaethau iechyd, yn sgil argymhelliad a wnaed gan eich Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16.

Ysgrifennais at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 10 Rhagfyr 2014 i ofyn am eglurhad ynghylch a fydd y cyllid ychwanegol sydd ar gael ar gyfer 2014–15 a 2015–16 yn cael ei ddefnyddio i gynnal lefelau gwasanaeth presennol a mynd i'r afael a'r diffygion a ragwelir yng nghyllidebau byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, neu a fydd yn cael ei ddefnyddio i weithredu modelau newydd, mwy arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau.

Yn ei ymateb, a ddaeth i law ar 3 Chwefror 2015 (copi o'r ohebiaeth wedi'i atodi), mae'r Gweinidog yn datgan:

"defnyddir yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft, ochr yn ochr â'r gyllideb gofal iechyd yn ei chyfanrwydd, i barhau i

Bae Caerdydd  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6354

E-bost / Email: [Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru](mailto:Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru)/  
[SeneddHealth@Assembly.Wales](mailto:SeneddHealth@Assembly.Wales)

Twitter: [@seneddiechyd](https://twitter.com/seneddiechyd) / [@seneddhealth](https://twitter.com/seneddhealth)

Tudalen y pecyn 13

ddarparu'r gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a ddisgwylir gan ein cleifion. Ar yr un pryd, bydd hyn yn sicrhau bod y gyllideb gyfan yn cael ei defnyddio mewn modd sy'n cyfrannu at ail-lunio a diwygio'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa fwy cynaliadwy."

Mae'r Gweinidog yn nodi bod disgwyl i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau amlinellu'r diwygiadau a'r newidiadau y maent yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â'u cynlluniau integredig tair blynedd. Mae'n datgan bod yn rhaid i'r cynlluniau hyn ddangos yn glir sut y bydd y diwygiadau yn cyfrannu at ddiwallu amcanion polisi a'r broses o sicrhau bod gwasanaethau cynaliadwy yn cael eu darparu er mwyn cael cydsyniad Llywodraeth Cymru. Adnewyddwyd canllawiau i'r perwyl hwn ac fe'u cyhoeddwyd ar 31 Hydref 2014.


Mewn [tystiolaeth ysgrifenedig](#) a ddarparwyd i'r Pwyllgor er mwyn llywio'r gwaith craffu cyffredinol ac ariannol a wnaed ganddo mewn perthynas â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd ar [19 Mawrth 2015](#), dywedodd y Gweinidogi'r cynlluniau integredig tair blynedd drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 2015–16 a 2017–18 gael eu cyflwyno ar 30 Ionawr. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau yn mynd drwy broses o asesu a herio, a nododd y Gweinidog ei fod yn bwriadu gwneud cyhoeddiad ar y cynlluniau a gymeradwywyd a'r camau nesaf i'w cymryd erbyn diwedd mis Ebrill 2015.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn arall o waith craffu cyffredinol ac ariannol gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar 17 Mehefin 2015. Bydd y sesiwn honno'n canolbwyntio yn bennaf ar waith craffu ariannol. Mae'n bosibl y bydd



tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion a thrawsgrifiad o'r sesiwn honno yn cynnwys manylion pellach am y maes hwn, ac efallai y byddwch yn dymuno tynnu sylw eich Pwyllgor atynt maes o law.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "David F. Rees." in a cursive, slightly slanted script.

**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Wedi'i hatodi: Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 3 Chwefror 2015



Ein cyf/Our ref : SF/MD/312/15

David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

3 Chwefror 2015

### Cyllid Iechyd a Diwygio

Rwy'n cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr sy'n gofyn am ragor o wybodaeth a fyddai'n eich helpu chi i wneud penderfyniad ynghylch a ddylid ymgymryd â darn o waith i ddiwygio iechyd cyn diwedd y Cynulliad hwn ai peidio. Er mwyn helpu i lywio ystyriaethau eich Pwyllgor o argymhellion y Pwyllgor Cyllid, rydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth, a amlinellir isod.

### Cyllid presennol

**Cadarnhad ynghylch a oes cynlluniau wedi'u cadarnhau ar gyfer y cyllid ychwanegol ar gyfer 2014-15 a 2015-16, i gael ei ddefnyddio i ddiwygio gwasanaethau iechyd, neu i gynnal y lefelau gwasanaeth presennol yn unig**

Mae'r adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield ym mis Mehefin 2014 yn nodi'n glir yr heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi'r brif dystiolaeth gefnogol ar gyfer y cyllid ychwanegol i'w ddarparu i'r GIG. Un o brif gasgliadau'r adroddiad oedd bod y GIG yng Nghymru yn fforddiadwy yn y dyfodol os yw'n derbyn cyfran o incwm cenedlaethol ac yn parhau i sicrhau'r arbedion o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a gafwyd yn y gorffennol. Bydd y camau gweithredu ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn parhau, gyda mwy o effeithlonrwydd posibl yn digwydd yn sgil canoli gwasanaethau arbenigol iawn. Byddai hyn yn golygu darparu mwy o ofal yn y gymuned sy'n agos at gartrefi pobl, atal pobl rhag cael eu derbyn i ysbyty am driniaethau arferol, rhagor o integreiddio â gwasanaethau cymdeithasol, a datblygu agenda o ofal iechyd darbodus ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir gennym.

O ganlyniad, defnyddir y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft, ochr yn ochr â'r gyllideb gofal iechyd yn ei chyfanrwydd, i barhau i ddarparu'r gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a ddisgwyllir gan ein cleifion. Ar yr hun pryd, bydd hyn yn sicrhau bod y gyllideb gyfan yn cael ei defnyddio mewn modd sy'n cyfrannu at ail-lunio a diwygio'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa fwy cynaliadwy.

Mae'r canllawiau cynllunio newydd, a gyhoeddwyd ar 31 Hydref 2014, yn nodi'n glir ein disgwyliadau o ran y newidiadau rydym yn gobeithio eu gweld. Bydd hyd a lled y diwygiadau a'r newidiadau y mae sefydliadau'r GIG yn bwriadu eu gwneud yn amlwg o fewn eu cynlluniau integredig tair blynedd a gyflwynir erbyn 30 Ionawr 2015. Er mwyn cael cydsyniad Llywodraeth Cymru bydd angen iddynt ddangos yn glir sut y bydd diwygiadau o'r fath yn cyfrannu at ddiwallu amcanion polisi a galluogi parhad o ran darparu gwasanaethau cynaliadwy.

*Cadarnhad o ddsbarthiad, a gynlluniwyd neu a gytunwyd, y cyllid ychwanegol o £200 miliwn sydd ar gael ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd unigol yn 2014-15, cyn gynted ag y penderfynir ar y ffigurau hyn, gan gynnwys sut y cyfrifwyd y dyraniadau*

Roedd yn ofynnol i bob sefydliad GIG gyflwyno cynlluniau gwasanaeth ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn unol â'r canllawiau cynllunio newydd a'r gofynion ynddynt. Er bod rhai sefydliadau heb lwyddo i gwblhau'r cynlluniau tair blynedd cytbwys yn foddhaol ac yn unol â'r gofynion, gofynnwyd iddynt sicrhau eu bod o leiaf yn cyflwyno cynlluniau cadarn wedi'u cymeradwyo gan y bwrdd am flwyddyn.

Mae'n bwysig fod sefydliadau'n parhau i fod yn atebol i ddarparu hyn yn erbyn yr ymrwymïadau cynllunio gwreiddiol a gymeradwywyd gan eu byrddau. O ganlyniad, dyrannwyd y £200 ychwanegol yn unol â'r gofynion adnodd gwreiddiol a amlinellir yn eu cynlluniau.

Mae angen cyfran o'r £200m i dalu am y dyfarniad cyflog, a gaiff ei ddsbarthu ar wahân. Dyrannwyd y £175 miliwn sy'n weddill fel a ganlyn:

Sefydliad	Dyraniad Ychwanegol o
	£m
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	26.100
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	26.700
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr	35.000
Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	15.500
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	8.000
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	38.700
Bwrdd Iechyd Powys	25.000
<b>Cyfanswm</b>	<b>175.000</b>

*Cadarnhad o'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd unigol yn 2015-16, gan gynnwys sut y cyfrifwyd y dyraniadau hyn, pan fyddant ar gael*

Rwyf eisoes wedi rhoi gwybod i'r pwyllgor y byddai dyraniadau ychwanegol yn 2015-16 yn seiliedig ar fformiwla dyrannu adnodd a ddiweddarwyd. Bydd angen rhoi'r £200m a ddyrannwyd yn 2014-15 i waelodlinau sefydliadau'r GIG ar y sail hon.

Fel rhan o lythyr Dyrannu Refeniw Byrddau Iechyd Lleol 2015-16, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014, dyrannwyd £200 miliwn yn ychwanegol, fel a ganlyn:

	Cyfran Darged Anghenion Uniongyrchol - Rhagfyr 2014	Dyraniadau Ychwanegol - 2014
	%	£m
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	17.908%	35.815
Aneurin Bevan	19.132%	38.264
Prifysgol Betsi Cadwaladr	21.257%	42.515
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	14.395%	28.789
Cwm Taf	11.112%	22.225
Hywel Dda	12.128%	24.255
Powys	4.069%	8.137
<b>Cyfanswm / Cyfartaledd</b>	<b>100.000%</b>	<b>200.000</b>

Bydd derbyn cynlluniau gwasanaeth integredig tymor canolig sefydliadau'r GIG cyn dechrau y flwyddyn ariannol nesaf yn darparu'r dystiolaeth bellach sy'n ofynnol i lywio'r gwaith o ddsbarthu unrhyw ddyraniadau ychwanegol o'r gronfa wrth gefn fach sydd gan yr AIGC. Bydd hyn yn ategu'r hyblygrwydd ariannol ychwanegol y gellir gofyn amdano a'i ddarparu dan y drefn newydd a gyflwynwyd yn dilyn Deddf GIG Cymru (Cyllid) 2014.

*Amlinelliad o sut y bydd y cyllid ychwanegol o £70 miliwn a gyhoeddwyd gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn dilyn Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, yn cael ei dargedu i "gefnogi'r GIG yng Nghymru i ymgymryd â'r gwaith diwygio, a'r newid sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru", fel y nodwyd yn ei datganiad ysgrifenedig ar 3 Rhagfyr*

Fel y soniais yn y nodyn a anfonwyd atoch ar 28 Ionawr, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig a'i anfon at holl Aelodau'r Cynulliad ar y diwrnod hwnnw. Roedd y datganiad yn amlinellu sut y byddai'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r GIG yn cael ei fuddsoddi.

*Crynodeb o'r dyddiadau allweddol yn amserlen 2015 ar gyfer cytuno ar gynlluniau tair blynedd, gan ddechrau gyda'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau yn Ionawr 2015.*

Roedd Fframwaith Cynllunio'r GIG a gyhoeddwyd 31 Hydref 2014 yn cynnwys yr amserlen ganlynol ar gyfer Cymeradwyo'r Cynllun.

Gweithredu	Amserlen	LIC	GIG
Byrddau'r GIG yn cymeradwyo fersiwn 'Drafft Terfynol' o'r cynlluniau integredig tymor canolig	Ionawr 2015		✓
Sefydliadau'r GIG yn cyflwyno cynlluniau 'Drafft Terfynol' a gymeradwywyd gan y Bwrdd i LIC	31 Ionawr 2015		✓
Proses graffu LIC	Chwefror – Mawrth 2015	✓	
Byrddau'n ymateb i adborth o'r broses graffu ac yn diwygio'r Cynlluniau yn unol â hynny. Y Byrddau wedyn yn cymeradwyo'r fersiynau terfynol	Cyn 31 Mawrth 2015		✓

## Cyllid a chynaliadwyedd hirdymor yn y dyfodol

### *Amlinelliad o ganlyniadau ychwanegol, os o gwbl, sydd i'w cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol yn 2014-15 a 2015-16*

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi'r GIG i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a'r canlyniadau positif a ddisgwylir gan ein cleifion, ac ar yr un pryd yn ail-lunio a diwygio ein gwasanaethau. Mae/Bydd y canlyniadau gofynnol o ran y ddarpariaeth a'r camau angenrheidiol i'w cyflawni yn cael eu nodi'n glir yng Nghynlluniau Integredig Tymor Canolig tair blynedd sefydliadau'r GIG.

### *Amlinelliad o'r trefniadau sydd wedi'u gwneud neu a fydd yn cael eu gwneud i fonitro canlyniadau'r buddsoddiad hwn*

Mae gennym sawl cyfrwng ar gyfer monitro a goruchwylio perfformiad sefydliadau'r GIG er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau ac yn parhau ar y trywydd i gyflawni yn erbyn y cynlluniau gwasanaeth a gymeradwywyd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfarfodydd misol o Brif Weithredwyr lle bydd craffu ar y ddarpariaeth a'r perfformiad ariannol.
- Cynhelir cyfarfodydd o'r Tîm Gweithredol ar y Cyd bob chwe mis â phob BILI ac Ymddiriedolaeth. Bydd aelodau o Dîm y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr a Thîm Gweithredol y BILI neu Ymddiriedolaeth unigol yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.
- Cynhelir cyfarfod o'r Bwrdd Cyflawni Integredig yn fisol a'i gadeirio gan Gyfarwyddwr y Rhaglen Gyflawni neu Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r cyfarfod hwn yn monitro cynnydd perfformiad BILI / Ymddiriedolaethau yn erbyn gofynion cyflawni Ansawdd a Diogelwch Llywodraeth Cymru.
- Cynhelir cyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni yn fisol, er y gallant fod yn llai aml pan ystyrir fod y sefydliadau'n cyflawni o ran perfformiad ac ansawdd.
- Cyflwyniad manwl o ffurflenni monitro ariannol misol. Caiff perfformiad ariannol ei adolygu'n fanwl a gofynnir am esboniadau am unrhyw amrywiadau adweithiol o'r cynllun.

Yn ogystal â hyn, mae gennym hefyd drefniadau o ran cynnydd ac ymyrryd a ddatblygwyd mewn cytundeb ag AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru, lle rhennir gwybodaeth am berfformiad a chynnydd gan sefydliadau'r GIG..

*Amlinelliad o unrhyw gynlluniau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu a yw gwasanaethau yn cael eu diwygio fel y bwriadwyd, a hefyd y lefelau cyllid sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar ôl 2015-16, er mwyn sicrhau bod darparu gwasanaethau yn parhau i fod yn gynaliadwy.*

Un o'n prif ddulliau o archwilio a yw gwasanaethau'n cael eu diwygio yw drwy'r cynlluniau tymor canolog. Asesir a yw gwasanaethau'n cael eu diwygio drwy adolygu, craffu a chymeradwyo'n ffurfiol y Cynlluniau Integredig Tymor Canolog. Yna bydd perfformiad a darpariaeth y diwygiadau hynny i'r gwasanaethau'n cael eu rheoli drwy'r prif drefniadau rheoli perfformiad y manylir arnynt uchod.

Mae'r lefelau cyllid sy'n ofynnol ar gyfer y gwasanaeth iechyd y tu hwnt i 2015-16 yn amlwg yn fater i Lywodraeth Cymru ei ystyried yng nghyd-destun y setliad o San Steffan. Cyhoeddwyd adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield "Degawd o Galedi yng Nghymru?" ym mis Mehefin 2014 ac mae'n asesiad annibynnol allweddol o'r heriau a'r gofynion ariannu.

In gywir,  
Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



### 1. A list of Qualifying Waste

This is included in Appendix 1 of the Landfill Disposals Tax consultation document. I have attached the English and Welsh versions.

### 2. A list of Local Authority Landfill Sites

There are 2 Local Authorities that have and operate a landfill site. These are:

- **Cardiff County Council** – Lamby Way, operated by Cardiff County Council
- **Newport City Council** – Docks Way Disposal Site, operated by Newport City Council

However, there are Local Authorities that have landfill sites that are operated by another body. WLGA and NRW do not have a readily available and up to date list of which local authorities are involved in such arrangements and each individual authority would need to be contacted to confirm the current position.

### 3. A list of 191 Environmental Bodies

These are all provided on the Landfill Communities Fund regulator's website, Entrust. A link is provided below

<http://www.entrust.org.uk/environmental-bodies/eb-search/>



Rhif: WG24170



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Treth Gwarediadau Tirlenwi

Dyddiad cyhoeddi: 24 Chwefror 2015  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Mai 2015



## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynnigion ynglŷn â Threth Gwarediadau Tirlenwi.

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn fel eu bod yn cyrraedd erbyn **19 Mai 2015** fan hwyraf. Gellir cyflwyno ymatebion: yn electronig drwy'r ffurflen ar-lein: <http://wales.gov.uk/consultations/finance/landfill-disposals-tax/?lang=cy>

Drwy eu hanfon ar e-bost at: [FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk](mailto:FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk) (rhowch 'Treth Gwarediadau Tirlenwi' yn y blwch testun).

Neu gallwch eu postio at:  
Yr Is-adran Polisi a Deddfwriaeth Trethi  
Zil Lawr – Dwyrain  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn fformat hygyrch, gan gynnwys MS Word, print bras a Braille, neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)

Mae'r ymgynghoriad ar Dreth Trafodiadau Tir i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)

Mae'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig a'r crynodeb o'r ymatebion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)

Gellir cael gafael ar fanylion adroddiad cyntaf y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), ymateb Llywodraeth y DU i'r adroddiad cyntaf a Bil Cymru drwy fynd i wefan Llywodraeth Cymru yn: <http://cymru.gov.uk/funding/financereform/?lang=cy>

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:  
Yr Is-adran Polisi a Deddfwriaeth Trethi  
Zil Lawr – Dwyrain  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ  
E-bost: [FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk](mailto:FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk)

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

### Rhagair y Gweinidog


	<b>Tudalen</b>
<b>Pennod 1: Cyflwyniad a Chefndir y Polisi</b>	<b>4</b>
<b>Pennod 2: Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy</b>	<b>15</b>
<b>Pennod 3: Cydymffurfio a Gorfodi</b>	<b>27</b>
<b>Pennod 4: Gweinyddu'r Dreth</b>	<b>35</b>
<b>Pennod 5: Lles y Gymuned</b>	<b>41</b>

**Atodiad 1: Crynodeb o Orchymyn Treth Dirlenwi 2011 (Deunyddiau Cymwys) 2011**

**Atodiad 2: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys crynodeb o'r cwestiynau ymgynghori**

**Atodiad 3: Geirfa**

**Atodiad 4: Aseiad Effaith Rheoleiddiol Cychwynnol**



## Rhagair y Gweinidog

Bydd pasio Deddf Cymru 2014 yn golygu y bydd y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n cael eu hariannu'n newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Un o'r datblygiadau pwysicaf yw'r pwerau newydd a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu ei drethi datganoledig ei hun, gan ddechrau drwy godi trethi yn lle'r Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp a godir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu, am y tro cyntaf ers bron 800 mlynedd, ein bod yn gallu cynllunio a rhoi ar waith y trethi sy'n

gweddu i amgylchiadau penodol Cymru.

Bwriedir dechrau cyflwyno trethi Cymru ym mis Ebrill 2018, ac, yn y cyfamser, bydd angen gwneud llawer o waith paratoi. Rwyf wedi defnyddio pedair egwyddor trethu yn sail i holl waith cychwynnol Llywodraeth Cymru: Rwy'n awyddus i gyflwyno trethi sy'n deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu; sy'n syml, gyda rheolau clir sy'n sicrhau cyn bod costau cydymffurfio a gweinyddu cyn ised â phosibl; sy'n rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr; ac sy'n hybu twf a swyddi, a fydd yn eu tro'n help i drechu tlodi.

Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a dyma'r olaf o'r tair a gyhoeddir gennyf i ofyn eich barn am y pwerau newydd. Mae'r dreth yn ddylanwad pwysig ar ymddygiad amgylcheddol. Mae'n annog rhagor o atal, aildefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff. Drwy ddatganoli'r dreth hon felly, bydd gennym arf ychwanegol yn gefn i bolisiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mynd ar drywydd ein nod uchelgeisiol sef dim gwastraff.

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rwyf yn awyddus i ganfod cyfleoedd i fynd i'r afael ag agweddau ar y dreth bresennol a all fod yn ddryslyd neu sy'n creu ansicrwydd, ac rwy'n dymuno ystyried a ellid defnyddio cyfran o refeniw'r dreth i wella lles cymunedau a sut y gellid gwneud hynny. Rwyf hefyd yn awyddus i foderneiddio gweinyddu'r dreth, gan ei galluogi i weithio'n fwy effeithlon, ac i ysgafnhau'r baich ar fyd busnes gymaint ag y bo modd. Serch hynny, nid wyf am gyflwyno newidiadau lle nad oes mo'u hangen. Yn wir, rwy'n sylweddoli y gallai fod yn well cadw'n gyson â Lloegr a'r Alban mewn rhai meysydd.

Un agwedd hanfodol ar waith datblygu'r dreth fydd cydymffurfio. Mae hyn yn golygu fy mod am sicrhau bod pawb sydd â gwastraff i'w waredu'n cydymffurfio'n llawn ac yn briodol â'r dreth. Bydd y sawl sy'n osgoi ac sy'n efadu talu'r dreth yn cael eu trin yn deg yng Nghymru ac yn cael eu herio'n gadarn, ni waeth am yr amgylchiadau – mae ceisio osgoi talu'n gwbl annerbyniol. Mae'r ymgynghoriad felly'n gofyn ichi ddweud sut y gallwn annog pobl i gydymffurfio, a pha gamau y dylwn eu cymryd er mwyn ymateb i ddiffyg cydymffurfio.

Bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithio ar amrywiaeth eang o fuddiannau - busnesau, rheoleiddwyr, cymunedau a'r Trydydd Sector. Rwy'n awyddus i ystyried yr amrywiaeth ehangaf o opsiynau drwy'r ymgynghoriad hwn, felly rwy'n pwysu arnoch i rannu'ch syniadau am sut y gallwn gynllunio'r dreth hon er mwyn iddi weithio'n dda i Gymru. Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen eich cynigion.



**Jane Hutt**

Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth  
Chwefror 2015

## Pennod 1: Cyflwyniad a Chefndir y Polisi

### Datganoli pwerau trethu

- 1.1 Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), ei adroddiad cyntaf am drefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Croesawodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad ac yna, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig becyn o bwerau trethu a benthyca i Gymru.
- 1.2 Mae Deddf Cymru 2014, a basiwyd gan y Senedd yn ddiweddar, yn pennu'r pwerau ariannol newydd hyn i Gymru gan gynnwys datganoli'r Dreth Dirlenwi, Treth Dir y Dreth Stamp ac elfen o'r Dreth Incwm, yn amodol ar refferendwm. Mae *Bil Cymru: Papur Gorchymyn Grymuso ac Atebolrwydd Ariannol* yn dweud mai bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw y bydd y Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp yn dod i ben yng Nghymru ym mis Ebrill 2018.
- 1.3 I baratoi ar gyfer hyn, yn yr hydref y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig<sup>1</sup> ac yn yr haf, mae'n bwriadu cyflwyno Bil Cynulliad sy'n rhestru ei chynigion. Bydd hwn yn cynnig fframwaith clir a chadarn ar gyfer llywodraethu trethi, gan ddechrau drwy sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r trethi sydd wedi'u datganoli i Gymru.
- 1.4 Rhaid cael rhywfaint o eglurdeb ynghylch y trethi y bwriedir eu casglu er mwyn deall ac, yn wir, er mwyn datblygu blaenoriaethau a phrosesau gweithredol y drefn a ddilynir wrth gasglu a rheoli trethi. Felly, pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn pobl am ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori hefyd ynglŷn â chynigion i gyflwyno Treth Trafodiadau Tir yn lle Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru.<sup>2</sup> Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn yn llywio'r ffordd y datblygir polisiau a deddfwriaeth. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar y trethi hyn yn fuan ar ôl yr etholiad nesaf (5 Mai 2016).

### Ymgynghori ynglŷn â Threth Gwarediadau Tirlenwi

- 1.5 Mae Deddf Cymru 2014 yn cyfyngu cwrpas pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn glir i ddeddfu ynghylch treth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru: rhaid i'r dreth hon felly ymwneud â'r dull hwn o reoli gwastraff.
- 1.6 Mae'r Dreth Dirlenwi yn gymhleth, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r gwahanol gyfraddau trethi ar draws ffiniau yn dibynnu ar ei gilydd.

<sup>1</sup> Mae'r ymgynghoriad a'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig i'w gweld drwy fynd at wefan Llywodraeth Cymru yma:

[www.wales.gov.uk/consultations](http://www.wales.gov.uk/consultations)

<sup>2</sup> Bydd yr ymgynghoriad ynglŷn â Threth Trafodiadau Tir yn dod i ben ar 6 Mai 2015, ac mae gwybodaeth amdano ar gael drwy fynd at wefan Llywodraeth Cymru yma:

[www.wales.gov.uk/consultations](http://www.wales.gov.uk/consultations)

Mae'n ymwybodol hefyd o'r heriau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio a gorfodi, a'r diffyg amwynder i gymunedau yn sgil safleoedd tirlenwi a gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon.

- 1.7 Mae'r rhyngddibyniaethau hyn rhwng y gwahanol agweddau'n golygu y gallai newid un agwedd ar y dreth effeithio'n waeth na'r disgwyl ar rai meysydd na'i gilydd yn ogystal â gwella pethau mewn meysydd eraill; mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn effro i'r rhain.
- 1.8 Rydym yn dechrau ystyried y materion hyn yn yr ymgynghoriad hwn ac yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol yn Atodiad 4. Byddem yn arbennig o falch o glywed eich barn am agweddau ymarferol yr opsiynau a gynigir ac unrhyw dystiolaeth y gallwch ei chynnig yn gefn i'ch ymateb.

### Rheoli Gwastraff yng Nghymru

- 1.9 Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio datblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n arf ychwanegol yn gefn i'w pholisïau, yn enwedig ym maes gwastraff.
- 1.10 Mae tirwedd Reoleiddiol Ewrop wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno'r Dreth Dirlenwi yn 1996 ac mae'n ddylanwad mawr ar y ffordd y caiff gwastraff ei reoli yng Nghymru. Rhai o'r newidiadau nodedig oedd cyflwyno Cyfarwydddeb Tirlenwi'r Undeb Ewropeaidd yn 1999 a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ymdrin â'r gwastraff a anfonid i safleoedd tirlenwi: roedd yn nodi'r gofynion ar gyfer rhag-drin gwastraff a'r deunyddiau sy'n cael mynd i'r safleoedd hyn. Roedd Penderfyniad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â Meini Prawf Derbyn Gwastraff yn 2002 hefyd yn rhestru'r safonau y mae'n rhaid i wastraff gydymffurfio â hwy er mwyn cael eu derbyn i wahanol fathau o safleoedd tirlenwi.
- 1.11 Mae *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff* Llywodraeth Cymru yn dweud sut y byddwn yn ymdrin â gwastraff yng Nghymru er budd yr amgylchedd, yr economi ac er lles y gymdeithas. Y nod yw defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd gynaliadwy drwy leihau gwastraff a rheoli unrhyw wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan sicrhau bod deunyddiau gwerthfawr yn cael eu cadw o fewn economi Cymru ac yn cael eu gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n gosod nodau i leihau gwastraff yn sylweddol, 27% o leiaf, (o linell sylfaen 2007) a chyfradd ailgylchu o 70% fan leiaf, gan anfon mor agos â phosibl at ddim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, a'i huchelgais yw sicrhau dim gwastraff (ailgylchu 100%) erbyn 2050.
- 1.12 Mae'r nodau hyn yn ategu *Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd* sy'n nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yng Nghymru. Roedd *Adolygiad Stern* o newid yn yr hinsawdd yn 2006 yn dangos mai safleoedd tirlenwi yw un o brif achosion yr allyriadau o wastraff sy'n achosi'r newid hwnnw. Wrth anfon bwyd a mathau eraill o wastraff pydradwy i safleoedd

tirlenwi, byddant yn cynhyrchu methan, nwy pwerus sy'n achosi newid yn yr hinsawdd.

- 1.13** Yn ystod hydref 2013, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â Phapur Gwyn Bil yr Amgylchedd<sup>3</sup>. Ymhlith pethau eraill, roedd hwn yn rhestru camau i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu defnyddio er y lles gorau a bod gwastraff yn gael ei ailgylchu. Er mwyn helpu i sicrhau bod y buddsoddi'n mynd ar drywydd atebion rheoli gwastraff cynaliadwy, roedd yn cynnwys cynigion penodol am wahanu a chasglu gwastraff ac yn gwahardd defnyddio rhai deunyddiau i greu ynni o wastraff a'u hanfon i safleoedd tirlenwi. Ar ôl i Lywodraeth Cymru ystyried yr ymatebion i'r Papur Gwyn, disgwylir y bydd Bil yn cael ei gyflwyno yng ngwanwyn 2015.
- 1.14** Yn 2014, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun *Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol*. Nod *Twf Gwyrdd Cymru* yw cynyddu a sbarduno prosiectau i sicrhau buddsoddi gwyrdd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio'n bennaf, ymhlith pethau eraill, ar annog buddsoddi mewn effeithlonrwydd adnoddau, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a phrosiectau rheoli gwastraff cynaliadwy. Dyrannwyd £5 miliwn o Gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2015-16 i ddatblygu *Twf Gwyrdd Cymru*. Mae twf gwyrdd yn agwedd hollbwysig ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.
- 1.15** Ers 15 mlynedd, cydnabyddir bod Cymru'n arwain y ffordd ym maes datblygu cynaliadwy, sydd wedi bod wrth wraidd polisïau Llywodraeth Cymru ers dechrau un datganoli. Datblygu cynaliadwy yw'r ffordd orau o'n helpu i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol, er mwyn inni fynd i'r afael â'r problemau mawr sy'n wynebu pobl a chymunedau ledled Cymru, megis newid yn yr hinsawdd, tloedi, swyddi a thwf a gwneud pethau'n fwy diogel i bobl.
- 1.16** Gweledigaeth tymor hir Llywodraeth Cymru erbyn 2050 yw mai Cymru fydd y lle gorau i fyw, dysgu, gweithio a thrafod busnes ynddo a hynny mewn amgylchedd sy'n cael ei barchu a'i fwynhau. Rydym am weld economi gref i fusnesau, pobl a chymunedau yng Nghymru. Rydym am gryfhau'r amgylchiadau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy. Mae'r ffordd hon o feddwl wrth wraidd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<sup>4</sup>, sydd ar ei hynt yn awr drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn help inni wireddu hyn drwy greu cyfraith sy'n cynnwys set o nodau clir, cyfannol ar gyfer llesiant yng Nghymru. Maent yn cynnig cydweledigaeth ar gyfer y Gymru yr ydym yn awyddus i'w gweld yn awr ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

<sup>3</sup> <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=cy>

<sup>4</sup> <http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/future-generations/?lang=cy>



## Y Dreth Dirlenwi

**1.17** Treth yn y Deyrnas Unedig ar waredu gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yw'r Dreth Dirlenwi. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu trwyddedu o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol (oni fyddant wedi'u heithrio'n benodol).

**1.18** Cyflwynwyd y Dreth Dirlenwi yn 1996 fel sbardun pwysig i ddylanwadu ar ymddygiad amgylcheddol:

'...to ensure that landfill costs reflect environmental impact thereby encouraging business and consumers, in a cost effective and non-regulatory manner, to produce less waste; to recover value from more of the waste that is produced; and to dispose of less waste in landfill sites'<sup>5</sup>.

**1.19** Ers cyflwyno'r dreth, mae wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghyfran y gwastraff sy'n cael ei hanfon i safleoedd tirlenwi ac at fwy o ailgylchu. Yng Nghymru gwelwyd gostyngiad o 52% yng nghyfanswm y tunelli o wastraff a anfonid i safleoedd tirlenwi rhwng 2001 a 2013<sup>6</sup>.

**1.20** Ar hyn o bryd mae 28 o safleoedd tirlenwi a 23 o gwmnïau'n eu gweithredu yng Nghymru. Cyllid a Thollau EM sy'n gweinyddu'r Dreth Dirlenwi ar hyn o bryd ac mae'n cael ei chasglu gan weithredwyr y safleoedd tirlenwi. Mae cyfradd dreth is yn berthnasol i'r deunyddiau sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011. Codir cyfradd dreth safonol am bob deunydd trethadwy arall sy'n cael ei waredu

**1.21** Mae'r Dreth Dirlenwi hefyd yn darparu cronfa i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol yng nghyffiniau safle tirlenwi. Cynllun credyd treth yw'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gyfrannu cyfran o'r dreth maent yn atebol amdani i brosiectau cymwys.

## Datblygiadau diweddar

**1.22** Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cyllid a Thollau EM wedi ceisio egluro'n well sut y rhoddir y dreth hon ar waith. Mae hyn wedi cynnwys diweddarau'r canllawiau a chyflwyno deddfwriaeth ddiwygiedig: Gorchymyn y Dreth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig ar Safleoedd Tirlenwi) 2009 a Gorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011. Mae Cyllid Thollau EM wedi cyhoeddi hefyd ei fod yn bwriadu cyflwyno prawf Colli wrth Danio o fis Ebrill 2015 ymlaen. Pwrpas hyn fydd pennu'r gyfradd dreth sy'n berthnasol i *fân weddillion* (y darnau bychain o wastraff sydd ar ôl pan fydd y gwastraff wedi'i brosesu). Esbonnir sail y prawf Colli wrth Danio ym mhennod 2.

<sup>5</sup> UK Waste Strategy (Adran yr Amgylchedd a'r Swyddfa Gymreig 1995: dyfynnwyd yn ECOTEC, 2001)

<sup>6</sup> <http://naturalresourceswales.gov.uk/content/docs/pdfs/our-work/Policy-advice-and-guidance/87161/wales-waste-information-eng?lang=en>

- 1.23** Mae nifer o achosion cyfreithiol wedi bod ynghylch a yw rhywfaint o'r deunydd sy'n cael ei anfon i safle tirlenwi yn cael ei 'ddefnyddio' (yn hytrach na'i waredu<sup>7</sup>) ac felly na ddylid ei drin yn warediad trethadwy. Mae gwerth yr hawliadau sydd gerbron y llysoedd ar hyn o bryd yn golygu bod cyfran sylweddol o refeniw blynyddol y Dreth Dirlenwi o dan fygythiad. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio ffyrdd o gynllunio Treth Gwarediadau Tirlenwi sy'n rhoi sylw i'r materion y mae'r achosion hyn yn eu codi ac sy'n cynnig cymaint o eglurdeb â phosibl i'r trethdalwr yn ogystal ag i Awdurdod Cyllid Cymru.
- 1.24** Un o'r datblygiadau eraill yw bod Cyllid a Thollau EM wedi dechrau rhoi mwy o sylw i droseddau gwastraff, gan gynnwys mynd i'r afael â'r sawl sy'n efadu talu'r Dreth Dirlenwi. Yn 2014, rhoddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig £5m i Asiantaeth yr Amgylchedd (arian a fyddai fel arall wedi mynd i'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi) er mwyn sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol yn Lloegr. Mae Cyllid a Thollau EM hefyd wrthi'n adolygu gweinyddu'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi yng ngoleuni pryderon bod cyfran sylweddol o'r arian heb ei gwario.
- 1.25** Bydd y Dreth Dirlenwi'n cael ei datganoli i'r Alban o fis Ebrill 2015 ymlaen. Bydd Treth Dirlenwi'r Alban yn aros yr un fath fwy neu lai â'r Dreth Dirlenwi bresennol ond bydd rhai pethau'n newid o ran sut y caiff y dreth ei gweinyddu, gan gynnwys ehangu cwmplas y dreth (gan estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon) a'r ffordd y mae'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi'n gweithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi edrych yn ofalus ar gynigion yr Alban a bydd yn dal i wneud hynny wrth iddynt gael eu rhoi ar waith. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried y prif newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn yr Alban.

### *Refeniw'r Dreth Dirlenwi*

- 1.26** Mae cyfraddau safonol y dreth wedi cynyddu dros gyfnod er mwyn cymell pobl i anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi ac yn hytrach symud i gyfeiriad atal, aildefnyddio, ailgylchu, ac adennill. Mae'r gyfradd dreth safonol wedi codi o £7/y dunnell yn 1996-97 i £80/y dunnell yn 2014-15. Mae'r gyfradd dreth is wedi gostwng yn gyson mewn termau real ers cyflwyno'r dreth (nid yw wedi cyd-fynd â chwyddiant). £2/y dunnell oedd y gyfradd is pan gyflwynwyd y dreth a'r gyfradd ar hyn o bryd yw £2.50/y dunnell.
- 1.27** Yn Natganiad Cyllideb y Deyrnas Unedig yn 2014, cyhoeddwyd y byddai cyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn y dyfodol yn aros yr un fath mewn termau real (ar sail cyfradd chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu) tan 2019/20 o leiaf. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei bod am bennu'r un cyfraddau treth â Chyllid a Thollau EM ar gyfer 2015-16.<sup>8</sup>

<sup>7</sup> Er mwyn i warediad fod yn drethadwy rhaid gwaredu deunydd yn wastraff, ac mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio bod hyn yn digwydd pan fydd y sawl sy'n gwaredu'r gwastraff yn gwneud hynny gyda'r bwriad o waredu'r gwastraff.

<sup>8</sup> <http://www.scotland.gov.uk/Publications/2014/10/2706/4>

1.28 Mae refeniw'r Dreth Dirlenwi yn y Deyrnas Unedig a'r amcangyfrifon ar gyfer Cymru dros y deng mlynedd diwethaf i'w gweld yn Nhabl 1. Yn ddiweddar, y refeniw yn y Deyrnas Unedig oedd tua £1.1 biliwn yn y Deyrnas Unedig ac oddeutu £50 miliwn yng Nghymru. Mae'r refeniw yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru wedi dilyn tuedd debyg yn ystod y degawd diwethaf, sef cynyddu'n gyflym tan 2010-11 ac yn aros yn gymharol sefydlog wedi hynny. Mae'r ffigurau ar gyfer y Deyrnas Unedig yn dangos y gwir refeniw a dderbyniwyd gan Gyllid a Thollau EM. Serch hynny, amcangyfrif yw'r ffigurau ar gyfer Cymru a baratowyd gan Gyllid a Thollau EM a'r rheini wedi'u seilio ar faint o dunelli a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, yn hytrach nag ar ffurflenni'r Dreth Dirlenwi.

**Tabl 1 - Refeniw'r Dreth Dirlenwi**

Blwyddyn	Y DU	Refeniw (£ Miliwn)	
		Cymru (amcangyfrif)	Cymru (% o'r DU)
2003-04	607	30	4.9
2004-05	672	33	4.9
2005-06	733	36	4.9
2006-07	804	40	4.9
2007-08	877	38	4.4
2008-09	954	43	4.5
2009-10	842	40	4.7
2010-11	1,065	46	4.4
2011-12	1,090	46	4.2
2012-13	1,092	46	4.2
2013-14	1,189	50	4.2


Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM

1.29 Mae'r refeniw yn cael ei seilio ar gyfuniad o'r tunelli a anfonir i safleoedd tirlenwi a chyfradd y dreth a delir. Yn ystod y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf, mae cyfradd safonol y dreth wedi cynyddu'n gyflym ac felly, er bod llai o dunelli o wastraff ar y gyfradd safonol yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi, gwelwyd y refeniw'n cynyddu. Mae'r ffaith bod llai o dunelli o wastraff ar y gyfradd safonol yn dangos bod y Dreth Dirlenwi'n llwyddo fel arf polisi. Mae'r duedd hon i'w gweld yn amlwg yn Siart 1 isod, sy'n dangos nifer y tunelli a ddatganwyd fesul chwarter yn y Deyrnas Unedig yn ôl y gwahanol gyfraddau treth.

1.30 Nid oes data sy'n benodol berthnasol i Gymru ar gael ar gyfer datganiadau'r Dreth Dirlenwi, a hynny'n bennaf oherwydd bod rhai gweithredwyr yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig i gyd ac mai dim ond un datganiad y byddant yn ei gyflwyno. Serch hynny, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi data am dueddiadau rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae'r data hyn yn dangos tuedd debyg o ran faint o dunelli o wastraff sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Gweler Siart 2. Mae'r symudiad hwn oddi wrth safleoedd tirlenwi at ddulliau eraill o reoli gwastraff yn dangos bod y polisi'n llwyddo. Yng nghyd-destun Cymru, dyna yw nod y Dreth


Dirllenwi, trefniadau rheoleiddio gwastraff Ewrop a pholisiâu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys targedau ailgylchu statudol (ynghyd â chynlluniau eraill).

**Siart 1 - Tunelli a Ddatganwyd (y Deyrnas Unedig)**



Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM

**Siart 2 - Tueddiadau rheoli gwastraff 2000/1 - 2013**



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

<http://naturalresourceswales.gov.uk/content/docs/pdfs/our-work/Policy-advice-and-guidance/87161/wales-waste-information-eng?lang=en>

*Rhagolygon ar gyfer y Dreth Dirlenwi*

- 1.31 Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi rhagolygon ariannol y Deyrnas Unedig, ac yn ei Rhagolwg Economaidd ac Ariannol ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd rhagolygon ar gyfer Cymru am y tro cyntaf. Mae rhagolygon y Swyddfa ar gyfer refeniw blynyddol tan 2019/20 i'w gweld yn Nhabl 2.
- 1.32 Mae'r Swyddfa'n rhagweld y bydd y refeniw yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru yn dilyn tueddiadau tebyg (i'r hyn a welwyd yn y gorffennol) dros y pum mlynedd nesaf. Serch hynny, efallai mai'r hyn sy'n gyfrifol am hyn i raddau helaeth yw'r fethodoleg a ddefnyddir i ragweld y tueddiadau hyn - methodoleg sy'n dyrannu canran sefydlog o refeniw'r Deyrnas Unedig i Gymru.
- 1.33 Er bod y refeniw ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel Cymru wedi dilyn tueddiadau tebyg yn y gorffennol, mae lle i gredu na fydd y sefyllfa hon o reidrwydd yn parhau yn y dyfodol. Yn benodol, mae Polisi Gwastraff Llywodraeth Cymru, ei thargedau ailgylchu statudol a'i nod o anfon mor agos â phosibl â dim gwastraff (>5%) i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, yn cael effaith sylweddol ar reoli gwastraff yng Nghymru.

1.34 Un enghraifft o hyn yw'r cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni yng Nghaerdydd a fydd yn trin gwastraff gweddilliol pump awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru erbyn haf 2015. Mae cyfleuster tebyg yn yr arfaeth i drin gwastraff gweddilliol pump awdurdod lleol yn y gogledd. Gallai'r datblygiadau hyn, ochr yn ochr â buddsoddiadau eraill ym maes rheoli gwastraff, a llwyddiant parhaus awdurdodau lleol ac aelwydydd Cymru i gyrraedd eu targedau ailgylchu, olygu bod y referniw'n gostwng yn sylweddol yng Nghymru dros gyfnod y rhagolygon. Mae nifer y safleoedd tirlenwi sy'n gweithio yng Nghymru'n gostwng ac mae'n bosibl iawn y bydd llai na deg ohonynt erbyn 2010 (28 safle yn 2015). Gallai'r datblygiadau hyn olygu bod y duedd o ran referniw ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel Cymru'n dilyn gwahanol lwybrau.

**Tabl 2 - Rhagolygon y Dreth Dirlenwi**

	£ Miliwn					
	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
<b>Rhagolygon y DU</b>	1226	1152	1077	1082	1134	1206
<b>Rhagolygon Cymru</b>	54	51	48	48	50	53

Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

**Y ddadl o blaid cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi**

1.35 Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno Treth Dirlenwi yng Nghymru yn lle'r dreth bresennol oherwydd byddai peidio â gwneud hynny'n creu goblygiadau negyddol sylweddol - goblygiadau ariannol a goblygiadau o ran polisi.

1.36 Roedd *Papur Gorchymyn Bil Cymru: Grymuso ac Atebolrwydd Ariannol* yn cadarnhau bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sef y bydd proses datganoli'r Dreth Dirlenwi yn golygu gostyngiad yng ngrant bloc Llywodraeth Cymru. Ni phenderfynwyd eto pa ddull addasu'n union a ddefnyddir. Serch hynny, tybir mai'r swm a godid yn sgil y Dreth Dirlenwi yng Nghymru yn 2018-19 (blwyddyn gyntaf datganoli trethi) fyddai'r sylfaen ar gyfer y swm a dynnid oddi ar y grant bloc.

1.37 Fel y dangosir yn Nhabl 2, yn ôl cyfrifiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, codir £50m drwy'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru yn 2018-19. Bydd angen i'r addasiad mewn blynyddoedd dilynol ystyried y tueddiadau a ddisgwylir o ran referniw a fyddai wedi digwydd oni fyddai'r dreth wedi'i datganoli. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r addasiad gosbi Cymru am unrhyw gynnydd yn y referniw yn sgil camau a gymerid ganddi, er enghraifft buddsoddi er mwyn sicrhau gwell cydymffurfio â'r drefn drethu.

1.38 Petai Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â rhoi Treth Dirlenwi ar waith yng Nghymru yn lle'r dreth bresennol, byddai angen i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu ar sail cyllideb sylweddol lai (a fyddai'n anodd a chofio ein bod eisoes yn wynebu cyfnod hir o lymder ariannol) neu ddod o hyd i ddulliau eraill o godi referniw o'r fath er mwyn cynnal yr adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd.

- 1.39 Oni fyddem yn codi Treth Dirlenwi yn lle'r un bresennol, anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi fyddai'r opsiwn gwaredu gwastraff rhataf. Byddai hyn yn effeithio ar y system rheoli gwastraff yng Nghymru ac fe allai danseilio ymdrechion yma i hybu'r hierarchaeth gwastraff (fel y'i disgrifir yng Nghyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd) sy'n ceisio cyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a dilyn yn hytrach ddulliau atal, aildddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff.
- 1.40 Gallai hyn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wireddu ei dyheadau a'i thargedau ei hun ar gyfer rheoli gwastraff sydd yn ei *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Ddiwastraff*. Byddai hefyd yn effeithio ar amcanion ehangach Llywodraeth Cymru gyda golwg ar ddatblygu cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd.
- 1.41 Fel yr esboniwyd ym Mhennod 2, mae ardal ffin Cymru a Lloegr yn boblog ac mae amrywiaeth o fusnesau rheoli gwastraff yn yr ardal, gan gynnwys safleoedd tirlenwi, bob ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai peidio â chyflwyno treth yng Nghymru yn lle'r dreth bresennol yn debygol o sbarduno twristiaeth gwastraff lle byddai cludwyr gwastraff o Loegr a'r tu hwnt yn teithio i Gymru i waredu eu gwastraff. Byddai hyn yn effeithio hefyd ar les cymdeithasol ac ar yr amgylchedd, er enghraifft, byddai mwy o darfu ar drigolion sy'n byw wrth ymyl safleoedd tirlenwi a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a mwy o bwysau ar y safleoedd tirlenwi sydd ar ôl yng Nghymru. Gallai hefyd arwain at alw am ddynodi safleoedd tirlenwi newydd.

### Datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi

#### *Egwyddorion*

- 1.42 Mae Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi rhestru'r prif egwyddorion a fydd yn sail i ymagwedd Llywodraeth Cymru at bolisi trethu. Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn trin busnesau neu unigolion sy'n talu trethu'n deg; bydd y drefn yn syml a'r rheolau'n glir gan geisio sicrhau bod costau cydymffurfio a gweinyddu cyn ised â phosibl; bydd yn hybu twf a swyddi a hynny yn ei dro yn gymorth i drechu tlodi; a bydd yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.

#### *Y Prif Ffactorau*

- 1.43 Mae rhai ffactorau pwysig eraill a fydd yn nodwedd bwysig wrth ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi. Ymhlith y rhain, ystyrir sut y gallai'r dreth wneud y canlynol:
- cefnogi a chyflawni nodau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Tuag at Ddyfodol Diwastraff, newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, heb i hynny niweidio busnesau neu amharu arnynt yn ddiangen

- adlewyrchu'r datblygiadau yn y sector gwastraff dros yr 20 mlynedd diwethaf gan gynnwys arferion rheoli gwastraff modern a datblygiadau technolegol, ynghyd â newidiadau i dirwedd Reoleiddiol Ewrop
- cadw'n gyson â threfniadau'r Deyrnas Unedig lle bydd hynny'n briodol er mwyn hwyluso'r gwaith gweinyddu neu er mwyn atal twristiaeth gwastraff a hefyd newid pethau bydd rheswm da dros wneud hynny er mwyn sicrhau mwy o eglurdeb, symleiddio'r gweinyddu a gwella'r cydymffurfio
- datblygu fframwaith gweinyddu effeithlon a chost-effeithiol, yn enwedig a chofio bod nifer y safleoedd tirlenwi'n gostwng a bod disgwyl i reffeniw'r dreth grebachu.
- sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i Awdurdod Cyllid Cymru, Llywodraeth Cymru, byd diwydiant, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach gydweithio er mwyn sicrhau bod y dreth yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol.

**1.44** Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio barn gychwynnol rhanddeiliaid i lywio'r cynigion a restrir yn y ddogfen ymgynghori hon. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu Grŵp Arbenigwyr Technegol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r diwydiant a chynnal gweithdai i randdeiliaid yn y gogledd a'r de.



## **Pennod 2: Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy**

### **CYFLWYNIAD**

**2.1** Yn y bennod hon, ystyrir gwaredu deunyddiau a chyfraddau'r dreth y dylid eu codi. Yn benodol, gofynnir am farn pobl am y canlynol:


- cyfraddau'r dreth
- deunydd trethadwy
- yr ardal lle y bydd gwarediad trethadwy'n digwydd
- credyd ar gyfer gwastraff tirlenwi sy'n cael ei symud oddi ar safle
- gweithgareddau ar safleoedd tirlenwi y dylid eu trin yn weithgareddau gwaredu
- yr eithriadau a'r gostyngiadau y dylid eu rhoi ar waith

### **CYNIGION**

#### **Cyfraddau'r Dreth**

**2.2** Codir y Dreth Dirlenwi ar sail pwysau'r gwastraff sy'n cael ei waredu mewn safle tirlenwi. Mae cyfradd dreth is yn berthnasol i'r deunyddiau sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011. Gweler Atodiad 1. Mae'r gyfradd dreth is wedi gostwng yn gyson mewn termau real ers cyflwyno'r dreth (nid yw wedi cyd-fynd â chwyddiant). £2/y dunnell oedd y gyfradd is pan gyflwynwyd y dreth a'r gyfradd ar hyn o bryd yw £2.50/y dunnell. Mae cyfradd dreth safonol yn berthnasol i bob gwarediad trethadwy arall. Mae'r gyfradd hon wedi codi o £7/y dunnell yn 1996 i £80/y dunnell yn 2014-15.

**Siart 3 – Cyfraddau'r Dreth Dirlenwi**



- 2.3 Yn Natganiad Cyllideb y Deyrnas Unedig yn 2014, cyhoeddwyd y byddai cyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn y dyfodol yn aros yr un fath mewn termau real (ar sail cyfradd chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu) tan 2019/20 o leiaf. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn pennu'r un cyfraddau treth â Chyllid a Thollau EM ar gyfer 2015-16.<sup>9</sup>
- 2.4 Wrth iddi gyflwyno'i chyfraddau treth, dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n sicrhau bod y trethi a godid yn sgil Treth Dirlenwi yn yr Alban yn niwtral o ran refeniw, o'i chymharu â chyfradd Llywodraeth y Deyrnas Unedig; byddai'n mynd i'r afael â phryderon ynghylch 'twristiaeth gwastraff' bosibl petai gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfraddau'r dreth a godid yn yr Alban a'r cyfraddau yng ngweddill y Deyrnas Unedig; a bod hyn yn cynnig y cymhellion ariannol priodol er mwyn ei helpu i gyrraedd ei nod Diwastraff, sef y dylai < 5% o gyfanswm y gwastraff fynd i safleoedd tirlenwi erbyn 2025 - yr un nod ag sydd gan Gymru.


*Datblygu dull gweithredu yng Nghymru*

- 2.5 Un o'r prif egwyddorion sy'n tywys datblygu trethi datganoledig yng Nghymru yw rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod gofyn i fusnesau gael sefydlogrwydd a sicrwydd tymor hir yn sylfaen i'w cynlluniau busnes a'u buddsoddiadau.

<sup>9</sup><http://www.scotland.gov.uk/Publications/2014/10/2706/4>

- 2.6 Er na fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r cyfraddau tan yn nes at yr adeg y cyflwynir y dreth (2018) mae'n yn gofyn am farn pobl yn yr ymgynghoriad hwn a fydd yn ei galluogi i gyrraedd safbwynt ystyriol am gyfraddau'r dreth.
- 2.7 Un opsiwn i Lywodraeth Cymru fyddai cynyddu neu ostwng lefel cyfradd is a/neu gyfradd safonol y Dreth Dirlenwi o'i chymharu â'r dreth a bennir mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig. Gallai cyfradd dreth wahanol rhwng gwledydd cyffiniol greu 'twristiaeth gwastraff' lle y byddai'n rhatach i gludwyr gwastraff deithio ymhellach ar draws ffiniau gwledydd i waredu eu gwastraff. Yn yr un modd, mae'r posibilrwydd y gwelid 'ôl-gludo' lle y byddai loriâu'n croesi ffiniau i gludo llwyth ac wedyn yn cludo gwastraff yn ôl er mwyn manteisio ar gyfradd dreth fwy ffafriol.
- 2.8 Fel y dangosir ar Fap 1, mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd tirlenwi yng Nghymru (a phoblogaeth Cymru) o fewn 50 milltir i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae hyd yn oed rhagor o safleoedd tirlenwi o fewn 50 milltir i'r ffin ar ochr Lloegr. Mae llawer o'r safleoedd tirlenwi yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru yn nes o lawer na hyn at safleoedd yn Lloegr. Mae costau cludo'n debygol o fod yn ffactor o bwys wrth ystyried hyn.

Map 1 - Safleoedd Tirlenwi a Phoblogaethau - Ffin Cymru/Lloegr<sup>10</sup>



<sup>10</sup> Lleoliad safleoedd tirlenwi yn seiliedig ar ddata CThEM 2012  
[http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?\\_nfpb=true&\\_pageLabel=pageExcise\\_ShowContent&id=HMCE\\_PROD\\_009941&propertyType=document](http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?_nfpb=true&_pageLabel=pageExcise_ShowContent&id=HMCE_PROD_009941&propertyType=document)

- 2.9** Yn ystod trafodaethau cynnar Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid, awgrymwyd nad oes fawr o gefnogaeth o blaid newid y gyfradd dreth safonol ond bod lle i ystyried cynyddu'r gyfradd dreth is er mwyn annog cynhyrchwyr gwastraff i beidio ag anfon deunyddiau cymwys i safleoedd tirlenwi ond yn hytrach i'w aildefnyddio, ei ailgylchu a'i adfer.
- 2.10** Mae Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014<sup>11</sup> yn rhoi pŵer i Lywodraeth yr Alban (drwy is-ddeddfwriaeth) i bennu gwahanol gyfraddau treth is ar gyfer gwahanol gategoriâu o ddeunydd cymwys er nad ydynt yn bwriadu rhoi'r pŵer hwn ar waith pan gyflwynir Treth Dirlenwi'r Alban yn y lle cyntaf
- 2.11** Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylid cadw'r cyfle hwn i Lywodraeth Cymru hefyd, er mwyn sicrhau hyblygrwydd yn y dyfodol petai angen gallu ymateb i newidiadau economaidd, amgylchiadau cymdeithasol a/neu ddatblygiadau amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli hefyd, petai Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth yr Alban yn cyflwyno newidiadau sylweddol a/neu sydyn i'w cyfraddau treth, yna, y byddai'n ddymunol iddi hithau allu newid pethau er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol.

**Cwestiwn 1:** Pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cadw'n gyson â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban o ran cyfraddau'r Dreth Dirlenwi a pham?

**Cwestiwn 2:** A yw'r cyfraddau treth safonol ac is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.2) wedi'u gosod ar lefel briodol i Gymru? Esboniwch eich ymateb.

**Cwestiwn 3:** A oes unrhyw werth mewn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwahanol gyfradd o dreth is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.10 - 2.11) a pham?

---

<sup>11</sup> S. 13(6) Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) Act 2014

## Diffinio'r deunydd trethadwy

*Gwastraff y dylid ei gategoreiddio'n ddeunydd cymwys ac y dylid codi'r gyfradd dreth is ar ei gyfer.*

**2.12** Ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011 yn pennu'r deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is (Atodiad 1). Wrth bennu pa ddeunydd y dylid ei restru yn ei Orchymyn cyfradd is, rhaid i Drysorlys EM ystyried a yw'r deunydd yn cyflawni'r meini prawf a ganlyn (yn ogystal ag unrhyw ffactorau eraill y byddant yn eu hystyried yn berthnasol)<sup>12</sup>:

- Gwastraff nad yw'n beryglus
- Potensial isel ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwyr
- Potensial llygru isel yn yr amgylchedd tirlenwi

**2.13** Gan dybio y byddem yn cadw'r gyfradd dreth is ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, byddai'n dda gennym glywed eich barn ynglŷn ag a ddylid newid y rhestr o ddeunyddiau cymwys y codir y gyfradd dreth is amdanynt (Atodiad 1), er enghraifft a ellid mireinio'r rhestr eto er mwyn gwneud pethau'n fwy clir i'r sector gwastraff ac i Awdurdod Cyllid Cymru.

**2.14** Wrth bennu cyfraddau'r dreth ar gyfer gwahanol ddeunyddiau, efallai y gellid ystyried hefyd sut y gall Treth Gwarediadau Tirlenwi helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni amcanion ei pholisi gwastraff a sut y gellid diweddarau'r dreth i adlewyrchu arferion rheoli gwastraff modern a datblygiadau technolegol yn well ochr yn ochr â newidiadau i dirwedd reoleiddio Ewrop.

**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw newidiadau i restr y deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is (Atodiad 1) y dylid eu hystyried, ac ar ba sail?

## Cydymffurfio â'r gyfradd dreth is

**2.15** Ar hyn o bryd, o dan ddeddfwriaeth y Dreth Dirlenwi, *lle bydd deunydd yn cael ei waredu, rhaid ei drin fel petai'n ddeunydd cymwys petai mewn gwirionedd yn ddeunydd o'r fath heblaw bod ynddo swm bychan o ddeunydd nad yw'n gymwys*<sup>13</sup> (mae Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax yn galw hyn yn ddeunydd damweiniol). Mae Cyllid a Thollau EM yn cydnabod y bydd llwyth o wastraff cymwys bron bob tro'n cynnwys rhywfaint o wastraff gweddilliol anghymwys.

<sup>12</sup> A. 42 Deddf Gyllid 1996 ac Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax

<sup>13</sup> A. 63(1) Deddf Gyllid 1996

- 2.16** Mae 'swm bychan' o ddeunydd anghymwys yn gysyniad amwys ac yn agored i'w ddehongli. Mae'r ansicrwydd hwn yn golygu y gallai fod swm sylweddol is o dreth yn cael ei dalu na phetai'r deunydd cyfradd uwch sydd wedi'i gymysgu â'r llwyth cyfradd is yn cael ei drethu ar y gyfradd uwch. Dangosir hyn mewn adroddiad gan y diwydiant<sup>14</sup> a oedd yn dweud petai 30% yn cael ei ystyried yn 'swm bychan', yna byddai llwyth 20 tunnell yn golygu bod bil y Dreth Dirlenwi'n £50 ar y gyfradd dreth is. Ond, petai'r gyfradd uwch yn cael ei chodi, byddai bil y dreth dirlenwi'n sylweddol uwch, sef £1,600 (cyfraddau 2014/15).
- 2.17** Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud eu bod yn poeni y byddai diffinio beth yw swm 'bychan/damweiniol' yn annog pobl i gamymddwyn er enghraifft cymysgu gwastraff yn fwriadol hyd at drothwy penodedig ac mae rhanddeiliaid eraill yn cytuno y dylai fod rhywfaint o ryddid i farnu a hyblygrwydd. Ar y llaw arall, mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo y dylid pennu trothwy a sawl un yn awgrymu y byddai 10% yn fwy na digonol.
- 2.18** Mae eraill yn dadlau y byddai gorfodi Penderfyniad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 2003/33/EC am y meini prawf ar gyfer derbyn gwastraff yn help i lywio cwmnïau gwastraff i ddefnyddio gwell trefniadau gwahanu wrth gasglu (er mwyn sicrhau ailgylchu o safon uchel) ac oddi wrth ddull casglu gwastraff cymysg. Byddai rhoi'r meini prawf ar waith ar gyfer derbyn gwastraff ar waith yn debygol iawn o leihau'n sylweddol y swm bychan o wastraff anghymwys mewn llwyth cymwys.

**Cwestiwn 5:** Pa mor ymarferol fyddai cyflwyno trothwy i ddiffinio 'swm bychan' o wastraff anghymwys mewn llwyth o ddeunydd cymwys?

### *Cyflwyno prawf Colli wrth Danio*

- 2.19** Bydd Cyllid a Thollau EM yn cyflwyno prawf Colli wrth Danio ym mis Ebrill 2015 fel rhan o'i ymdrechion i atal camgategoreiddio mân wastraff gweddilliol safleoedd trin mecanyddol sy'n cael eu gynhyrchu wrth wahanu, didoli a sgrinio (h.y. y mân ddarnau o wastraff sy'n weddill ar ôl prosesu gwastraff). Nid yw'r mân weddillion yn cael eu dynodi ar wahân yn neddfwriaeth y Dreth Dirlenwi, ond mae'n bosibl codi cyfradd is ar eu cyfer os dim ond y deunyddiau sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011 sydd ynddynt neu os deunydd o'r math hwnnw ydynt yn bennaf, ac eithrio bod ynddynt swm bychan o ddeunydd anghymwys.
- 2.20** Bydd y prawf Colli wrth Danio'n golygu samplu'r mân weddillion a'u profi o dan amodau labordy). Mae'r prawf yn pennu pa elfen o'r wastraff sy'n bydradwy

<sup>14</sup> *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

a/neu'n hylosg sy'n dangos potensial llygru tebygol y deunydd<sup>15</sup>. Bydd y prawf yn helpu gweithredwyr safleoedd tirlenwi i benderfynu'r swm cywir o dreth sy'n daladwy ar gyfer y mân-weddillion gan sicrhau bod y gyfradd dreth briodol yn cael ei thalu.

- 2.21** Bydd cyfradd is y Dreth Dirlenwi'n berthnasol lle bydd y mân weddillion yn cyrraedd trothwy'r prawf Colli wrth Danio (elfen bydradwy a/neu hylosg y gwastraff) sef 15% neu'n is (a'r ganran honno'n gostwng i 10% ar ôl blwyddyn). Mae'r drefn brofi hon mewn gwirionedd yn diffinio 'swm bychan' o ddeunydd anghymwys yn fwy manwl ac mewn ffordd haws ei mesur, er nad yw hyn ond yn wir yng nghyd-destun mân weddillion.
- 2.22** Mae rhanddeiliaid i bob golwg yn gyffredinol o blaid y prawf Colli wrth Danio a'r farn gychwynnol yw y dylai Cymru barhau i roi'r prawf hwn ar waith ar ôl datganoli'r Dreth Dirlenwi. Serch hynny, mae rhanddeiliaid wedi codi rhai pethau ynghylch agweddau ymarferol rhoi'r prawf ar waith a bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw golwg ar drefniadau profi Colli wrth Danio Cyllid a Thollau EM a'r Alban.<sup>16</sup>

**Cwestiwn 6:** A fydddech o blaid cyflwyno prawf Colli wrth Danio (LoI) pan gaiff y Dreth Dirlenwi ei datganoli? Esboniwch eich rhesymau.

### Diffinio'r ardal lle y bydd gwaredu trethadwy'n digwydd.

- 2.23** Er mwyn i warediad fod yn drethadwy, mae angen i'r gwaredu ddigwydd mewn safle tirlenwi. Mae'n bosibl i'r safle gynnwys ardaloedd storio neu ardaloedd didoli gwastraff i'w ailgylchu. Os defnyddir gwastraff fel hyn mewn ffordd anhrethadwy, rhaid i hynny ddigwydd mewn 'ardal wybodaeth' ddynodedig. Mae'r gweithgareddau hyn yn gorfod cydymffurfio â gofynion gweinyddol ychwanegol gan gynnwys cadw cofnodion ar wahân a phwyso/nodi nodweddion y gwastraff.
- 2.24** Mae cyfle yma i ddiffinio'n eglurach ym mha ardal y mae gwarediad trethadwy'n digwydd. Mae'r ffordd y mae trefniadau amddiffyn yr amgylchedd yn cael eu rheoleiddio ar draws y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn golygu bod yr ardal dipio bellach yn cael ei nodi'n fwy clir ar drwyddedau safleoedd. Un opsiwn posibl fyddai deddfu i bennu mai'r ardal drethadwy ar safle yw ardal sy'n cael ei dynodi yn y

<sup>15</sup>Bydd y deunydd hylosg yn cynnwys deunydd organig a fydd, pan anfonir ef i safle tirlenwi, yn cynhyrchu methan (nwy tŷ gwydr pwerus) a thrwytholch. Mae'r deunydd organig hwn yn rhan nodweddiadol o wastraff cyfradd safonol (h.y. deunydd nad yw'n gymwys). Nod y polisi gwastraff yw anfon llai o'r deunydd hwn i safleoedd tirlenwi, er mwyn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r safleoedd hyn.

<sup>16</sup>Disgwylir i'r Alban gyflwyno trefn brofi Colli wrth Danio hefyd fel rhan o'i Threth Dirlenwi yno. Mae Cyllid a Thollau EM a'r Alban fodd bynnag wedi datblygu gwahanol ddulliau ar wahân i'w gilydd yn sgil amserlen datganoli Treth Dirlenwi'r Alban.



drwydded amgylcheddol yn ardal dipio. Byddai hyn yn sicrhau gwell cysondeb rhwng gofynion y dreth a gofynion y drwydded amgylcheddol.

- 2.25 Serch hynny, gallai hyn godi ystyriaethau ymarferol ynghylch y pwynt trethu (ar hyn o bryd, mae'r pwynt trethu wrth fynedfa safle lle bydd pont bwysio fel rheol) ac a ddylid symud y pwynt trethu i'r fan lle y bydd gwastraff yn mynd i mewn i'r ardal dipio. Byddai hyn yn newid sylweddol ac fe allai fod yn gymhleth i'w weithredu o ran bwysio a chofnodi nodweddion llwythau. Gallai hefyd ei gwneud hi'n fwy tebygol bod anghydfodau'n codi a bod pobl yn efnadu talu.

**Cwestiwn 7:** A oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol ar gyfer diffinio'r ardal lle y bydd gwaredu trethadwy'n digwydd, ac os felly, sut y gellid datrys y rhain?

### Credyd ar gyfer symud gwastraff oddi ar safle tirlenwi

- 2.26 O dan drefniadau'r Dreth Dirlenwi bresennol<sup>17</sup>, caiff trethdalwyr hawlio credyd am ddeunydd sy'n cael ei symud yn barhaol oddi ar safle tirlenwi naill ai:
- i safle tirlenwi arall
  - i'w ailgylchu, i'w losgi neu i'w aildddefnyddio
- 2.27 Rhaid cydymffurfio ag amodau penodol er mwyn gallu hawlio'r credyd, gan gynnwys gallu dangos cofnodion priodol yn dystiolaeth wrth hawlio. Cyfrifir y credyd ar sail y gyfradd dreth a oedd yn berthnasol adeg gwaredu'r gwastraff yn y lle cyntaf.
- 2.28 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod unrhyw drefniadau sy'n rhoi credyd am symud gwastraff o safleoedd tirlenwi'n deg, yn syml ac yn briodol.

**Cwestiwn 8:** Yn eich barn chi, a oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol sy'n rhoi credyd am symud deunydd yn barhaol o safle tirlenwi, ac os felly, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain.

<sup>17</sup> Part V of the Landfill Tax Regulations SI 1996/1527

### Gweithgareddau ar safleoedd tirlenwi a gaiff eu trin yn waredu (ac sydd felly'n gymwys i'w trethu)

- 2.29** Er mwyn i warediad fod yn drethadwy, rhaid gwaredu deunydd fel gwastraff, sef yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth *pan fydd y sawl sy'n gwaredu yn gwneud hynny gyda'r bwriad o gael gwared ar y deunydd*<sup>18</sup>. Mae ystyr y geiriau hyn wedi arwain at sawl achos llys, a gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn dadlau yn y bôn fod y deunydd yn cael ei 'ddefnyddio' ar ôl iddo fynd i mewn i'r safle tirlenwi ac nad yw wedi'i waredu ac felly nad oes treth yn daladwy arno. Mae gwerth yr hawliadau sydd gerbron y llysoedd ar hyn o bryd yn golygu bod cyfran sylweddol o refeniw blynyddol y Dreth Dirlenwi o dan fygythiad.
- 2.30** Cyflwynodd Cyllid a Thollau EM Orchymyn y Dreth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig Safleoedd Tirlenwi ) 2009 ynghyd â chanllawiau ychwanegol gyda'r bwriad o'i gwneud hi'n fwy clir pa weithgareddau ar safleoedd tirlenwi sydd i'w trin yn warediadau. Mae'r Gorchymyn yn rhestru'r gweithgareddau sy'n gymwys i'w trethu - gan gynnwys deunydd sy'n cael ei dderbyn ar safle tirlenwi a ddefnyddir ar y safle hwnnw. Serch hynny, mae hwn yn faes sy'n dal i gael ei herio er enghraifft, - a yw'r nwy methan a gynhyrchir o ddeunydd sydd wedi'i anfon i'w dirlenwi'n ddefnydd o'r deunydd na ddylai felly fod yn drethadwy.
- 2.31** Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio ffyrdd o gynllunio Treth Dirlenwi yn lle'r un bresennol sy'n ystyried y materion sy'n codi yn yr achosion hyn ac sy'n cynnig eglurdeb i'r trethdalwr a hefyd i Awdurdod Cyllid Cymru. Un opsiwn sydd wedi'i gynnig yw ystyried deddfu ar y sail bod yr holl ddeunydd sy'n mynd i safle tirlenwi (ac eithrio'r deunydd hwnnw sydd wedi'i eithrio'n benodol) yn gymwys i'w drethu.
- 2.32** Rydym yn gobeithio mabwysiadu ymagwedd synnwyr cyffredin at eitemau a fyddai'n cael eu heithrio; gallai hyn gynnwys er enghraifft, offer a pheiriannau sy'n gwneud y gwaith tipio a deunydd sy'n cael ei storio mewn ardal nad yw'n ardal waredu. Rydym hefyd am sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn ategu ymdrechion i aildefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff ac yn lleihau beichiau gweinyddol.

**Cwestiwn 9:** Beth fyddai goblygiadau ymarferol deddfu ar y sail bod yr holl ddeunydd sy'n mynd i safle tirlenwi (ac eithrio'r deunydd hwnnw sydd wedi'i eithrio'n benodol) yn gymwys i'w drethu?

<sup>18</sup> A. 64(1) Deddf Gyllid 1996

**Cwestiwn 10:** Pa weithgareddau y byddech yn disgwyl iddynt gael eu heithrio (peidio â chael eu trethu) a pham?

**Cwestiwn 11:** A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut y gallem wneud y gweithgareddau trethadwy a'r rhai anhrethadwy ar safle tirlenwi'n fwy clir a beth fyddai goblygiadau ymarferol y rhain?

### Eithriadau a Gostyngiadau

**2.33** O dan drefniadau'r Dreth Dirlenwi bresennol<sup>19</sup> ceir nifer o eithriadau lle nad yw'r Dreth Dirlenwi'n daladwy os cydymffurfir ag amodau penodol. Dyma'r amodau hynny:

- Ysgeintiadau - deunydd a dynnir o ddŵr
- Gwastraff mwyngloddio a chwarelydda
- Llenwi chwareli
- Mynwentydd anifeiliaid anwes
- Gwastraff lluoedd sy'n ymweld (NATO)

**2.34** Yn ystod trafodaethau cychwynnol Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid, mae rhai wedi holi a ddylai Treth Gwarediadau Tirlenwi gynnwys eithriadau neu ostyngiadau, gan awgrymu y gallai hyn fod yn agored i gamfanteisio, anghysondeb wrth eu rhoi ar waith ac y gallai arwain at anghydfod. Yn ogystal â hyn, gallai nifer yr eithriadau a'r gostyngiadau hefyd ychwanegu at gymhlethdod y dreth ac ychwanegu costau gweinyddu.

**Cwestiwn 12:** A ydych yn meddwl y dylid dileu neu addasu unrhyw rai o'r eithriadau presennol? Esboniwch eich ymateb.

**2.35** Rhoddir gostyngiad ar gyfer dŵr hefyd<sup>20</sup> os cydymffurfir ag amodau penodol. Mae'n bosibl rhoi gostyngiad ar gyfer y dŵr sydd mewn gwastraff lle nad yw'n bresennol yn naturiol wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r gwastraff. Mae sawl rheswm dros ychwanegu dŵr at wastraff, gan gynnwys i'w gludo er mwyn ei waredu ac yn

<sup>19</sup> A. 43-45 o Ddeddf Cyllid 1996 ac Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax

<sup>20</sup> Rheoliad 44 o'r Reoliadau'r Dreth Dirlenwi 1996 (SI 1996/1527) ac Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax

sgil proses ddiwydiannol.

- 2.36** Cydnabyddir yn gyffredinol bod y gostyngiad ar gyfer dŵr yn eithaf cymhleth, a bod hyn yn gallu arwain at fwy o gamfanteisio, anghysondeb ac anghydfodau. Hefyd, o safbwynt amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd, mae rhai'n poeni am y llygredd sy'n cael ei achosi wrth waredu dŵr i safle tirlenwi. Mae gwaredu gwastraff hylifol mewn safleoedd tirlenwi wedi cael ei wahardd hefyd o dan Gyfarwydddeb Tirlenwi'r Undeb Ewropeaidd. Felly, efallai fod llai o angen rhoi gostyngiad ar gyfer dŵr nag a oedd yn 1996 pan gyflwynwyd y Dreth Dirlenwi gyntaf.

**Cwestiwn 13:** A oes dadl o blaid dileu neu addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr? Esboniwch eich ymateb.

- 2.37** Mae rhanddeiliaid eraill wedi dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn cyflwyno eithriadau a gostyngiadau newydd, gan awgrymu y gallai hyn fod yn ffordd o deilwra'r dreth i adlewyrchu gwahanol amgylchiadau a rhoi'r dreth ar werth mewn ffordd decach.

**Cwestiwn 14:** A ydych yn meddwl bod lle i gyflwyno eithriadau neu ostyngiadau newydd, ac os felly, beth ddylai'r rhain fod a pham?

## Pennod 3: Cydymffurfio a Gorfodi

### CYFLWYNIAD

- 3.1 Mae'r Bennod hon yn ystyried cynigion i sicrhau bod fframwaith cydymffurfio a gorfodi effeithiol yn cael ei roi ar waith a bod cyn lleied o effeithiau negyddol ag y bo modd yn sgil gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon, yn enwedig y rheini a achosir gan y sawl sy'n ceisio efadu talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Yn benodol, mae'n ceisio barn pobl am hyn:
- Gwella'r rheoleiddio:
    - Defnyddio pontydd pwyso
    - Ehangu'r diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys dyddodion gwastraff anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth
    - Cosbau troseddol a sifil
  - Sicrhau bod efadu talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl
  - Mynd i'r afael ag Osgoi Talu'r Dreth

### Y CEFNDIR

- 3.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu unrhyw drethi sy'n ddyledus o'u gwirfodd gan gydnabod bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar arian o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud talu trethi datganoledig mor rhwydd â phosibl. Serch hynny, bydd lleiafrif o bobl yn ceisio osgoi talu treth. Gall efadu talu treth roi mantais annheg i bobl dros y rheini sy'n talu eu trethi ac mae'n golygu bod llai o arian ar gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn annerbyniol a bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu trefniadau cadarn i rwystro hyn.
- 3.3 Cafwyd achosion o efadu talu'r Dreth Dirlenwi. Yn aml iawn, achosion lle mae pobl wedi ceisio osgoi'r gyfradd dreth uwch oedd y rhain. Mae'r gyfradd dreth safonol wedi codi'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf (i £80/y dunnell yn 2014/15) ac mae rhai pobl yn meddwl bod yr elw y gellir ei wneud drwy weithgareddau gwastraff anghyfreithlon yn gwrthbwysu'n sylweddol y risg o gael eu dal.
- 3.4 Mae'n bosibl osgoi talu'r Dreth Dirlenwi mewn sawl ffordd, gan gynnwys camgategoreiddio gwastraff, peidio â datgan gwastraff, a chamfanteisio ar eithriadau a gostyngiadau. Gall mathau eraill o gamymddwyn ddylanwadu'n uniongyrchol ar gymunedau hefyd, gan gynnwys safleoedd gwastraff anghyfreithlon, tipio anghyfreithlon, tanau gwastraff ac allforio gwastraff yn anghyfreithlon.

- 3.5 Mewn adroddiad diweddar gan y diwydiant<sup>21</sup> gwelwyd bod troseddau gwastraff yn costio oddeutu £568 miliwn y flwyddyn i economi'r Deyrnas Unedig. Y ffigur pro-rata ar gyfer economi Cymru fyddai oddeutu £28 miliwn y flwyddyn.<sup>22</sup>
- 3.6 Canfu'r modelu a gyflwynir yn yr un adroddiad fod pob £1 a werir ar orfodaeth ym maes troseddau gwastraff yn golygu y gall y Llywodraeth ddisgwyl adennill rhwng £3.60 a £5.60.
- 3.7 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dechrau canolbwyntio mwy ar droseddau gwastraff yn y flwyddyn ddiwethaf, a rhoddwyd £5m i Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff yn Lloegr.

### **Ymdrechion sydd ar y gweill i sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff yng Nghymru.**

- 3.8 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol swyddogaeth reoleiddio i sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff, a bod gwastraff yn cael ei reoli heb niweidio'r amgylchedd na iechyd pobl.
- 3.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cysylltu'n glos ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ynghylch y cynlluniau a gynigir yn ei Chynllun Gweithredu ar Droseddau Gwastraff ac wedi bod yn trafod â Cyfoeth Naturiol Cymru pa gamau y gellir eu cymryd yng Nghymru i fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ym maes gwastraff a gwella perfformiad safleoedd a'r cydymffurfio yn y sector gwastraff. Yn y tymor byr, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â Defra am y newidiadau i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ymestyn rhai o'r pwerau gorfodi sydd ar gael i'r rheoleiddiwr. At hynny, mae'r ymgynghori<sup>23</sup> hefyd yn cynnwys Cais am Dystiolaeth sy'n gwahodd pobl i fynegi eu barn am gamau eraill y mae'r Llywodraeth yn dymuno'u hystyried er mwyn mynd i'r afael â throseddau gwastraff.
- 3.10 Mae polisi gwastraff wedi'i ddatganoli ac mae Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru yn datblygu amrywiaeth o gynlluniau i fynd i'r afael â throseddau gwastraff. Mae'r rhain yn cynnwys camau yn strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon - *Cymru Ddi-dipio*<sup>24</sup> ac ymgynghoriad a gwblhawyd yn ddiweddar â Defra ar bwerau cychwyn yn y Ddeddf Cymdogaethau Glân i gryfhau pwerau awdurdodau lleol i atafaelu cerbydau yng nghyswllt troseddau sy'n ymwneud â gwastraff.

<sup>21</sup> *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

<sup>22</sup> Mae'r ffigur hwn yn cynnwys efadu talu'r dreth (tybir mai tua £157m yw hyn), allforion anghyfreithlon ac adfer safleoedd gwastraff anghyfreithlon, llosgi anghyfreithlon a thipio anghyfreithlon.

<sup>23</sup> <http://wales.gov.uk/consultations>

<sup>24</sup> <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/cleanneighbour/flytipping/?skip=1&lang=cy>

**3.11** Mewn datblygiadau eraill, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu system dyletswydd gofal electronig (e-doc) a fyddai'n hwyluso trefn gyson a chywir i drosglwyddo cofnodion gwastraff drwy'r gadwyn gasglu a rheoli. Gallai datblygu a mabwysiadu system e-doc fod o fudd o ran symleiddio trefniadau gweinyddu'r dreth a hybu cydymffurfio.

### CYNIGION

**3.12** Fel y dywedwyd yn egwyddorion trethu'r Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sefydlu trefniadau trethu yng Nghymru sy'n syml ac yn hawdd eu deall. Bydd hyn yn help i hybu cydymffurfio, yn enwedig ymhlith y rheini sydd o ddifri'n cael eu drysu neu ambell waith yn ddiogel wrth dalu eu treth.

**3.13** Serch hynny, mae lleiafrif bach sy'n mynd ati'n fwriadol i osgoi talu trethi a thrwy drafod â rhanddeiliaid, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nifer o opsiynau i sicrhau bod llai o gyfle i bobl beidio â chydymffurfio.

### Gwella'r rheoleiddio

*i) Cyflwyno dyletswydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddefnyddio pont bwysu lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi neu'n agos at y safle, ynghyd a chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny.*

**3.14** Mae swm y dreth sy'n ddyledus yn cael ei gyfrifo ar sail pwysau'r deunydd sy'n cael ei waredu; felly mae gofyn cael methodolegau pwysu digon cywir i sicrhau bod y broses yn gyson, yn agored ac yn deg. Ar hyn o bryd, mae Canllawiau Treth Dirlenwi Cyllid a Thollau EM (LFT1) yn dweud bod *disgwyl* i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddefnyddio pont bwysu os oes un yno.

**3.15** Er mwyn gwneud pethau'n fwy clir i drethdalwyr ac i Awdurdod Cyllid Cymru, gellid cyflwyno dyletswydd i ddefnyddio pont bwysu lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi neu'n agos at y safle ynghyd â chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny.

**3.16** Byddai gofyn rhoi trefniadau eraill ar waith petai pont bwysu'n torri neu pan na fyddai pont bwysu arall ar gael yn y cyffiniau. Byddai angen cytuno ar y trefniadau hyn ag Awdurdod Cyllid Cymru.

**3.17** Gallai hyn greu maes chwarae tecach rhwng gweithredwr a gallai fod yn rhwystr ariannol sy'n gwrthbwysu'r risg/elw sydd i'w wneud trwy danddatgan gwastraff.

**3.18** Bwriedir i Dreth Dirlenwi yr Alban gyflwyno dyletswydd i ddefnyddio pont bwysu a chosb gyfatebol yn yr Alban.

**Cwestiwn 15:** Beth fyddai goblygiadau ymarferol rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pont bwysu lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi, neu yn y cyffiniau agos, ynghyd a chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny?

### *ii) Estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi*

- 3.19** Mae strwythur y Dreth Dirlenwi yn golygu na ellir ei gorfodi ar warediadau gwastraff anghyfreithlon oherwydd nad ydynt yn safleoedd tirlenwi'n unol â diffiniad y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, petai'r Dreth Dirlenwi wedi bod yn daladwy am waredu gwastraff anghyfreithlon, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif y byddai safle gwastraff anghyfreithlon a ganfuwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar wedi bod yn atebol am dalu dros £2 filiwn o dreth.
- 3.20** At hynny, cofnodwyd dros 32,000 o ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus yng Nghymru yn ystod 2013/14 gan gostio bron £2 filiwn i glirio ar eu hôl<sup>25</sup>. Roedd y digwyddiadau hyn yn amrywio o ran eu maint o fag bin o sbwriel i ddympio llwythi o wastraff ar raddfa fawr o gefn lori.
- 3.21** Mae gwaredu gwastraff mewn ffordd anghyfreithlon yn codi amrywiaeth o bryderon amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau ac o ran iechyd y cyhoedd. Mae hefyd yn rhoi busnesau gwastraff cyfreithlon o dan anfantais oherwydd bydd gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu ac yn codi prisiau is na'r rheini sy'n cadw'r gyfraith. Mae hefyd yn golygu bod llai o arian ar gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus.
- 3.22** Bydd Treth Dirlenwi yr Alban<sup>26</sup> yn diffinio safle tirlenwi'n ehangach nag y mae deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, gan estyn cwrmpas y dreth y tu hwnt i waredu mewn safle trwyddedig (h.y. safle sydd â'r trwyddedau neu'r awdurdod gofynnol) i gynnwys gwaredu hefyd ar unrhyw dir lle y dylid bod wedi cael caniatâd ond lle nad yw hynny wedi digwydd. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i unrhyw sy'n cael ei ddal yn gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon (ac/neu unrhyw un sy'n gwybod am y gwaredu hwnnw ac yn caniatáu iddo ddigwydd) dalu'r dreth am ei waredu yn y fan honno ac unwaith eto pan gaiff y gwastraff ei symud i safle tirlenwi trwyddedig. Mae Llywodraeth yr Alban wedi estyn y diffiniad o safle tirlenwi gan fwriadu iddo fod yn rhwystr ariannol ychwanegol rhag cyflawni troseddau amgylcheddol fel hyn gan aildafoli'r risg fel bod canlyniadau cael eich dal yn gwrthbwysu'r elw posibl.
- 3.23** Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno estyniad tebyg i'r diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwrmpas y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Gallai hyn fod yn ffordd arall o ategu Strategaeth

<sup>25</sup>Data tipio anghyfreithlon - Gwybodaeth reoli y bydd awdurdodau lleol yn ei rhoi i Asiantaeth yr Amgylchedd yw hon.

<sup>26</sup>aa 12 (3) ac 16(3) o Ddeddf Treth Dirlwni (yr Alban) 2014



Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru<sup>27</sup>. Serch hynny, bydd angen mabwysiadu estyniad tebyg o'r diffiniad o safleoedd tirlenwi yn ofalus er mwyn sicrhau i) cyn lleied o effeithiau negyddol â phosibl yn sgil gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon a ii) sicrhau trefniadau gorfodi cost effeithiol, gan gynnwys trefn weinyddu syml a'r costau gweithredu.

**Cwestiwn 16:** Beth fyddai goblygiadau ac ystyriaethau ymarferol estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwrpas y dreth?

### *iii) Cosbau Troseddol a Sifil*

**3.24** Roedd y Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli trethi datganoledig yn esbonio, wrth ddatblygu fframwaith cosbi, y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried i ba raddau y defnyddir dull cyson ar gyfer trethi sydd wedi'u datganoli yn eu crynswth ac ymhle y gallai fod yn briodol dilyn dull penodol wrth ymdrin â threthi unigol h.y. y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

**3.25** Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus a ddylid cyflwyno cosbau sifil a chreu troseddau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd yn bwysig ystyried sut y gellid tafoli'r risg er mwyn i'r tebygolrwydd o gael eich dal a chanlyniadau hynny wrthbwysu'r elw posibl. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn bwysig i'r gosb fod yn gymesur â'r trosedd.

**3.26** Mae trefniadau'r Dreth Dirlenwi bresennol yn cynnwys amrywiaeth o droseddau (a chosbau cyfatebol) a chosbau sifil. Mae'r cosbau sifil yn cynnwys methu â gwneud y canlynol:

- cofrestru neu ddadgofrestru
- hysbysu nad oes yn rhaid ichi gofrestru rhagor
- hysbysu Cyllid a Thollau EM am reolydd safle tirlenwi
- cadw cofnodion
- darparu gwybodaeth a chofnodion
- cydymffurfio a'r rheoliadau o dan Ran III o Ddeddf Cyllid 1996
- hysbysu am danasesu gan Gyllid a Thollau EM neu am wallau yn nogfennau trethdalwr o dan rai amgylchiadau

**3.27** Mae troseddau'n cynnwys gwybod eich bod yn efadu talu treth mewn ffordd dwyllodrus, yn darparu gwybodaeth gau ac yn llofnodi contract tirlenwi a chithau â rheswm dros gredu bod rhywun yn osgoi talu treth ar y gwarediad dan sylw. Pan

<sup>27</sup>Gellir darllen Strategaeth Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru yn: <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/cleanneighbour/flytipping/?lang=cy>

fydd rhywun wedi'i gael yn euog o drosedd troseddol a nodir yn Rhan IV o Atodlen 5 o Ddeddf Cyllid 1996, mae'r cosbau a allai ddeillio o'r euogfarn honno wedi'u rhestru yno hefyd ac maent yn cynnwys cosb ariannol a/neu garchar.

- 3.28** Yn 2014, cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu ganllawiau newydd i ynadon am ddedfrydu ar gyfer troseddau amgylcheddol. Un peth pwysig yw bod y canllawiau hyn yn dweud na ddylai fod yn rhatach i rywun droseddu nag iddo ddilyn y camau priodol. Dylai ynadon sicrhau bod y cyfuniad o orchmynion ariannol a orfodir (iawndal, atafaelu os yw hynny'n briodol a dirwyo) yn dileu unrhyw fudd economaidd sy'n deillio o droseddu.
- 3.29** Bydd troseddau amgylcheddol yn aml yn cynnwys elfen o efadu'r Dreth Dirlenwi. Felly, bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, y Rheoleiddwyr, yr Heddlu a chyrrff gorfodi eraill i gydweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ym maes gwastraff. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda'r Cyngor Dedfrydu i sicrhau bod dedfrydu priodol yn rhoi sylw i unrhyw dreth dirlenwi y bydd rhywun yn efadu ei thalu.

**Cwestiwn 17:** A oes unrhyw anawsterau ynghlwm wrth y drefn gosbi bresennol, ac os oes, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

### *iv) Gweithgarwch ym maes Cydymffurfio*

- 3.30** Mae Adroddiaid Eunomia am droseddau gwastraff yn dweud: "Whatever the level of penalties...they will not act as a deterrent unless offenders believe it is likely that they will be caught and prosecuted."<sup>28</sup>
- 3.31** Yn ôl rhanddeiliaid, yn ystod y 5 - 10 mlynedd diwethaf, mae Cyllid a Thollau EM wedi cynnal llai o archwiliadau ar safleoedd gan roi rhagor o bwyslais ar drefniadau wrth ddesg i ganfod ac atal achosion lle bydd pobl yn efadu talu'r Dreth Dirlenwi. Rydym yn cael ar ddeall mai'r rheswm dros hyn, yn rhannol o leiaf, yw bod y gyllideb o dan bwysau a bod blaenoriaethau gweithredol eraill (a chofio mai treth fach yn y Deyrnas Unedig yw'r Dreth Dirlenwi).
- 3.32** Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi gweld 'rhagor o waith yn y maes' yng Nghymru er mwyn sicrhau trefn orfodi fwy effeithiol. Mae momentwm cynyddol o blaid y farn hon ac fe roddodd y Canghellor £5m o arian ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd yn ddiweddar (arian a fyddai fel arall wedi mynd at y Gronfa Gymunedol Tirlenwi) er mwyn sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol

<sup>28</sup> *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

ym maes cyfraith gwastraff, yn enwedig camgategoreiddio gwastraff, safleoedd gwastraff anghyfreithlon ac allforion anghyfreithlon.

**Cwestiwn 18:** A oes angen rhagor o weithgarwch gorfodi yn y maes, yn hytrach nag wrth ddesg? Os oes, esboniwch eich barn a rhowch dystiolaeth/esboniwch y manteision lle bo modd.

### Sicrhau bod efadu talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl

**3.33** Bydd yn bwysig cryfhau ymwybyddiaeth o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn gwella dealltwriaeth a chydymffurfiaeth. Mae angen rhannu gwybodaeth a chuddwybodaeth yn effeithiol hefyd rhwng Awdurdod Cyllid Cymru, y Rheoleiddwyr, yr Heddlu a chyrff gorfodi eraill; mae hyn yn cynnwys mynd ar drywydd unigolion sy'n cyflawni troseddau gwastraff a'u herlyn er mwyn rhwystro digwyddiadau eraill. Fel rhan o hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sefydlu mecanweithiau chwythu chwiban cadarn.

**Cwestiwn 19:** A oes unrhyw gamau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i ddefnyddio'i phwerau trethu newydd i wella'r cydymffurfio a'r gorfodi ac i sicrhau bod efadu talu'r Dreth Dirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl? Os oes, disgrifiwch y camau posibl hynny.

### Mynd i'r afael ag Osgoi Talu'r Dreth

**3.34** Er ei bod yn cael ei chydabod yn gyffredinol bod efadu'r Dreth Dirlenwi'n fater pwysig (ac mae'r cynigion a bennwyd yn gynharach yn y Bennod hon yn ceisio sicrhau cyn lleied o gyfleoedd â phosibl i hyn ddigwydd) byddai'n dda gan Lywodraeth Cymru hefyd gael dealltwriaeth ymarferol o'r math o osgoi a allai ddigwydd yng nghyd-destun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac i ba raddau y byddai'n digwydd.

**3.35** Mae Cyllid a Thollau EM yn esbonio osgoi fel hyn: *Nid yw osgoi talu trethu....yn wahanol i efadu, yn anghyfreithlon ynddo'i hun ond mae'n golygu defnyddio'r gyfraith drethu i sicrhau mantais dreth nad oedd erioed yn fwiad gan y Senedd. Mae'n aml yn cynnwys trafodion dyfeisiol, artiffisial nad oes fawr neu ddim pwrpas iddynt ar wahân i leihau'r dreth sy'n daladwy.*<sup>29</sup>

<sup>29</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/tackling-tax-avoidance--2>

- 3.36** Mae'r sawl sy'n osgoi talu treth yn cael mantais annheg dros y rheini sy'n talu'r swm teg o dreth. Mae hefyd yn golygu bod llai o arian ar gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus. Fel y dywed Cyllid a Thollau EM, mae hefyd yn tansellio ymddiriedaeth yn y system drethu ehangach.
- 3.37** Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru fod yn gefn i drethdalwyr sy'n talu'r swm treth priodol yn brydlon, ond yn cymryd camau llym yn erbyn y rheini sy'n osgoi, neu'n ceisio osgoi talu treth. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyfyngu'r opsiynau sydd ar gael i Awdurdod Cyllid Cymru ddelio ag osgoi talu treth mewn ffordd ymosodol neu fwriadol, a bydd yn ystyried ystod lawn yr arfau gweithredol, polisi a deddfu sydd ar gael i wireddu'r nod hwn.
- 3.38** Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod angen i'w disgwyliadau fod yn glir, a bydd yn rhoi cymorth a chanllawiau cynhwysfawr am ystyr ei deddfwriaeth ac am sut y caiff ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod trethdalwyr yn gallu gweithredu'n hyderus o fewn y system drethu newydd.
- 3.39** Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru am gasglu a rheoli trethi datganoledig yn cynnwys nifer o gwestiynau am fanteision Rheol Gyffredinol yn erbyn Osgoi neu Gamddefnyddio (GAAR), a'r posibilrwydd y byddai angen camau diogelu a chamau eraill yn gefn i'w rhoi ar waith ac i alluogi hynny ynghyd ag i sicrhau eu bod yn gymesur.
- 3.40** Ar sail yr ymatebion a gafwyd, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'i rheol osgoi talu trethi ei hun yng Nghymru er mwyn i Awdurdod Cyllid Cymru allu gwrthweithio mantais dreth trefniadau a gweithgareddau osgoi. Defnyddir Rheoli Gwrth-Gamddefnyddio Gyffredinol y Deyrnas Unedig a Rheol Gwrth-Osgoi Gyffredinol yr Alban yn sail ar gyfer hyn. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar brofiad a gwybodaeth ehangach wrth ystyried i ba raddau y dylid rhoi'r rheol hon ar waith gyda golwg ar drethi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Bydd natur a chwmpas rheol osgoi talu trethi Cymru'n cael eu pennu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a hefyd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Dreth Trafodiadau Tir.
- 3.41** Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli nad yw GAAR y Deyrnas Unedig yn berthnasol ar hyn o bryd i'r Dreth Dirlenwi, er bod GAAR yr Alban yn berthnasol i Dreth Dirlenwi'r Alban. Er mwyn llywio ystyriaethau Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, byddai'n croesawu sylwadau ynglŷn ag a oes tystiolaeth o osgoi talu'r Dreth Dirlenwi bresennol, gan gadw mewn cof bod osgoi yn rhywbeth sy'n digwydd o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth ond nad yw'n cyd-fynd ag ysbryd y ddeddfwriaeth hon neu'r bwriad sy'n gefn iddi.

**Cwestiwn 20:** Yn eich barn chi, a oes tystiolaeth o osgoi talu'r Dreth Dirlenwi bresennol a beth yw natur yr osgoi hwn?

## Pennod 4: Gweinyddu

### CYFLWYNIAD

- 4.1 Mae'r Bennod hon yn ystyried cynigion i symleiddio a moderneiddio prosesau gweinyddol a sicrhau ei bod yn hawdd cydymffurfio. Yn benodol, mae'n ceisio barn pobl am hyn:
- cysoni'r cyfnod anfonebu â'r flwyddyn ariannol
  - goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofyniad defnyddio codau Catalog Gwastraff Ewrop wrth lenwi'r ffurflen dreth
  - cyfleoedd i symleiddio a moderneiddio ffeilio ffurflenni treth gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac arlein
  - o dan ba amgylchiadau y mae'n briodol rhoi gostyngiad ar gyfer dyledion drwg
  - datrys anghydfodau ynghylch y dreth

### Y CEFNDIR

- 4.2 Mae'r Dreth Dirlenwi'n cael ei thalu gan weithredwyr safleoedd tirlenwi. Ar hyn o bryd mae 28 o safleoedd tirlenwi a 23 o gwmnïau'n eu gweithredu yng Nghymru. Mae nifer fach o weithredwyr sy'n gweithredu yng Nghymru hefyd yn gweithredu mewn rhannau eraill o Brydain Fawr. Ar ôl datganoli'r Dreth Dirlenwi i Gymru, gall fod tair gweinyddiaeth dreth wahanol ar waith ym Mhrydain Fawr y bydd gofyn i'r gweithredwyr gwastraff hyn gydymffurfio â hwy.
- 4.3 Hefyd, mae polisi gwastraff Llywodraeth Cymru yn debygol o leihau'n sylweddol faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn effeithio ar y refeniw a gynhyrchir drwy'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac mae nifer y safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn debygol o fod yn llai na deg erbyn 2020.
- 4.4 Felly, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu system weinyddol syml ac effeithlon ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n gost-effeithiol, yn gymesur â'r dreth a godir ac yn faich ysgafn i weithredwyr safleoedd tirlenwi ei ysgwyddo.

### CYNIGION

#### Y cyfnod anfonebu

- 4.5 Ar hyn o bryd, bydd gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n talu'r Dreth Dirlenwi bob chwarter. Cyllid a Thollau EM sy'n pennu'r dyddiad talu chwarterol er mwyn ei alluogi i reoli'r llif gwaith. Nid yw o reidrydd yn cyd-daro â'r flwyddyn ariannol nac ychwaith â'r ffurflenni gwastraff chwarterol y bydd gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn eu llenwi i Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'u gofynion trwyddedu amgylcheddol.

- 4.6 Un opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yw cysoni'r cyfnod anfonebu chwarterol â'r flwyddyn ariannol. Byddai hyn hefyd yn golygu ei fod yn cyd-daro â'r trefniadau i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddychwelyd eu ffurflenni gwastraff i

Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai cysoni'r rhain yn helpu gyda'r gweithgarwch cydymffurfio oherwydd byddai modd eu croeswiro â'i gilydd.

**Cwestiwn 21:** A fydddech chi o blaid cysoni cyfnod dychwelyd y ffurflen dreth â'r Flwyddyn Ariannol? Esboniwch eich rhesymau.

### Codau Catalog Gwastraff Ewrop

- 4.7 Cam arall y gellid ei gymryd fyddai ei gwneud yn ofynnol defnyddio codau Catalog Gwastraff Ewrop (EWC) wrth lenwi'r ffurflen dreth. Mae EWC yn dyrannu cod 6 digid i ddynodi pob gwastraff ac er bod dros 600 o godau EWC, mae canllawiau ar gael ers tro ar sut i'w defnyddio. Mae codau'r EWC yn cael eu defnyddio eisoes i gwblhau nodiadau trosglwyddo gwastraff a'r ffurflenni gwastraff chwarterol i Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 4.8 Byddai hyn yn sicrhau mwy o gysondeb â rheoliadau trwyddedu amgylcheddol ac yn help eto i sicrhau bod pobl yn cydymffurfio drwy symleiddio proses croeswiro ffurflenni treth a gwastraff. Gallai hefyd wneud pethau'n eglurach i drethdalwyr ac i Awdurdod Cyllid Cymru oherwydd bod codau'r EWC yn cynnig diffiniadau manwl o'r gwahanol fathau o wastraff.
- 4.9 Mae codau'r EWC hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff nodi'n glir beth yw ffynhonnell y gwastraff a'i wahanol elfennau, gan atgyfnerthu egwyddorion rheoli gwastraff yn dda. Petai codai'r EWC yn cael eu defnyddio ar gyfer y dreth, mae'n bosib y byddai rhai gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n wynebu costau untro, megis newid eu meddalwedd/anfonebau.

**Cwestiwn 22:** Beth fyddai goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofyniad bod codau Catalog Gwastraff Ewrop yn cael eu defnyddio wrth gwblhau'r ffurflen dreth?

### Ffeilio ffurflenni treth

- 4.10 Trefn ar bapur yn unig yw'r drefn ffeilio bresennol ar gyfer y Dreth Dirlenwi. Bydd Cyllid a Thollau EM yn anfon y ffurflenni treth hunanasesu bob chwarter ac maent yn cael eu dychwelyd drwy'r post gan weithredwyr y safle. Mae'r ffurflen ar gael ar

lein, ond dim ond ar ffurf sampl ac ni all gweithredwyr ei hargraffu. Fel rheol, telir y dreth drwy siec neu drosglwyddiad banc.

- 4.11** Nodwyd bod nifer y gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn debygol o ostwng i lai na 10 erbyn 2020, ac o ostwng eto wrth i wastraff gael ei gyfeirio oddi wrth dirlenwi i'w aildefnyddio, ei ailgylchu, a'i adfer. Oherwydd hyn, efallai y byddai'n anodd cyfiawnhau symud yn llwyr at blatfform ar-lein ar gyfer y Dreth Dirlenwi ar hyn o bryd oherwydd y gost ac oherwydd maint cymharol y dreth. Nid yw ffeilio a thalu'r Dreth Dirlenwi ar lein yn flaenoriaeth i Gyllid a Thollau EM ar hyn o bryd oherwydd mai treth gymharol fach yw hi. Yn yr Alban, lle ceir tua 58 o safleoedd tirlenwi gan oddeutu 52 o weithredwyr, bydd trethdalwyr yn gallu defnyddio system ar lein neu barhau i ddefnyddio'r dull papur.
- 4.12** Byddai'n help inni ddeall yr archwaeth am gymorth ar lein er mwyn inni gadw golwg ar yr opsiwn hwn yn y tymor canol. Serch hynny, mae mân newidiadau y gallem eu gwneud i symleiddio'r broses cyflwyno ffurflenni treth ac a fyddai'n adlewyrchu dyheadau Cymru Digidol Llywodraeth Cymru<sup>30</sup>.
- 4.13** Gallai hyn gynnwys newid fformat y ffurflen dreth er mwyn ei gwneud yn bosibl ei chyflwyno ar ffurf electronig (hynny yw, drwy ebost yn hytrach na gorfod ei phostio fel mae'n rhaid ar hyn o bryd), ac annog rhagor o bobl i dalu drwy ddull electronig. Byddai hyn yn creu arbedion effeithlonrwydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi ac i Awdurdod Cyllid Cymru oherwydd amser yn cael ei dreulio ac arian yn cael ei wario ar argraffu a phostio bob chwarter. Gallai defnyddio ffurflenni electronig hefyd helpu i osgoi gwallau a gwella'r cydymffurfio.

**Cwestiwn 23:** Sut y gallai Llywodraeth Cymru symleiddio a moderneiddio ffeilio ffurflenni treth, gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac ar lein?

### Gostyngiad ar Ddyledion Drwg

- 4.14** Er mai gweithredwyr safleoedd tirlenwi sy'n talu'r Dreth Dirlenwi, byddant yn 'trosglwyddo' y costau hyn i'r cludwyr gwastraff sy'n ei waredu yn eu safleoedd, a bydd y cludwyr yn eu tro yn trosglwyddo'r gost i gynhyrchwyr y gwastraff. Mae proses gostyngiad ar ddyledion drwg ar waith ar hyn o bryd sy'n caniatáu (o dan rai amodau<sup>31</sup>) i weithredwyr safleoedd tirlenwi hawlio'n ôl y gyfran o'r dreth y maent wedi'i thalu i Gyllid a Thollau EM os bydd eu cwsmer yn mynd yn fethdalwr neu heb dalu ei anfoneb o fewn 12 mis. Gall sawl mis fynd heibio cyn i rywun allu adhawlio'r dreth; yn y cyfamser mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n ysgwyddo hyn yn risg i'w busnes.

<sup>30</sup> <http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/digitalwales/?lang=cy>

<sup>31</sup> Rhan VI o Reoliadau'r Dreth Dirlenwi 1996 (A 1996/1527) ac LfT 1: A general guide to Landfill Tax

- 4.15 Er mwyn i fusnesau barhau'n hyfyw, mae'n bwysig mabwysiadu arferion busnes da sydd â threfniadau contract ac yswiriant priodol ar waith. Gallai'r ffaith fod gostyngiad am ddyledion drwg ar gael wneud gweithredwyr yn gyndyn o weithredu'r trefniadau hyn ac mae hyn yn peryglu eto'r refeniw treth a ddefnyddir i ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen ystyried tegwch a chysondeb hefyd oherwydd nad oes gan sectorau busnes eraill yr hawl i gael gostyngiad ar ddyledion drwg ac mae'n rhaid iddynt hwy ysgwyddo'r ddyled honno.
- 4.16 Mae'r Alban wedi penderfynu cyfyngu'r amgylchiadau lle y caiff gweithredwyr safleoedd tirlenwi hawlio gostyngiad ar ddyledion drwg i'r achosion hynny'n unig lle mae cludwr y gwastraff wedi mynd yn fethdalwr yn y ffyrdd a bennir yn eu deddfwriaeth<sup>32</sup>.
- 4.17 Byddem yn croesawu eich barn ynglŷn ag a ddylid cynnig gostyngiad ar gyfer dyledion drwg ac os felly, o dan ba amgylchiadau y mae hyn yn briodol.

**Cwestiwn 24:** A ddylid cynnig gostyngiad ar ddyledion drwg ac os felly, o dan ba amgylchiadau y mae hyn yn briodol?

### Datrys Anghydfodau ynghylch y Dreth

- 4.18 Mae'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig<sup>33</sup> yn rhestru cynigion ar gyfer rheoli a datrys unrhyw anghydfodau a all godi rhwng y trethdalwr ac Awdurdod Cyllid Cymru wrth weinyddu trethi. Gallai anghydfodau godi yn sgil gwahanol farn am faterion megis swm y dreth sy'n ddyledus neu amseru talu'r dreth. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig bod trefniadau ar waith sy'n gallu helpu i ddatrys materion yn deg ac yn gyflym.
- 4.19 Bydd egwyddorion trethu Llywodraeth Cymru yn llywio'r trefniadau apelio yng Nghymru. Yn benodol, bwriedir i'r rhain i fod yn deg, yn syml, yn dryloyw, yn effeithlon ac yn fforddiadwy.
- 4.20 Un o brif amcanion polisi Llywodraeth Cymru fydd ceisio osgoi sefyllfa lle bydd anghydfod yn codi yn y lle cyntaf. Disgwylir i Awdurdod Cyllid Cymru weithio ar sail 'gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf' a meithrin diwylliant o gydweithio â threthdalwyr, gan gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ac esbonio'i benderfyniadau'n briodol. Os bydd anghydfod yn codi, gwneir pob ymdrech i ddatrys pethau'n anffurfiol, mewn ffordd gost-effeithiol ac yn ddi-oed.

<sup>32</sup> Gweler paragraff 25 o Reoliadau Tirlenwi yr Alban (Gweinyddu) 2015.

<sup>33</sup> Mae'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Papur Gwyn Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig a'r dadansoddiad o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

[www.wales.gov.uk/consultations](http://www.wales.gov.uk/consultations)



- 4.21 Fel rhan o hyn, disgwylir i Awdurdod Cyllid Cymru gynnal trafodaethau anffurfiol, ac yn yr un modd â Chyllid a Thollau EM, ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod, cyfryngu er enghraifft, pan fydd hynny'n briodol. Gyda golwg ar lawer o benderfyniadau Awdurdod Cyllid Cymru, bydd hawl i ofyn am adolygiad mewnol o'r penderfyniad hwnnw, ac os na lwyddir i ddatrys anghydfod, bydd hawl i apelio i system Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

**Cwestiwn 25:** A oes gennych unrhyw sylwadau am sut mae'r darpariaethau adolygiadau mewnol ac apeliadau presennol yn gweithio yng nghyd-destun y Dreth Dirlenwi, gan gynnwys yn benodol y bobl sy'n gymwys i ofyn am adolygiad neu apêl?

*Amseru'r taliad pan fydd anghydfod yn codi.*

- 4.22 Ar hyn o bryd, ni fydd Cyllid a Thollau EM yn ceisio taliad am y dreth sy'n ddyledus gan drethdalwr yn ystod proses camau cynnar datrys anghydfod. Serch hynny, oni lwyddir i ddatrys yr anghydfod o hyd, bydd gofyn talu'r dreth sy'n ddyledus cyn i rywun allu cyflwyno apêl gerbron y tribiwnlys.
- 4.23 O dan drefniadau presennol y Deyrnas Unedig, gall trethdalwyr sy'n apelio yn erbyn penderfyniad sy'n mynnu taliad o flaen llaw, o dan rai amgylchiadau, wneud cais am ohirio talu'r dreth nes cwblhau'r apêl. Yn achos y Dreth Dirlenwi, byddai angen cyflwyno cais (i Gyllid a Thollau EM neu petai hwnnw'n methu i'r tribiwnlys apêl) yn dangos y byddai'r gofyniad i dalu'r swm a bennwyd yn achosi caledi i'r apelydd. Lle bydd apêl wedi'i chlywed ond lle nad oes taliad wedi'i wneud o flaen llaw ac mai canlyniad yr apêl yw bod y swm yn ddyledus, bydd angen talu'r swm ynghyd â llog.
- 4.24 Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno ffordd fwy llym o sicrhau taliadau. Mae Deddf Refeniw'r Alban a Phwerau Trethu 2014 yn cynnwys egwyddor gyffredinol i sicrhau taliad yn gyntaf, ac felly, bydd y dreth yn dal yn ddyledus ac yn daladwy tra'n disgwyl adolygiad neu apêl.<sup>34</sup> Mae gan Lywodraeth yr Alban y pŵer i ddarparu (drwy is-ddeddfwriaeth) ar gyfer amgylchiadau lle y gellid gohirio taliad nes y bydd adolygiad neu apêl wedi dod i ben ond nid yw'n bwriadu rhoi'r pŵer hwn ar waith ar hyn o bryd yng nghyswllt Treth Dirlenwi'r Alban. Barn Llywodraeth yr Alban yw y bydd gweithredwr safle tirlenwi sydd i fod i dalu Treth Dirlenwi'r Alban gan amlaf eisoes wedi casglu'r dreth sy'n ddyledus gan y sawl sy'n gwaredu'r gwastraff yn y safle dan sylw.
- 4.25 Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru am gasglu a rheoli trethi datganoledig yn archwilio o dan ba amodau y gellid neu dylid gohirio'r taliad nes clywed apêl. Cafwyd un ar bymtheg o atebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd pedwar

<sup>34</sup> a. 245 o Ddeddf Refeniw'r Alban a Phwerau Trethu 2014.

ar ddeg yn pwysleisio bod angen sicrhau y dylid gwneud darpariaethau ar gyfer amgylchiadau arbennig o heriol. Dim ond dau atebydd a oedd yn meddwl y dylai'r rheolau fod yn fwy llym na'r rheini y mae Cyllid a Thollau EM yn eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

- 4.26 Ar sail yr ymatebion hyn, mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai'r egwyddor talu'n gyntaf fod yn un o brif golofnau ei dull o gasglu a rheoli trethi. Serch hynny, byddai'n dda gennym weld a oes cyfle i symleiddio'r broses bresennol a'i gwneud yn fwy eglur gan ystyried o dan ba amgylchiadau y gallem ganiatáu i rywun ohirio'r taliad, yn benodol er mwyn sicrhau tegwch, mynediad at gyfiawnder, ac mewn achosion o galedi. Bydd natur a chwmpas yr egwyddor talu'n gyntaf yn cael eu pennu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghori hwn.

**Cwestiwn 26:** Yn eich barn chi, a oes amgylchiadau eithriadol lle y dylai trethdalwyr allu gohirio talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi nes bod eu hapêl wedi dod i ben?

## Pennod 5: Lles y Gymuned

### CYFLWYNIAD

**5.1** Wrth ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, mae'n bwysig ystyried sut mae safleoedd tirlenwi ac efadu talu'r Dreth Dirlenwi bresennol yn effeithio ar gymunedau. Bydd y Bennod hon yn trafod:

- a ddylid parhau i ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles y gymuned
- y gweithgareddau arfaethedig a allai gael arian
- yr opsiynau gweinyddol er mwyn sicrhau bod y swm mwyaf posibl yn cyrraedd y cynlluniau

### Y CEFNDIR

**5.2** Mae Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd yn sefydlu'r egwyddor bod gwastraff yn cael ei drin mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd na iechyd pobl. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin yn unol â'r hierarchaeth gwastraff sy'n ceisio cyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a defnyddio dulliau rheoli gwastraff sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy. Mae cymunedau sy'n byw'n agos at safleoedd tirlenwi'n gallu dioddef diffyg amwynder oherwydd hynny ac fe all hyn gynnwys mwy o draffig a sŵn.

**5.3** Cynllun credyd dreth yw'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi sy'n 'gwneud iawn' am rywfaifnt o'r diffyg amwynder yn sgil byw wrth ymyl safle tirlenwi. Pwrpas y gronfa hon yw cymell gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gefnogi prosiectau lleol sydd o fudd i'r cyhoedd yn gyffredinol, i fioamrywiaeth neu i'r amgylchedd. Drwy wneud hynny, mae'r Gronfa'n rhoi cyfle i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddangos eu Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

**5.4** Caiff gweithredwyr safleoedd tirlenwi gyfrannu cyfran o'u rhwymedigaeth treth yn wirfoddol (hyd at 5.1%<sup>35</sup>) i brosiectau cymeradwy a hawlio credyd o 90% ar eu cyfraniad. Caiff gweithredwr y safle tirlenwi ddewis ysgwyddo'r 10% sy'n weddill, neu er mwyn i'r cyfraniadau fod yn niwtral iddynt o ran cost, cânt ofyn i barti annibynnol dalu'r swm sy'n weddill.

**5.5** Mae'n bwysig nodi y bydd cyfraniadau gweithredwyr safleoedd tirlenwi at y Gronfa'n arwain at ostyngiad cyfatebol yn nerbyniadau'r Dreth Dirlenwi; felly bydd llai o refeniw treth ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

---

<sup>35</sup>Y Trysorlys sy'n pennu'r ffigur hwn ac fe all newid bob blwyddyn.

## Gweinyddu

5.6 Cyllid a Thollau EM sy'n llywodraethu'r Gronfa ac mae'n cael ei rheoleiddio gan Entrust ar ei ran.<sup>36</sup> Gan mai cronfa breifat yw hon, mae prosiectau cymeradwy'n gymwys i wneud cais am arian cyfatebol gan amrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus ac Ewropeaidd.

5.7 Rhaid i brosiectau sy'n ceisio cymorth drwy'r Gronfa fod o fewn 10 milltir i safle tirlenwi a rhaid iddynt gydymffurfio ag un o'r chwech amcan a ganlyn:

- **Amcan A:** Adfer tir nad oes modd ei ddefnyddio rhagor oherwydd bod gweithgarwch a arferai ddigwydd yno wedi dod i ben.
- **Amcan B:** Lleihau, atal neu liniaru effeithiau llygredd sydd wedi digwydd neu a allai ddigwydd, yn sgil gweithgarwch sydd bellach wedi dod i ben.
- **Amcan D:** Darparu, cynnal neu wella parc cyhoeddus neu amwynder cyhoeddus arall.
- **Amcan DA:** Gwarchod rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle mae'n digwydd yn naturiol.
- **Amcan E:** Atgyweirio, cynnal neu adfer man addoli neu le o bwys archeolegol.
- **Amcan F:** Darparu gwasanaethau ariannol, gweinyddol neu debyg gan un sefydliad sydd wedi cofrestru ag Entrust i un arall.

5.8 Bydd prosiectau'n cael arian mewn dwy ffordd:


- a) yn uniongyrchol gan weithredwr safle tirlenwi - drwy wneud hyn, rhaid i'r prosiect gofrestru ei hun yn Gorff Amgylcheddol drwy reolydd y gronfa, Entrust; neu
- b) drwy Gorff Dosbarthu Amgylcheddol - sefydliad sy'n dosbarthu arian i brosiectau ar ran gweithredwr safle tirlenwi.

Mae cyfanswm o amgylch 191 o Gyrff Amgylcheddol a Chyrff Dosbarthu Amgylcheddol wedi'u cofrestru yng Nghymru a tua 50 ohonynt yn weithredol ar hyn o bryd.

---

<sup>36</sup> <http://www.entrust.org.uk>

**Ffigur 1: Proses Dosbarthu Bresennol y Gronfa**



**5.9** Nid yw Entrust yn dal dim o'r arian oherwydd bydd hwnnw'n cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i brosiectau drwy Gyrrff Amgylcheddol a Chyrff Dosbarthu Amgylcheddol. Serch hynny, bydd yn cael ffi a chyfran o'r gronfa i dalu ei gostau gweinyddu drwy:

- a) ffi ymgeisio o £100 a delir gan Gyrrff Amgylcheddol pan fyddant yn cofrestru;
- b) ardoll o 2.17%<sup>37</sup> ar bob cyfraniad a gaiff Corff Amgylcheddol a Chorff Dosbarthu Amgylcheddol gan weithredwr safle tirlenwi.

**Heriau gweinyddol**

**5.10** Ar hyn o bryd mae Cyllid a Thollau EM yn adolygu'r Gronfa gyda'r nod o wella llif yr arian i brosiectau<sup>38</sup>. Mae hyn oherwydd bod y ffigurau'n dangos bod y Cyrff

<sup>37</sup> Cyllid a Thollau EM a fydd yn pennu'r ardoll hon bob blwyddyn, a'r ganran a bennwyd ar gyfer 2014/2015 yw 2.17%.

Amgylcheddol a'r Cyrff Dosbarthu Amgylcheddol wedi cronni symiau mawr o arian sydd heb eu gwario (£140 miliwn). Mae hyn yn destun pryder am nad yw'r arian yn cyrraedd cymunedau mor gyflym ag y dylai.

- 5.11 Mae rhai'n poeni hefyd am gostau gweinyddu'r Gronfa. Mae Entrust<sup>39</sup> yn dweud na ddylai costau gweinyddu'r Cyrff Amgylcheddol a'r Cyrff Dosbarthu Amgylcheddol fod yn uwch na 10%. Serch hynny, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y costau hyn mewn gwirionedd yn nes at 11.4%/ Fel y dywedwyd uchod, mae Entrust yn cael ei ariannu hefyd drwy godi ardoll o 2.17% ar y gronfa.
- 5.12 Mewn gwirionedd, defnyddir dros 13% o'r Gronfa i'w gweinyddu, felly ar gyfer pob £100 a gyfrennir ati, bydd prosiect yn cael tua £86.

**Y Gronfa Gymunedol Tirlenwi yng Nghymru.**

- 5.13 Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae dros 52,000 o brosiectau wedi'u cymeradwyo ers sefydlu'r Gronfa yn 1996. O blith y rhain, mae bron 33,000 wedi'u cwblhau a bron 5,500 yn dal i fynd rhagdynt.
- 5.14 Yng Nghymru, cymeradwywyd, 1,532 o brosiectau ers sefydlu'r Gronfa, 3% o gyfanswm y Deyrnas Unedig. Mae 206 o brosiectau ar y gweill ar hyn o bryd. Yng Nghymru ac yn Lloegr, mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau a gymeradwyir yn dod o dan Amcan D, DA ac E. (gweler y diffiniadau ym mharagraff 5.7)
- 5.15 Mae Cymru'n gwneud yn dda o'r Gronfa ac fe gafodd ryw £4m yn 2013-14. Mae rhai o'r prosiectau sydd wedi cael arian yng Nghymru ers sefydlu'r Gronfa wedi'u rhestru yn Nhabl 3.

**Tabl 3: Engbreiffiau o Brosiectau sydd wedi cael arian gan y Gronfa yng Nghymru**

Enw'r Prosiect	Disgrifiad o'r Prosiect <sup>40</sup>	Lleoliad	Amc	Arian y Gronfa Gymunedol £
Adfywio Cymuned drwy wastraff	Adfer tir halogedig wrth ymyl adeilad cymunedol Ar ôl y gwaith adfer, defnyddiwyd y tir i ymestyn adeilad i greu ased ym mherchnogaeth y gymuned a oedd yn darparu gwasanaethau	Rhondda Cynon Taf	A	43,522

<sup>38</sup> <https://www.gov.uk/government/news/government-considers-options-to-improve-the-landfill-communities-fund>

<sup>39</sup> <http://www.entrust.org.uk/>

<sup>40</sup> Mae rhestr lawn o'r Prosiectau a disgrifiadau ohonynt i'w gweld ar wefan Entrust: <http://www.entrust.org.uk/projects>

	ailddefnyddio ac ailgylchu, gwasanaethau trechu tlodi, gwirfoddoli a dysgu seiliedig ar waith, yn ogystal â gwaith cyflogedig ac adfywio cymunedol.			
Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Parc Hailey	Adnewyddwyd Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Hailey Park i gynnwys maes chwarae ac offer ffitrwydd newydd sy'n amgylchedd - gyfeillgar ac yn gwella'r amgylchedd cymdeithasol ac adeiledig . Nod gwella'r amwynder yw helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol	Gogledd Llandaf	D	40,867
Clwb Bocsio Aberman	Adnewyddwyd hen adeilad yn llwyr, y tu mewn a'r tu allan, gan ychwanegu cyntedd, gosod cyflenwad trydan, cawodydd, system wresogi, ffenestri, toiledau a chylch bocsiu newydd er mwyn i'r gymuned allu defnyddio'r lle eto.	Rhondda Cynon Taf	D	90,099
Tirluniau Byw Alun a Chwiler	Bydd y prosiect yn creu, yn adfer ac yn gwella Cynefinoedd sy'n Flaenoriaeth ac sy'n gysylltiedig â rhan uchaf afon Alun ac afon Chwiler, gan ymgysylltu â chymunedau lleol.	Sir Ddinbych	DA	277,807
Apêl Coed Dolforwyn (ar y gweill)	Prynu Coed Dolforwyn a pharhau i wella bioamrywiaeth y safle gan ei gadw ar agor ac yn hygyrch i bobl leol.	Powys	DA	150,000
Eglwys Plwyf Boderwyn (ar y gweill)	Ei gwneud yn bosibl i'r Eglwys barhau drwy atgyweirio'r to. Adnewyddwyd distiau'r to ac aliosod y llechi.	Ynys Môn	E	10,000
Goleulong	Ailwampwyd ardal gegin yr Oleulong er mwyn gwella'r profiad i ymwelwyr.	Bae Caerdydd	E	27,093

## CYNIGION

- 5.16 Fel yr esboniwyd ym Mhennod 1, yn sgil polisi gwastraff Llywodraeth Cymru bydd llai o lawer o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn y blynyddoedd a ddaw, gan arwain at lai o safleoedd tirlenwi. Yn ei hanfod, bydd hyn yn effeithio ar y refeniw a gynhyrchir drwy'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac felly ar faint o arian a fydd ar gael i gefnogi cynlluniau.
- 5.17 Ac ystyried yr uchod, hoffem glywed eich barn am hyn. A ddylid parhau i ddyrannu cyfran o dderbyniadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er budd cymunedau, ynteu a ddylai refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gyd fynd i gyllideb Llywodraeth Cymru i'w ddyrannu'n unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a rhwng gwasanaethau cyhoeddus.

**Cwestiwn 27:** A ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau?

## Gweithgareddau a allai gael arian

- 5.18 Mae nifer o feysydd a allai elwa o'r math hwn o arian pe cytunid y dylid defnyddio cyfran o'r dreth er budd cymunedau. Byddem yn falch o glywed eich barn am yr opsiynau a ganlyn:

### *Cryfhau'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi a sicrhau bod troseddau gwastraff yn cael cyn lleied o effaith â phosibl*

- 5.19 Ers sefydlu'r Gronfa ochr yn ochr â'r dreth yn 1996, mae wedi chwarae rhan bwysig yn ariannu prosiectau yng Nghymru i wneud iawn am rywfaint o'r diffyg amwynder sy'n codi yn sgil byw wrth ymyl safle tirlenwi. Serch hynny, oherwydd bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi a nifer y safleoedd tirlenwi'n gostwng (llai na 10 erbyn 2020) mae'n debygol y bydd llai o amharu ar gymunedau yng nghyffiniau safleoedd tirlenwi.
- 5.20 Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod bod y Dreth Dirlenwi'n dylanwasdu'n ehangach ar gymunedau o ran diffyg amwynder. Mae lleiafrif bach a fydd yn ceisio osgoi talu'r Dreth Dirlenwi ac a fydd yn torri'r gyfraith wrth drin gwastraff. Mae gwaredu gwastraff mewn ffordd anghyfreithlon yn codi amrywiaeth o bryderon amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau ac o ran iechyd y cyhoedd. Mae gwaith ymchwil yn dangos hefyd mai ar ardaloedd di-fraint y mae hyn yn effeithio fwyaf.<sup>41</sup>

<sup>41</sup> *Fly-tipping: causes, inventives and Solutions.* (2006) – <http://www.ucl.ac.uk/jdi>



- 5.21 Ym mhennod 3, disgrifir agwedd Llywodraeth Cymru at sefydlu fframwaith cydymffurfio a gorfodi effeithiol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, ailgyfeiriwyd £5m o'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi i Asiantaeth yr Amgylchedd y llynedd er mwyn sicrhau trefniadau cydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff yn Lloegr,
- 5.22 Drwy fuddsoddi rhagor yn y maes hwn yng Nghymru, gallai fod cyfle i amddiffyn cymunedau yn well rhag gwaredu gwastraff anghyfreithlon. Byddai hyn yn help i wella ansawdd lleoedd ac adfer tir i'w ddefnyddio gan y gymuned. Gallai hefyd gynyddu referniw treth a galluogi ailgyfeirio arian ychwanegol i feysydd eraill a fyddai'n elwa o'r arian hwnnw. Mae ymchwil gan y diwydiant<sup>42</sup> yn dweud hefyd, am bob £1 sy'n cael ei wario ar orfodi, y cynhyrchir rhwng £3.60 a £5.50.

### *Cynlluniau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach*

- 5.23 Mae'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi bresennol yn darparu ar gyfer gwarchod rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle bydd y rheini'n digwydd yn naturiol. Gallai'r prosiectau hyn fod o fudd ehangach i gymunedau drwy wella ansawdd lleoedd ac adfer tir i'w ddefnyddio gan y gymuned.
- 5.24 Awgrymwyd mai'r Gronfa ar hyn o bryd yw'r brif ffynhonnell arian i brosiectau sy'n canolbwyntio ar yr amcanion hyn a hebddi, y byddai'r prosiectau hyn yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lefel yr arian sydd ei angen o ffynonellau eraill.
- 5.25 Felly, gellid rhoi arian yn benodol i brosiectau sy'n canolbwyntio ar gynlluniau bioamrywiaeth a gwella'r amgylchedd a allai ganiatáu i'r prosiectau hyn na fyddent fel arall yn cael eu hariannu barhau i fod o fudd i'r amgylchedd ac i gymunedau.

### *Sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl a'i gyfeirio oddi wrth safleoedd tirlenwi*

- 5.26 Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gynlluniau ac ymyriadau ar waith i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy er mwyn creu Cymru Ddiwastraff, er enghraifft, mae cymorth ariannol ychwanegol wedi'i roi i awdurdodau lleol i'w helpu i gynyddu cyfraddau ailgylchu.
- 5.27 Hyd yn hyn, canolbwyntiwyd fwyaf ar leihau gwastraff awdurdodau lleol a'i ailgylchu. Meysydd nad ydynt yn cael cymaint o gymorth i leihau eu gwastraff ac ailgylchu yw'r sectorau diwydiannol, masnachol ac adeiladu. Gellid defnyddio'r arian i sicrhau llai o wastraff a mwy o ailgylchu yn y sectorau hyn ac i ryddhau rhagor o fanteision i'r amgylchedd drwy gyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi.

---

<sup>42</sup> *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

- 5.28 Mae lle i annog ac addysgu byd diwydiant a'r sector cyhoeddus i weld gwastraff yn adnodd ac i hybu'r sector aildddefnyddio. Gallai cymunedau di-fraint fanteisio hefyd drwy ddefnyddio rhai cynhyrchion a fyddai fel arall wedi'u hanfon i safle tirlenwi a byddai swyddi a chyfleoedd hyfforddi lleol gwerthfawr yn cael eu creu yn y maes aildddefnyddio.
- 5.29 Er mwyn ysgogi twf mewn swyddi, gellid annog busnesau ailgylchu bach i gyflawni'r rôl hon gan ddarparu'r gwasanaethau hyn a sbarduno rhagor o ailgylchu.

### *Mynd i'r afael â Thlodi ac Amddifadedd mewn cymunedau*

- 5.30 Mae tlodi'n gorfodi costau enfawr ar y gymdeithas am ei fod yn golygu llai o gynhyrchiant economaidd, llai o gydlyniant cymdeithasol a mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r lefel sgiliau is, afiechyd a diffyg uchelgais a ddaw yn sgil amddifadedd yn rhwystro potensial economi Cymru.
- 5.31 Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gynlluniau eisoes er mwyn trechu tlodi a gwneud cymunedau'n fwy cydnerth drwy helpu pobl i hyfforddi a dysgu sgiliau newydd er mwyn cael gwaith. Rhoddir y cymorth sydd ei angen i deuluoedd â phlant ifanc gan ddarparu addysg dda ar eu cyfer, tai a chymorth lles a sicrhau bod y cymunedau lle maent yn byw yn ddiogel ac yn ffynnu. Mae'r nodau hyn yn adlewyrchu llawer o amcanion y Gronfa.
- 5.32 Bydd safleoedd tirlenwi'n aml yn cael eu lleoli mewn ardaloedd di-fraint, ac yn yr un modd, ar ardaloedd di-fraint y mae gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yn effeithio fwyaf. Byddai modd gwneud iawn yn rhannol am y diffyg amwynder i ardaloedd di-fraint yn sgil hyn drwy dargedu arian ar eu cyfer. Yna, gallai'r cymunedau hyn feithrin sgiliau cymdeithasol a sgiliau gwaith drwy wirfoddoli, yn ogystal â gwella'u cymuned.

**Cwestiwn 28:** Os bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau, pa un o'r gweithgareddau a ganlyn a ddylai gael budd o'r arian, a pham?

- Cryfhau'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi a sicrhau bod troseddau gwastraff yn cael cyn lleied o effaith â phosibl
- Helpu i leihau gwastraff a throi oddi wrth safleoedd tirlenwi
- Cynlluniau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach
- Trechu tlodi ac amddifadedd mewn cymunedau
- Rhywbeth arall (manylwch)

### Gweinyddu

- 5.33** Esbonnir y trefniadau gweinyddu presennol ym mharagraffau 5.6 i 5.12. Fel y dywedwyd, os bydd y dreth hon ynghyd â chynlluniau eraill yn dal i lwyddo i gyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi, yn ei hanfod bydd hyn yn effeithio ar y refeniw a gynhyrchir yn sgil Treth Gwarediadau Tirlenwi ac felly ar y swm o arian a fydd ar gael i gefnogi cynlluniau.
- 5.34** Os cytunir y dylai cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gael ei dyrannu er budd cymunedau, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sefydlu model gweinyddu syml, cost-effeithiol a sicrhau bod cymaint o arian yn cyrraedd cynlluniau ag y bo modd.
- 5.35** Rhai o'r modelau gweinyddu posibl y mae rhanddeiliaid wedi'u hawgrymu wrthym hyd yn hyn inni eu hystyried eto yw: cadw rhyw ffurf ar y Gronfa Gymunedol Tirlenwi, gan ddsbarthu'r arian drwy gorff sy'n bodoli eisoes neu ddsbarthu'r arian yn uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru. Wrth ystyried y rhain, bydd angen meddwl yn ofalus am gadw rhai o nodweddion presennol y Gronfa, gan gynnwys yr elfen credyd treth, cyfleoedd i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddangos eu cyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol ac arian cyfatebol

**Cwestiwn 29:** A oes gennych chi farn am y model gweinyddu y gellid ei ddefnyddio?

### *Datblygu Rhagor ar y Model Gweinyddu*

- 5.36** Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth a ddylid dal i ddefnyddio cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er budd y gymuned a sut mae gwneud hynny. Bydd eich sylwadau'n help i Lywodraeth Cymru lunio barn am sut i fwrw ymlaen.
- 5.37** Byddwn yn ymgysylltu eto â rhanddeiliaid i ddatblygu'r ffordd ymlaen a ffefrir a'r camau ymarferol. Gallai hyn gynnwys ystyried ffactorau megis ffocws daearyddol yr ariannu (ar hyn o bryd 10 milltir o safle tirlenwi) a chanran yr arian a gyfrennir (ar hyn o bryd 5.1% o atebolrwydd treth gweithredwyr safleoedd tirlenwi).
- 5.38** Hefyd, fe allai fod yn fuddiol ystyried y dull a ddilynir gan Lywodraeth yr Alban gan ei bod hi wedi cyflwyno rhai newidiadau gweinyddol wrth iddi ddatblygu ei Chronfa hithau.
- 5.39** Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn dal i fonitro datblygiadau, yn enwedig adolygiad Cyllid a Thollau EM o'r Gronfa Gymunedol bresennol.

**ATODIAD 1: CRYNODEB O ORCHYMYN Y DRETH DIRLENWI  
(DEUNYDD CYMWYS) 2011**

Grp	Disgrifiad o'r deunydd	Cyflyrau	Nodiadau
1	Creigiau a phriddoedd	Yn digwydd yn naturiol	<p>Mae Grŵp yn cynnwys y canlynol yn unig</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i craig</li> <li>ii Clai</li> <li>iii. Tywod</li> <li>iv. Graean</li> <li>v. tywodfaen</li> <li>vi. Calchfaen</li> <li>vii. carreg wedi'i malu</li> <li>viii. clai tsieina</li> <li>ix. Carreg adeiladu</li> <li>x. carreg dymchwel adeiladau neu strwythurau</li> <li>xi. Llechi</li> <li>xii. is-bridd</li> <li>xiii. Llaid</li> <li>xiv. ysgeintiadau.</li> </ul>
2	Deunyddiau ceramig neu goncrit		<p>Mae grŵp 2 yn cynnwys y canlynol yn unig</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. gwydr gan gynnwys enamel wedi'i galchlosgi</li> <li>ii. cerameg, gan gynnwys brics a mortar, teils, including bricks, bricks and mortar, tiles, gwaith clai, crochenwaith, tseina a deunyddiau anhydrin</li> <li>iii. concrit, gan gynnwys concrit cyfnerthedig, blociau concrit, brisblociau a blociau aergrit</li> </ul> <p>Nid yw grŵp 2 yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. ffeibr gwydr na phlastig wedi'i gyfnerthu â gwydr, a</li> <li>ii. golchiadau safleoedd concrit.</li> </ul>
3	Mwynau	Wedi'u prosesu neu wedi'u paratoi	<p>Mae'r grŵp yn cynnwys y canlynol yn unig</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. tywodau mowldio, gan gynnwys tywod ffowndri.</li> <li>ii. cleiau, gan gynnwys cleiau mowldio ac amsugnyddion clai (gan gynnwys</li> </ul>

			<p>pridd Fuller a bentonit)          iii. amsugnyddion mwynol iv. ffibrau mwynol o waith dyn, gan gynnwys ffibrau gwydr          v. silica          vi. Mica          vii. treulyddion mwynol.</p> <p>Nid yw grŵp 3 yn cynnwys          i. tywodau mowldio sy'n cynnwys glynwyr organig          ii. ffibrau mwynol o waith dyn wedi'u gwneud o blastig wedi'i gyfnerthu â gwydr ac asbestos.</p>
4	Slag ffwrnais		<p>Dim ond y canlynol sydd yn Grŵp 4          i. gwastraffau gwydredig a gweddillion prosesu mwynau'n thermol lle, yn y naill achos neu'r llall, mae'r gweddillion yn ymdoddedig ac yn anhydawdd; a          ii. slag o losgi gwastraff.</p>
5	Lludw		<p>Dim ond y canlynol sydd yn Grŵp 5          i. lludw gwaelod a lludw codi a gynhyrchwyd drwy hylosgi pren, gwastraff neu'r ddau          ii. lludw gwaelod a lludw codi o hylosgi glo, golosg petroliwm neu'r ddau, wedi'u dyddodi mewn cell sy'n cynnwys cynnyrch yr hylosgi hwnnw'n unig, a          iii. lludw gwaelod a lludw codi o hylosgi glo, golosg petroliwm neu'r ddau, wedi'u llosgi gyda biomas a'u dyddodi mewn cell sy'n cynnwys cynnyrch yr hylosgi a'r llosgi hwnnw'n unig.</p> <p>Nid yw Grŵp 5 yn cynnwys lludw codi o losgwyr slwtsh carthion, llosgwyr trefol, llosgwyr clinigol na llosgwyr gwastraff peryglus.</p>
6	Cyfansoddion anorganig actifedd isel		<p>Dim ond y canlynol sydd yn Grŵp 6          i. gwastraffau sy'n cynnwys calsiwm o adweithiau cynhyrchu titaniwm deuocsid          ii. calsiwm carbonad          iii. magnesiwm carbonad          iv. magnesiwm ocsid          v. magnesiwm hydrocsid          vi. haearn ocsid</p>

			vii. fferrig hydrocsid viii. alwminiwm ocsid ix. alwminiwm hydrocsid x. sirconiwm deuocsid.
7	Calsiwm sylffad	Caiff ei waredu mewn safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus mewn cell lle na chaiff gwastraff biddiraddadwy ei dderbyn	Mae Grŵp 7 yn cynnwys i. calsiwm sylffad ii. gypswm iii. plastrau sy'n cynnwys calsiwm sylffad.  Nid yw Grŵp 7 yn cynnwys bwrdd plastr.
8	Calsiwm hydrocsid a heli	Caiff ei ddyddodi yn y ceudod heli.	

**ATODIAD 2: FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD, GAN GYNWYS CRYNODEB O'R CWESTIYNAU YMGYNGHORI**

**Llywodraeth Cymru**

**Ymgynghoriad: Treth Gwarediadau Tirlenwi (Rhif: WG24170)**

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

**Enw:**

**E-bost:**

**Rhif Ffôn:**

**Cyfeiriad:**

**Tref:**

**Cod post:**

**Sefydliad** (os ydych yn ymateb ar ran

## Pennod 2: Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy

**Cwestiwn 1:** Pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cadw'n gyson â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban o ran cyfraddau'r Dreth Dirlenwi a pham?

**Cwestiwn 2:** A yw'r cyfraddau treth safonol ac is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.2) wedi'u gosod ar lefel briodol i Gymru? Esboniwch eich ymateb.

**Cwestiwn 3:** A oes unrhyw werth mewn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwahanol gyfradd o dreth is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.10 - 2.11) a pham?



**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw newidiadau i restr y deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is (Atodiad 1) y dylid eu hystyried, ac ar ba sail?

**Cwestiwn 5:** Pa mor ymarferol fyddai cyflwyno trothwy i ddiffinio 'swm bychan' o wastraff anghymwys mewn llwyth o ddeunydd cymwys?

**Cwestiwn 6:** A fyddech o blaid cyflwyno prawf Colli wrth Danio (Lol) pan gaiff y Dreth Dirlenwi ei datganoli? Esboniwch eich rhesymau.

**Cwestiwn 7:** A oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol ar gyfer diffinio'r ardal lle y bydd gwaredu trethadwy'n digwydd, ac os felly, sut y gellid datrys y rhain?

**Cwestiwn 8:** Yn eich barn chi, a oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol sy'n rhoi credyd am symud deunydd yn barhaol o safle tirlenwi, ac os felly, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain.

**Cwestiwn 9:** Beth fyddai goblygiadau ymarferol deddfu ar y sail bod yr holl ddeunydd sy'n mynd i safle tirlenwi (ac eithrio'r deunydd hwnnw sydd wedi'i eithrio'n benodol) yn gymwys i'w drethu?

**Cwestiwn 10:** Pa weithgareddau y byddech yn disgwyl iddynt gael eu heithrio (peidio â chael eu trethu) a pham?

**Cwestiwn 11:** A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut y gallem wneud y gweithgareddau trethadwy a'r rhai anhrethadwy ar safle tirlenwi'n fwy clir a beth fyddai goblygiadau ymarferol y rhain?

**Cwestiwn 12:** A ydych yn meddwl y dylid dileu neu addasu unrhyw rai o'r eithriadau presennol? Esboniwch eich ymateb.

**Cwestiwn 13:** A oes dadl o blaid dileu neu addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr?  
Esboniwch eich ymateb.

**Cwestiwn 14:** A ydych yn meddwl bod lle i gyflwyno eithriadau neu ostyngiadau newydd, ac os felly, beth ddylai'r rhain fod a pham?

### **Pennod 3: Cydymffurfio a Gorfodi**

**Cwestiwn 15:** Beth fyddai goblygiadau ymarferol rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pont bwysu lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi, neu yn y cyffiniau agos, ynghyd a chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny?

**Cwestiwn 16:** Beth fyddai goblygiadau ac ystyriaethau ymarferol estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth?

**Cwestiwn 17:** A oes unrhyw anawsterau ynghlwm wrth y drefn gosbi bresennol, ac os oes, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

**Cwestiwn 18:** A oes angen rhagor o weithgarwch gorfodi yn y maes, yn hytrach nag wrth ddesg? Os oes, esboniwch eich barn a rhowch dystiolaeth/esboniwch y manteision lle bo modd.

**Cwestiwn 19:** A oes unrhyw gamau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i ddefnyddio'i phwerau trethu newydd i wella'r cydymffurfio a'r gorfodi ac i sicrhau bod efadu talu'r Dreth Dirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl? Os oes, disgrifiwch y camau posibl hynny.

**Cwestiwn 20:** Yn eich barn chi, a oes tystiolaeth o osgoi talu'r Dreth Dirlenwi bresennol a beth yw natur yr osgoi hwn?

#### **Pennod 4: Gweinyddu**

**Cwestiwn 21:** A fydddech chi o blaid cysoni cyfnod dychwelyd y ffurflen dreth â'r Flwyddyn Ariannol? Esboniwch eich rhesymau.

**Cwestiwn 22:** Beth fyddai goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofyniad bod codau Catalog Gwastraff Ewrop yn cael eu defnyddio wrth gwblhau'r ffurflen dreth?

**Cwestiwn 23:** Sut y gallai Llywodraeth Cymru symleiddio a moderneiddio ffeilio ffurflenni treth, gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac ar lein?

**Cwestiwn 24:** A ddylid cynnig gostyngiad ar ddyledion drwg ac os felly, o dan ba amgylchiadau y mae hyn yn briodol?

**Cwestiwn 25:** A oes gennych unrhyw sylwadau am sut mae'r darpariaethau adolygiadau mewnol ac apeliadau presennol yn gweithio yng nghyd-destun y Dreth Dirlenwi, gan gynnwys yn benodol y bobl sy'n gymwys i ofyn am adolygiad neu apêl?

**Cwestiwn 26:** Yn eich barn chi, a oes amgylchiadau eithriadol lle y dylai trethdalwyr allu gohirio talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi nes bod eu hapêl wedi dod i ben?

## **Pennod 5: Lles y Gymuned**

**Cwestiwn 27:** A ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau?



**Cwestiwn 28:** Os bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau, pa un o'r gweithgareddau a ganlyn a ddylai gael budd o'r arian, a pham?

- Cryfhau'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi a sicrhau bod troseddau gwastraff yn cael cyn lleied o effaith â phosibl
- Helpu i leihau gwastraff a throï oddi wrth safleoedd tirlenwi
- Cynlluniau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach
- Trechu tlodi ac amddifadedd mewn cymunedau
- Rhywbeth arall (manylwch)

**Cwestiwn 29:** A oes gennych chi farn am y model gweinyddu y gellid ei ddefnyddio?

## Cwestiynau Ychwanegol

**Cwestiwn 30:** A oes gennych unrhyw faterion cysylltiol nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw neu sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

**Cwestiwn 31:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol cychwynol?

### Cyhoeddi'r ymatebion

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb, gan fod hyn yn help i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol.

Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

### Dychwelyd y ffurflen hon

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **19 Mai 2015**

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen hon atom yn y post i'r cyfeiriad hwn:

Yr Is-adran Polisi Trethi a Deddfwriaeth

2<sup>ail</sup> Lawr - Dwyrain

Llywodraeth Cymru

PACC Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

neu e-bostiwch hi at: [FinancialReformMailbox@wales.gsi.gov.uk](mailto:FinancialReformMailbox@wales.gsi.gov.uk)

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy e-bost, rhwch **Treth Gwarediadau Tirlenwi** yn y blwch testun

**ATODIAD 3: GEIRFA**

Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
e-doc	Dyletswydd Gofal Electronig
EWC	Catalog Gwastraff Ewrop
GAAR	Rheol gyffredinol ar Atal Cammdefnydd / Rheol Gyfferdinol ar Atal Osgoi
CthEM	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Lol	Colli wrth Danio

## ATODIAD 4: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOLCYCHWYNNOL

### Y CEFNDIR

1. Roedd Deddf Cymru 2014 yn dadgymhwyso Treth Dirlenwi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru ac yn trosglwyddo pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno treth ar warediadau i safleoedd tirlenwi yn ei lle.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi yn lle'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru a bwriedir rhoi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar waith yng Nghymru o fis Ebrill 2018 ymlaen. Drwy ei datblygu, bydd Cymru yn gallu cynllunio a rhoi ar waith drefniadau sy'n fwy addas ar gyfer amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru. Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth eisoes wedi pennu'r egwyddorion a fydd yn sail i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a bydd y rhain yn sicrhau ei bod:
  - yn deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu;
  - yn syml, gyda rheolau clir, gan geisio sicrhau cyn lleied o gostau cydymffurfio a gweinyddu ag y bo modd ;
  - yn cefnogi twf a swyddi, ac yn ei thro yn help i drechu tlodi; ac
  - yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.
3. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n mynd drwy'r camau cynnar iawn o ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored ac yn eang ei chwmpas ac mae'n ystyried yr ystod lawnaf o opsiynau. Mae'n gofyn am farn pobl am nifer o agweddau ar y dreth gan gynnwys:
  - Cyfraddau'r Dreth a'r Gwarediadau Trethadwy yn enwedig agweddau ar y dreth bresennol a all fod yn ddrylyd neu sy'n creu ansicrwydd
  - Cydymffurfio a Gorfodi, mynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ym maes gwastraff
  - Symleiddio a moderneiddio gweinyddu'r dreth, gan ei galluogi i weithio'n fwy effeithlon, ac ysgafnhau'r baich ar fyd busnes gymaint ag y bo modd.
  - A ddylid dal i ddefnyddio cyfran o dderbyniadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er budd y gymuned a sut.
4. Mae'r Dreth Dirlenwi bresennol yn gymhleth ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r rhyngddibyniaethau rhwng gwahanol agweddau'r dreth. Mae nifer o amrywiadau a fydd yn effeithio ar gostau, buddion (a gwrth-fuddion) a daw'r rhain yn fwy clir yn sgil yr ymgynghoriad hwn.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid tafoli'r gwahanol amcanion: sicrhau refeniw treth ar gyfer ariannu cyhoeddus, cefnogi swyddi a thwf, gwella lles y gymuned ac amddiffyn yr amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau cynifer o fuddion ag y bo modd gan osgoi unrhyw effeithiau anghymesur o niweidiol.

6. Bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n effeithio ar ystod eang o fuddiannau: mae'r rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys: busnesau, rheoleiddwyr, cymunedau a'r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gydag ystod eang o gyrff ac unigolion sydd â diddordeb yn y maes er mwyn ei helpu i lunio'i gynigion. Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy gydol y cyfnod ymgynghori ac mae amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u trefnu.

### Y CYD-DESTUN

7. Pwrpas cynnal Asesiad o Effaith Rheoleiddiol yw dangos costau a buddion pob cynnig, a'i ddefnyddio'n sylfaen dystiolaeth i ddangos pam y dewiswyd opsiwn polisi penodol.
8. Mae Deddf Cymru 2014 yn trosglwyddo cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol gyda golwg ar drethu gwarediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y caiff Llywodraeth Cymru benderfynu a ddylid cyflwyno treth yn lle'r un bresennol, ac un opsiwn fyddai gwneud dim.
9. Mae Pennod 1 o'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno'r achos o blaid cyflwyno treth yn lle'r un bresennol. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru yn lle'r Dreth Dirlenwi oherwydd byddai peidio â gwneud hynny'n arwain at oblygiadau negyddol sylweddol - goblygiadau ariannol a goblygiadau o ran polisi.
10. Yn ystod y cam cynnar hwn wrth ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i geisio barn pobl am nifer o gynigion gwahanol a ddefnyddir i lywio'i phenderfyniadau polisi'n ddiweddarach.
2. Cafodd tri o'r pedwar aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol, Syr Richard Lloyd Jones, Peter Bennett a Michael Towers, eu penodi i'r Comisiwn. Yn anffodus, nid oedd pedwerydd aelod y Pwyllgor, D H Davies, yn gallu parhau gyda'i benodiad oherwydd salwch. Y tri aelod arall o'r Comisiwn oedd Kevin Crowley, Eleri Jones ac Elwyn Morgan. Mae'r adroddiad hwn ar adegau'n cyfeirio at waith y Pwyllgor Ymgynghorol er mwyn rhoi cefndir llawn i ddull y Comisiwn o ddelio â'i ddyfletswyddau.

### CYD-DESTUN

3. Cyd-destun gwaith y Comisiwn oedd fod y ddwy haen bresennol mewn llywodraeth leol, sef 8 cyngor sir a 37 cyngor dosbarth, i gael eu dileu'n llwyr a'u holl yddogaethau i gael eu cyfuno a'u cyflawni gan 22 o awdurdodau unedol newydd.
4. Yr oedd y system newydd i ddod i rym ar 1 Ebrill 1996, ar ôl ei gohirio o 1 Ebrill 1995, ac yr oedd newid mor sylfaenol o ran ei natur yn rhwym o effeithio ar ragolygon gyrrfa a phatrwm byw llawer o weithwyr llywodraeth leol gan achosi lyndra mawr a gofid iddynt hwy a'u teuluoedd. Ni fyddai staff a gâi eu cyflogi mewn swyddi a oedd dim benodol i leoliad arbennig (er enghraifft, cynorthwyyr gofal ac athrawon) yn gweld dim ond newid mewn cyflogwr. Y staff y byddai lleihad yn nifer yr awdurdodau o 45 i 22 yn cael yr effaith fwyaf arnynt fyddai'r staff clerigol a gweinyddol hynny a gâi eu cyflogi ym mhencadlysoedd awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau canolog, yn ogystal â staff yn gweithio mewn adrannau cynllunio sirol a dosbarth a oedd i gael eu cyfuno. Byddai staff yng ngwasanaethau cyngorau sir megis addysg a gwasanaethau cyndeithasol, ac eithrio Powys, yn gweld eu hadrannau'n cael eu rhannu ymhlith yr awdurdodau olynol, ac mewn llawer enghraifft byddai angen iddynt weithio mewn lle newydd.
5. Gwnaeth y llywodraeth yn giir yn y Senedd wrth ystyried y ddeddfwriaeth na ddisgwyliid i ad-drefnu llywodraeth leol olygu gostyngiad helaeth yn nifer y staff, ac yr



oedd y Memorandwm Egluro ac Ariannol i'r Mesur yn amcangyfrif gostyngiad mewn lefelau staffio o ryw 500. Mae hynny'n cymharu â gweithlu llywodraeth leol o tua 150,000 o weithwyr (paragraff 5.1 o'r Papur Gwyn "A Charter For The Future"). Yr oedd yn rhaid cofio, fodd bynnag, y byddai unrhyw ostyngiad mewn niferoedd yn debygol o ddiwydd yn bennaf mewn band cymharol gul o staff a oedd yn darparu gwasanaethau canolog, lle byddai'r effaith yn gyfatebol fwy. Drwy gydol ein gwaith, yr oeddem yn ymwybodol iawn fod y posibilrwydd o gollu swyddi yn achosi llawer o ofid i'r staff, ynghyd â gofid am leoliad a natur eu cyflogaeth yn y dyfodol i'r staff hynny y byddai eu swyddi'n newid.

## GORCHWYL

6. Cafodd ein gorchwyl ei osod allan yn Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 lle'r oedd yn ofynnol i Gomisïwn Staff Cymru:

- a) gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol am y camau angenrheidiol i ddiogelu lles staff a gyflogid gan
  - i) yr hen awdurdodau;
  - ii) y prif gynghorau newydd; neu
  - iii) y Corff Gweddilliol;
- b) ystyried a dal i adolygu
  - i) trefniadau ar gyfer penodi staff unrhyw rai o'r cyrff hynny; a
  - ii) threfnu, rheoli a thalu staff y prif gynghorau newydd;
- c) ystyried a dal i adolygu'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo staff o unrhyw rai o'r hen awdurdodau oherwydd unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan y Ddeddf hon neu odani; ac
- d) ystyried unrhyw broblemau staffio a materion staffio eraill a gyfeirid ato gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn deillio o unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan y Ddeddf hon neu odani.

7. Yr oedd arweiniad a roddwyd i ni gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Awst 1994 yn gosod allan sut y disgwyliai i ni ddelio â'n tasg. Yn ei hanfod, yr oedd ein gorchwyl yr un ag a roddwyd o dan Adran 258 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i Gomisïwn Staff Cymru a benodwyd mewn cysylltiad ag ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974, ar wahân i'r gofyniad am ystyried trefniadaeth, rheolaeth a thalu staff y prif gynghorau newydd ac i ddal i adolygu hynny. Caiff y gofyniad hwn, a oedd yn newydd, yn ddadleuol ac yn annerbnyiol i awdurdodau lleol, ei drafod ymhellach ym Mhenod Pedwar. Ym mis Tachwedd 1995, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol orchymyn yn dod â'r awdurdodau

parciau cenedlaethol newydd o fewn ein gorchwyl. Trafodir ein hymwnneud â'r awdurdodau hyn a chyrrif newydd eraill ym Mhenod Pump.

8. Swyddogaeth ymgynghorol oedd ein swyddogaeth o ran natur; ni allem orchymyn awdurdodau lleol i fabwysiadu camau penodol. Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud hynny, ond ar ein cyngor ni'n unig: yr oedd adran 40(3) o'r Ddeddf yn ei alluogi i roi cyfarwyddiadau i unrhyw awdurdod o ran darparu'r wybodaeth y gofynnid amdani gan y Comisiwn a gweithredu unrhyw gyngor a roddwyd ganddo. Unwaith yn unig yr oedd angen cynmyd camau felly (disgrifir ym mharagraff 62).

9. Yn ein gweithgareddau i gyd, pryd bynnag y byddai'n bosibl byddem yn ceisio gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i gael y fam gyffredinol am y ffordd orau i symud ymlaen. Nid oedd gennym swyddogaeth i gynghori ar agweddau ad-drefnu nad oeddent yn ymwneud â staffio, a cheisiwyd gwneud yn glir o'r dechrau nad oedd gan y Comisiwn unrhyw swyddogaeth uniongyrchol mewn perthynas â materion gwleidyddol fel nifer a maint awdurdodau, ariannu'r ad-drefnu, na'r cynlluniau iawndal. Fodd bynnag, gwnaed yn glir hefyd i'r awdurdodau, undebau llafur a chyrrif eraill y byddem yn cyflwyno'u sylwadau i'r Swyddfa Gymreig. Cafwyd cyfarfodydd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Ysgrifennydd Seneddol a swyddogion y Swyddfa Gymreig droeon a bu'r rheiny'n gyfle gwerthfawr i gyflwyno'r gofidiau yr oeddem wedi clywed amdanynt.

## GWEITHGAREDDAU

10. Yr oedd gwaith cynharaf y Pwyllgor Ymgynghorol a'r Darpar Gomisïwn, fely trafodir ym Mhenod Dau, ynghyd ag arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol, yn rhoi golwg glir i ni ar ein blaenoriaethau ac ar y ddsag o'n blaen. Yn fras, yr oedd cyfraniad y Comisiwn i'r trawsnewid o'r hen adcladwaith llywodraeth leol i'r adcladwaith newydd yn golygu:
  - ymarfer rheoliadau dros benodi staff gan yr hen awdurdodau a'r awdurdodau newydd, er lles y bobl a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol mewn llywodraeth leol;
  - sefydlu a chadw llygad ar beirianwaith i ddelio ag apeliadau gan unigolion a deimlai eu bod wedi cael cam wrth eu gosod mewn swyddi, ar orchmynion trosglwyddo i un o'r awdurdodau newydd neu o'u hepgor o unrhyw ystyriaeth ymlaen llaw mewn cystadlaethau am swyddi gyda'r awdurdodau newydd;
  - ystyried trefniadaeth a thaliad uwch swyddogion yr awdurdodau unecod newydd o dan Adran 40(2)(b)(ii) o Ddeddf 1994;
  - cyhoeddi arweiniad ar nifer o faterion perthnasol i lywodraeth leol, ac ar gais, ar faterion penodol i awdurdodau unigol;
  - cyngor i unigolion, undebau llafur, ac awdurdodau lleol am faterion o ofid neu ansicrwydd; a

## GWAITH Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL A'R DARPAR GOMISIWN

### SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL

14. Fel yr awgrymwyd eisoes, gosododd y Pwyllgor Ymgynghorol y sylfeini ar gyfer gwaith y Comisiwn Staff drwy nodi, a thrafod gyda phawb a oedd â diddordeb, y materion staff y byddai angen delio â hwy wrth baratoi ar gyfer ad-drefnu. Ei swyddogaeth oedd:
- cyngori'r Ysgrifennydd Gwladol am yr arweiniad drafft ar gyfer y Comisiwn Staff;
  - ystyried pa gyngor yr oedd angen ei roi cyn sefydlu'r Comisiwn Staff;
  - ymgynghori â chyrrff eraill a oedd â diddordeb; ac
  - ystyried unrhyw faterion eraill a gyfeirid ato gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

15. Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf ar 14 Medi 1993. Bryd hynny, y dyddiad a fwriedid ar gyfer ad-drefnu oedd 1 Ebrill 1995. Ni chyhoeddwyd gohirió'r dyddiad hwnnw o flwyddyn tan 22 Tachwedd yn ystod y ddiadl ar Araith y Frenhines. Yn ystod y cyfnod hwnnw, parhaodd y gwrthwynebiad cryf i ad-drefnu o lawer cyfeiriad. Yr oedd Cynulliad Siroedd Cymru (AWC) a Chyngor Undebau Llafur Cymru (WTUC) wedi gwneud penderfyniadau'n gwahardd cyswllt â'r Swyddfa Gymreig ar faterion ad-drefnu, ac thrwy oblygiad â'r Pwyllgor. Yr oedd y cyngorau dosbarth, ar y llaw arall, yn fodlon cyfarfod â'r Pwyllgor. Cynhaliwyd y cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd gyda chynghorau dosbarth ar 11 Tachwedd pan gysurwyd y Pwyllgor o wybod bod y materion staffio allweddol yr oedd wedi eu nodi yn cyd-fynd yn fras â'r rheiny a godid gan gyngorwyr a swyddogion. Er gwaethaf y gwaharddiad parhaus gan AWC, cynhaliwyd y cyntaf mewn cylch o gyfarfodydd gan y Pwyllgor gyda'r wyth cyngor sir ar 2 Rhagfyr 1993.

16. Mewn rhai enghreifftiau yn ystod y cyfarfodydd cynnar hynny, clywodd y Pwyllgor feirniadaeth gan gyrrff a oedd yn gwrthwynebu ad-drefnu'n llwyr ac a edrychai ar y Pwyllgor fel offeryn y Llywodraeth. Pwysleisiodd y Pwyllgor, a'r Comisiwn yn ddiweddarach, wrth yr awdurdodau a'r undebau llafur mai ei unig swyddogaeth oedd diogelu lles staff; ni allai fod ac ni fyddai yn rhan o drafodaethau o natur wleidyddol. Ymhén amser, cydnabyddodd y cyrrff hynny fod gennym amcanion yn gyffredin a chydweithredwyd yn llawn gyda ni. Erbyn diwedd mis Mawrth 1994, pan ddaeth y Pwyllgor Ymgynghorol i ben, yr oedd wedi cyfarfod â 34 o Gyngorau Sir a Dosbarth presennol a nifer o gyrrff cynrychioli eraill, e.e. UNSAIN, Cyngor Dosbarthau Cymru (CWD), ac AWC. Yr oeddem yn arbennig o ddiolchgar am gydwethrediad llywodraeth leol mewn cyfnod anodd iawn i swyddogion a chynghorwyr. Caiff y rhain a'n hymgyngoriadau diweddarach gyda llywodraeth leol a'i staff eu trafod yn fanylach ym mharagraffau 34-40.

- dosbarthu bwletinau staff yn rhoi gwybodaeth i staff am gynnydd gydag ad-drefnu, am arweiniad diweddaraf y Comisiwn, ac am unrhyw faterion allweddol y dylent fod yn ymwybodol ohonynt.

11. Yr oedd ein cylchlythyron yn fframwaith i baratoadau awdurdodau ar gyfer ad-drefnu. Er ein bod yn cydnabod bod angen i awdurdodau gael hyblygrwydd i gael ymateb i amgylchiadau lleol gydag atebion lleol, yr oedd ein cyngor yn helpu ychwanegu dull cyson mewn materion o egwyddor.

12. Wrth i'r gwaith ar ad-drefnu fynd yn ei flaen, daeth yn gynyddol glir fod y Comisiwn yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i unigolion ac i awdurdodau drwy fod, yn syml, yn ffynhonnell annibynnol a diduedd o wybodaeth a chyngor. Yr oedd hynny'n arbennig o wir tua diwedd yr ad-drefnu lle'r oedd adrannau personnel, oherwydd maint a chyflymder y gwaith yn sicr, weithiau'n ei chael yn anodd ymateb yn brydlon i ymholiadau staff a oedd iddynt hwy yn faterion brys.

13. Yr oedd ad-drefnu yn rhoi pwysau anferth ar aelodau awdurdodau lleol, adrannau personnel ac uwch swyddogion. Heb eu gwaith caled a'u hymrwymiad hwy, ni fyddai'r ad-drefnu wedi bod yn bosibl. Rhaid canmol eu hymdrechion.

17. Dyma'r prif themâu a ddeilliodd o gyfarfodydd cynnar y Pwyllgor:
  - ansicrwydd am oblygiadau ad-drefnu Rheoliadau Diogelu Cyflogaeth Trosglwyddo Ymgymeriadau (TUPE) (a oedd yn gweithredu yn y Deyrnas Gyfunol Gyfarwyddyd Hawliau Meddiannol y Comisiwn Ewropeaidd), a gofid am ganlyniadau posibl camddehongli'r rheoliadau hyn;
  - dadl a ddylai'r holl staff gael eu caniatáu i drosglwyddo i'r awdurdodau newydd;
  - gofid am benodiadau ac ail-raddio dros dro, a thaliadau am waith ychwanegol wrth baratoi ar gyfer ad-drefnu;
  - cytundeb y byddai angen arweiniad ar gystadleuaeth ac ystyriaeth ymlaen llaw (fel y diffinnir ym mharagraff 57);
  - cytundeb y byddai angen mecanwaith apeliadau;
  - gofid y dylai'r iawndal am golli swydd fod yn ddigon hael i alluogi staff i adael llywodraeth leol yn wirfoddol lle byddai hynny'n briodol (gan gynnwys pobl dan 50, sef mwyafrif y staff) ac i dalu iawndal am unrhyw galedi; a
  - gofid y dylai gwybodaeth am y cynlluniau iawndal fod ar gael yn brydlon.
18. Teimlai'r Pwyllgor Ymgynghorol/Darpar Gomiwn y dylid rhoi sylw'n gynnar i benodiadau dros dro, taliadau ychwanegol, ac egwyddorion trosglwyddo staff. Felly, rhoddwyd ystyriaeth i'r materion hyn cyn sefydlu'r Comisiwn yn ffurfiol, a thrafodir isod ganlyniad ein trafodaethau. Deliwyd â'r mecanwaith apeliadau ac ystyriaeth ymlaen llaw, a ystyrir hefyd yn flaenoriaethau uchel, yn ystod yr wythnosau ar ôl sefydlu'r Comisiwn yn ffurfiol, a chânt eu trafod ym Mhenmod Tri, ynghyd â'r eitemau hynny a gafodd eu nodi yn arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Comisiwn.

#### TUPE A GORCHMYNION TROSGLWYDDO STAFF

19. Yn ystod y cylch cynnar o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol yn ystod yr Hydref - Gaeaf 1993 danganfu'r Pwyllgor fod yna gefnogaeth eang (ond nid unfrydol) i egwyddor trosglwyddo'r holl staff i'r awdurdodau newydd. Ar y cychwyn, yr oedd gan y Pwyllgor nifer o amheuan am y syniad hwn. Cydnabu'r Pwyllgor y byddai gostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol yn golygu gostyngiad yn nifer y staff gweinyddol canolog a fyddai'n angenrheidiol. Felly, ni ellid gwarantu cyflogaeth dros gyfnod hir i'r staff a fyddai'n trosglwyddo. O dan yr amgylchiadau hynny, gellid dadlau na fyddai trosglwyddo'r staff i gyd, gyda swydd neu heb swydd, ond yn gohirio'r cyfnod o ansicrwydd a gofid i staff.
20. Ystyriwyd y cwestiwn hwn ymhellach gan y Darpar Gomiwn yn ei gyfarfodydd cynharaf. Erbyn hynny, yr oedd mwy o wybodaeth ar gael am oblygiadau TUPE ar gyfer ad-drefnu. Soniwyd am gymhlethdodau posibl yn deillio o TUPE yng nghyfarfod cefndir

cynfaf y Pwyllgor Ymgynghorol yn y Swyddfa Gymreig, a chodwyd y rheiny droeon gan nifer o bobl a oedd â diddordeb ym mhob cam o'r broses ad-drefnu.

21. Yr oedd cyfraith achosion ar gymhwysio TUPE yn y sector cyhoeddus yn gyfyngedig, a chynigiwyd i ni yn ystod y misoedd amrywiaeth o ddechongliadau goddrychol o'r rheoliadau mewn perthynas â'r broses ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru. Gwnaed yn glir gennym drwy gydol ein gwaith na fyddem yn darparu dehongliadau o TUPE; y llysoedd yn unig allai wneud hynny. Oherwydd yr ansicrwydd hwn am oblygiadau'r rheoliadau ar hawliau trosglwyddo gweithwyr unigol, lluniodd y Darpar Gomiwn farn gyhwynnol o blaid trosglwyddo'r holl staff, er gwaethaf ein hansicrwydd cynharach, a dywedwyd wrth y Swyddfa Gymreig am hynny ar 9 Mai 1994.

22. Atgyfnerthwyd y farn honno ym mis Rhagfyr 1994 pan ddaeth yn amlwg, o ystyried TUPE, fod y Swyddfa Gymreig yn rhagweld y byddai staff awdurdodau nad oedd eu hardaloedd yn cael eu rhannu drwy ad-drefnu yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn y gorchymyn trosglwyddo staff, ond na fyddai staff yr 13 awdurdod y byddai eu hardaloedd yn cael eu rhannu yn cael eu cynnwys yn awtomatig. I ni, yr oedd y sefyllfa hon, ar wahân i TUPE, yn ymddangos yn anhneg i staff yr awdurdodau a oedd yn rhannu, ac yn cynnig cyd-destun anfodddhaol ar gyfer y broses drosglwyddo ac ar gyfer trafodaethau ymhlith awdurdodau am weithle'r unigolion hyn yn y dyfodol. Felly, dilynwyd cyngor blaenorol y Darpar Gomiwn drwy ysgrifennu at Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru ar 8 Rhagfyr 1994 gan ddadlau y dylai'r holl staff gael eu trin ar yr un sail. Cawsom nifer o lythyron cefnogol gan awdurdodau lleol i'r safiad hwn, ac yr oedd yn dda gennym fod y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol i'n cais drwy gyntuno i weithredu penderfyniadau awdurdodau lleol ar drosglwyddo staff. O ganlyniad, gwnaeth holl awdurdodau lleol Cymru, o dan gyntundeb Cyd-Bwyllgor Cenedlaethol (NJC), ymrwymiad i drosglwyddo'r holl staff a ddymunai gael eu trosglwyddo.

23. Credem fod yr ymrwymiad hwn i drosglwyddo'r holl staff a ddymunai gael eu trosglwyddo yn sylfaenol i gael proses drosglwyddo deg a llyfn. Golygai fod trafodaethau am drosglwyddo yn canolbwyntio ar ble y byddai staff yn trosglwyddo yn hytrach nag a fyddent yn trosglwyddo o gwbl. Yr oeddem yn cydnabod fod y broses o benodi unigolion i swyddi yn yr awdurdodau newydd yn mynd i fod yn gyfnod o ofid i staff, ond byddai'r ymrwymiad trosglwyddo hwn yn lleddfu'r effaith, gan roi amser i awdurdodau ail-ystyried eu hadeiladwaith ac ail-hyfforddi staff lle bynnag y byddai'n bosibl. Ond y budd pwysicaf oedd na fyddai staff awdurdodau a fyddai'n rhannu o dan anfantais o'r cychwyn cyntaf. Fel y digwyddodd, profwyd gwerth yr ymrwymiad i drosglwyddo'r staff i gyd.

#### PENODIADAU STAFF AC AIL-RADDIO DROS DRO

24. Yn y cyfarfod cyntaf ar 14 Medi 1993, cododd y Swyddfa Gymreig gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol y cwestiwn o benodi ac ail-raddio staff gan awdurdodau a oedd eisoes yn bod cyn ad-drefnu. Daeth yn amlwg o'r gyfres o gyfarfodydd a gafodd y Pwyllgor Ymgynghorol gydag awdurdodau y byddai croeso i gyngor cynnar am y mater hwn.

Clywsom honiadau fod rhai awdurdodau'n bwriadu cymryd camau a fyddai'n rhoi mantais i'w staff dros eu cymdogaion yn y broses drosglwyddo, fel yr honnir oedd wedi digwydd yn ad-drefnu 1974. Er ei bod yn ymddangos mai ychydig dystiolaeth oedd i gefnogi'r honiadau hyn, yr oeddent yn destun gofid i'r staff. Felly, cyhoeddodd y darpar Gomisiwn gyfchlythyr drafft, yn seiliedig ar ymgynghoriad blaenorol y pwyllgor ymgynghorol gydag awdurdodau, ym mis Mehefin 1994. Cyhoeddwyd ein harweiniad terfynol ar 6 Medi 1994. Yr oedd yn cynghori awdurdodau i edrych am ffyrdd eraill yn lle penodiadau parhaol wrth lenwi swyddi yn yr adrannau hynny a oedd yn fwyaf tebygol o gael eu newid o ganlyniad i ad-drefnu, ac yn gyffredinol i osgoi ail-raddio. Diben hynny oedd osgoi cynnydd mewn niferoedd staff a allai olygu colli swyddi yn y dyfodol, ac osgoi achosi anfantais i rai staff wrth gystadlu am swyddi penodol gyda'r awdurdodau newydd. Nid oedd yr arweiniad ar lenwi swyddi gwag yn gymwys i swyddi llinell-faen. Cydnabyddwyd gennym y byddai angen eu llenwi er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth.

25. I ymateb i sylwadau gan lywodraeth leol, cytunwyd na fyddem yn archwilio'r holl gynigion penodi oherwydd byddai hynny'n debygol o fod wedi golygu oedi sylweddol. Yn hytrach, cyn ethol y darpar awdurdodau, gofynasom i'r awdurdodau presennol ymgynghori â'u cydweithwyr yn y pwyllgorau trosglwyddo a oedd yn cael eu sefydlu ar gyfer yr ardaloedd awdurdodau unedol cyn gwneud penodiadau felly, ac i ddod at y Comisiwn yn unig os byddent yn methu cytuno am yr angen am benodiad neu ail-raddio.

26. Yn gyffredinol, ymddengys fod y trefniant hwn wedi gweithio'n dda a bod awdurdodau lleol wedi gweithredu mewn ffordd hyblyg a doeth. Ychydig faterion yn unig a gyfeirwyd at y Comisiwn er bod ambell gŵyn wedi dod gan undebau llafur fod awdurdod, er enghraifft, yn defnyddio'r cyngor ar benodiadau dros dro yn rhy gaeth.

#### TALIADAU I STAFF AM WAITH YCHWANEGOL WRTH AD-DREFNU

27. Yn ystod ei drafodaethau gydag awdurdodau am benodiadau dros dro, cododd y Pwyllgor Ymgynghorol hefyd y cwestiwn o daliadau am ddyletswyddau ychwanegol yn y cyfnod dros dro. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, daeth y Pwyllgor Ymgynghorol i'r casgliad y byddai'n llesol rhoi arweiniad i lywodraeth leol. Gofynnwyd am farn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd am hyn ym mis Ionawr 1994. Awgrymodd ei ansicrwydd am yr angen i'r Pwyllgor roi unrhyw arweiniad ar y mater, a gofynnodd i'r Pwyllgor adolygu ei gasgliadau cychwynnol. Gwnaed hynny, ac yn y diwedd daeth y Comisiwn i'r casgliad fod yna ddadleuon dilys yn cefnogi'r angen am arweiniad. Ym mis Mehefin 1994, cyflwynwyd y fam hon eto i'r Swyddfa Gymreig. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddfa Gymreig wrthym wrth roi sylwadau ar arweiniad drafft yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Comisiwn, fod awdurdodau wedi eu rhannu rhwng y rheiny a oedd o blaid arweiniad canolog ar y mater hwn a'r rheiny a ddymunai gael hyblygrwydd i benderfynu lfeleau taliadau eu hunain.

28. Oherwydd y diffyg cytundeb hwn ymhlith awdurdodau, penderfynwyd yn erbyn gosod arweiniad canolog, ac yn hytrach anfonwyd at yr awdurdodau, ym mis Medi 1994, gynllun

model a oedd wedi ei lunio gan un ardal sirol ac y gallai awdurdodau benderfynu ei ddefnyddio'n unigol. Gan ein bod yn credu y byddai'n fanteisiol cael dull cyffredin, gofynsom i bwyllgorau trosiannol ym mhob ardal ddod i farn gyffredin am y sail i swyddogaion fod yn gymwys i gael taliadau am gyfrifoldebau ychwanegol, a lefel y taliadau hynny.

29. Ni wyddai'r Comisiwn am unrhyw anfonlonrwydd â'r dull hwn, ac yr oedd yn fodlon ei fod wedi darparu fframwaith ymarferol ar gyfer penderfyniadau awdurdodau. Yn ymarferol, yr oedd yn ymddangos ei fod yn gweithio'n dda.

#### IAWNDAL AM GOLLI SWYDDI

30. Nid oedd argymhell cynllun iawndal i'r rheiny a oedd yn colli eu swyddi neu'n ymddeol yn gymmar yn wirfoddol oherwydd ad-drefnu yn rhan o'n gorchwyl. Fodd bynnag, yr oedd yn amlwg o gyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol gydag awdurdodau lleol y byddai cynllun yn elfen bwysig yn y broses drosglwyddo. Ym mis Mehefin 1994, bu Adran yr Amgylchedd yn ymgynghori â chyrrff perthnasol am y cynigion a oedd wedi eu llunio gan y Llywodraeth. Ystyriwyd y dadleuon yn ofalus gennym a chefnogwyd y fam gan awdurdodau lleol fod y cynigion hyn yn cymharu'n anffafriol â'r telerau a gynigiwyd mewn ad-drefniadau blaenorol. Felly, yr oedd perygl gwirioneddol y byddent yn ymyrryd â throsglwyddo llyfn yng Nghymru. Credem y dylai'r telerau iawndal fod i raddau helaeth yr un fath ag wrth ad-drefnu awdurdodau Llundain a'r awdurdodau Metropolitan ym 1986. Dadleuwyd gennym hefyd, beth bynnag fyddai'r telerau, y dylent fod yn orfodol yn hytrach nag yn ewyllysiol fel y cynigiai'r Llywodraeth, oherwydd y byddai'n annheg i rai staff yng Nghymru o bosibl gael eu trin yn llai ffafriol nag eraill. Gwrthododd y Llywodraeth wella lefel yr iawndal, ond gwnaed y cynllun yn un orfodol.

31. O ganlyniad, ym mis Awst 1995, gwahoddodd y Swyddfa Gymreig ni i roi sylw ar hyd y "cyfnod penodol" pan fyddai iawndal colli swydd ar gael. Teimlem y byddai'n fanteisiol i awdurdodau gael mwy o amser i brofi eu strwythurau staffio newydd ac i addasu i'r rheiny yn ôl yr angen, ac i staff a oedd yn newid eu swyddogaethau gael mwy o amser i ymgylfarwyddo â'r trefniadau newydd. Felly, daeth y Comisiwn i'r farn y dylai'r cyfnod penodol gael ei gynyddu o 15 mis i o leiaf 18 mis, a chynigiwyd y dylid cael hyblygrwydd i'r cyfnod gael ei ymestyn ymhellach pe bae angen. Yng ngoleuni ymatebion y Comisiwn ac ymatebion eraill, ymestynnodd y Swyddfa Gymreig y "cyfnod penodol" i 21 mis, yn diwedd ar 30 Medi 1997. Croesawyd y penderfyniad hwn gennym.

32. Gan nad yw'r cynllun i ddod i ben am 18 mis ar ôl ad-drefnu, bydd cryn amser cyn y gellir rhoi barn ystyriol am ganlyniadau'r telerau a gynigiwyd i lywodraeth leol ac i unigolion.

#### IAWNDAL AM GOLLI CYDNABYDDIAETH

33. Fel gyda'r iawndal am golli swydd, ymgynghorwyd â ni am gynigion y Llywodraeth i roi iawndal i'r gweithwyr hynny a oedd yn colli enillion (afles) o ganlyniad uniongyrchol

i ad-drefnu. Croesawyd y cynigion hyn yn gynnes gennym o ran egwyddor, ond eto, anogem i'r cynllun fod yn orfodol ac awgrymwyd nifer o welliannau. Mae'n dda gennym ddweud bod y cynllun terfynol wedi ei wneud yn orfodol i weithwyr cynnwys a bod y gofyniad isaf a gynnigid o 2 flynedd o wasanaeth mewn llywodraeth leol wedi ei hepgor, yr un fath â'r cyfyngiad arfaethedig a gynnigid drwy gyfeirio at y taliad posibl am gollu swydd. Nid oedd y Llywodraeth yn derbyn yr awgrym y dylai'r Iawndal hefyd gynnwys colli hawliau gwyliau.

### AR ÔL Y CANIATÂD BRENHINOL - TREFNIADAU YMGYNGHORI

34. Fel y nodwyd uchod, dechreuodd y Pwyllgor Ymgynghorol ar y broses o ymgynghori â llywodraeth leol yn fuan ar ôl ei sefydlu, a phan gafodd y Darpar Comisiwn ei ddisodli gan y Pwyllgor ym mis Ebrill 1994, parhawyd gyda'r ymarfer hwn. Erbyn dechrau mis Awst 1994, yr oeddem ni, neu ein rhagflaenwr, wedi cyfarfod â phob un o'r 45 o'r awdurdodau lleol a oedd yn bodoli yng Nghymru. Yr oedd y cyfarfodydd hynny, yn ein barn ni, yn llwyfan cadarn o wybodaeth a barn i'r Comisiwn allu adeiladu'n llwyddiannus arno.

35. Yn fuan ar ôl i'r Ddeddf gael y Caniatâd Brenhinol ym mis Gorffennaf 1994, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau trosiannol ar gyfer pob un o ardaloedd yr awdurdodau unedol. Er bod ein hymwelwadau â'r 45 o awdurdodau wedi rhoi cipolwg defnyddiol i ni ar y problemau a wynebai gwahanol ardaloedd, teimlid ei bod yn bwysig i'r Comisiwn gwrrd â'r pwyllgorau trosiannol a fyddai'n cyd-gysylltu paratodau ar gyfer ad-drefnu tan etholiad y 22 o ddarpar awdurdodau ym mis Mai 1995. Felly, dechreuwyd ar gylch pellach o ymweliadau ym mis Tachwedd 1994 a chyfarfuom ag 20 o'r 22 o bwyllgorau trosiannol; gwrthododd y rheiny yn Ne Morgannwg ein cynnig o gael cyfarfod. Yr oedd y trafodaethau hynny'n ddefnyddiol i gadarnhau ein bod wedi nodi'r prif faterion gofid a bod y pwyllgorau trosiannol yn cefnogi'n gryf y syniad o drosglwyddo'r staff i gyd. Yr oeddent hefyd yn gyfrwng i ni gael golwg ar y ffordd yr oedd awdurdodau'n gweithio gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer ad-drefnu.

### Undebau Llafur a Chynrychiolwyr Staff

36. Yn ystod pob un o'n cylchoedd o gyfarfodydd gydag awdurdodau a pwyllgorau trosiannol - a'r rheiny gyda darpar awdurdodau (paragraff 85 isod) - trefnwyd hefyd i ni gwrrd â chynrychiolwyr staff ac undebau llafur. Yr oedd y trafodaethau hynny'n arbennig o ddefnyddiol. Ar ôl dileu drwgdybiaethau cychwynnol am amcanion y Comisiwn, daeth y cynrychiolwyr staff i ystyried yr aelodau ar y cyfan yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth a chyngor, yn fan defnyddiol i ollwng stêm ac yn seinfwrdd answyddogol cyfleus. O'n rhan ni, yr oedd y cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr staff yn ein galluogi i gymharu syniadau cyflogwyr gyda syniadau gweithwyr ar faterion penodol yn yr un man ac ar yr un diwrnod, i egluro unrhyw gamddealltwriaeth amlwg rhyngddynt, ac i ddarparu adborth pan fyddai gofyn, gan weithredu'n ddiduedd bob amser. Mewn dau achos lle'r oedd tyntra wedi codi rhwng cyflogwr/gweithwr ar lefel ddirifol gweithredasom fwy neu lai fel canolwyr answyddogol, a chafwyd canlyniadau cadarnhaol yn y ddau achos.

37. Yr oedd y cyfarfodydd hynny'n ddefnyddiol am reswm arall. Yr oeddem o'r farn ei bod yn hanfodol i awdurdodau gael cyswilt cyfathrebu da gyda'u staff a'u cynrychiolwyr - neges a gafodd ei phwysleisio'n gyson ar yr awdurdodau - ac yr oedd ein cyfarfodydd gyda staff ac undebau llafur yn dangos, mewn ffordd glir a chadarn, yn ein barn ni bwysigrwydd cyfathrebu â staff.

38. Yn ystod y cyfarfodydd cynnar hyn gyda chynrychiolwyr staff, gwelsom fod effaith ail-gyflwyno tendro cystadleuol gorfodol ar y broses ad-drefnu yn achosi gofid mawr. Er bod hynny y tu allan i'n gorchwyl, cytunwyd i gyflwyno'r gofid i'r Ysgrifennydd Gwladol. Gwnaed hynny mewn cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Seneddol ym mis Tachwedd 1994 a pharhawyd i bwysleisio'r pwynt wrth swyddogion y Swyddfa Gymreig. Yr oedd yn dda gennym fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi ym mis Mehefin 1995 y byddai ail-gyflwyno tendro cystadleuol gorfodol yn cael ei ohirio am chwe mis arall tan 1 Ebrill 1997 ac 1 Hydref 1997, yn ôl y math o wasanaeth.

### Cylchlythron y Comisiwn

39. Ar ôl sefydlu'r Comisiwn, ymgwymerwyd â chyfres o ymgynghoriadau ffurfiol gydag awdurdodau lleol, undebau llafur a chyirff eraill am y cwestiynau yr oeddem wedi ein gwahodd i roi arweiniad arnynt. Yr oedd yn amlwg i ni ei bod yn hanfodol sefydlu systemau a allai gefnogi proses drosglwyddo lyfn ac eglur a fyddai'n diogelu staff rhag bygythiad triniaeth annheg neu anghyfartal. Dyma'r meysydd allweddol lle teimlem yr oedd angen arweiniad:-

- y broses o ddosbarthu staff i awdurdodau olynol;
- y broses benodiadau, gan gynnwys penderfyniadau a oedd angen cystadleuach a phwy ddylai fod yn gynnwys i wneud cais am swyddi; a
- y mecanwaith apeliadau.

40. Caiff canlyniad ein hymgyngori ar y materion hyn, a materion eraill, eu trafod ym Mhenod 3.

**PARATOI AR GYFER TROSLWYDDO -  
DI-AGREDU, CYSTADLEUAETH,  
YSTYRIAETH YMLAEN LLAW AC APELIADAU**

**Y GORCHYMYN TROSLWYDDO STAFF**

41. Ar y cychwyn, yr oedd y Swyddfa Gymreig wedi rhagweld y byddai'r Comisiwn yn cymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o nodi staff i'w cynnwys yn y gorchymyn trosglwyddo staff. Gallai hynny fod wedi cynnwys ystyried sut y byddai TUPE yn gymwys i wahanol ddsbarthau o staff. Fel y nodwyd uchod, ystyriwn fod unrhyw wahaniaethu'n annheg yn sylfaenol a chytunem yn llwyr â'r cytundeb a luniwyd gan yr awdurdodau yn gynnar ym 1995, i drosglwyddo'r holl staff a ddymunai gael eu trosglwyddo. Yr oedd yr ymrwymiad hwnw'n newid yn sylfaenol ein swyddogaeth mewn perthynas â'r gorchymyn trosglwyddo staff. Yn hytrach na bod angen cael swyddogaeth uniongyrchol wrth ei baratoi, yr oeddem yn gallu canolbwyntio ar sicrhau bod systemau priodol ar gael i atgyfnerthu gwaith paratoadol yr awdurdodau i'r gorchymyn ac i ddarparu dulliau diogelwch i staff. Yr oedd y mecanwaith apeladau cenedlaethol yn amlwg yn darparu rhyw ddiogelwch allweddol i staff, ac yr oedd ein cyngor ar ystyried ymlaen llaw, cystadlucaeth, a threfniadau penodi a dewis, fel y trafodir yn y tudalennau sy'n dilyn, yn atgyfnerthu'r trefniadau hynny.

42. Fel y digwyddodd, yr oedd angen i'r Comisiwn roi cyngor uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol am y gorchymyn trosglwyddo staff yn unig pan fyddai awdurdodau'n methu cytuno ble i leoli gweithwyr unigol. Digwyddodd hynny bedair gwaith yn unig a deliwyd â hwy yn y gorchymyn trosglwyddo staff rhif 2. Bu'r Comisiwn mewn cysylltiad agos â'r Swyddfa Gymreig ynglŷn â'r gorchymyn staff rhif 3, ond nid oedd angen cyngor ffurfiol.

43. Mewn ychydig enghreifftiau, yr oedd y gorchymyn trosglwyddo staff yn trosglwyddo unigolion i gyd-gyflogaeth mwy nag un awdurdod. Cydnabyddwyd bod rheswm penodol am y penderfyniad hwnnw ym mhob achos - er enghraifft, fod yr awdurdodau'n bwriadu sefydlu cyd-bwyllgor i arolygu gweithgarwch penodol - ond yr oeddem yn gofidio y gallai cyd-gyflogaeth greu ansicrwydd i'r staff. Ym mhob achos, anogwyd cyflogwr presennol yr unigolion i lunio cytundeb rhwng yr awdurdodau olynol ynglŷn â pha un ohonynt fyddai'n gyflogwr penodol at ddibenion y gyfraith ar gyfer y grŵp hwnnw o staff. Wedyn cadarnhaodd yr awdurdodau fod trefniadau priodol wedi eu cytuno rhwng yr awdurdodau olynol.

**DI-AGREDU**

44. Pan oedd awdurdodau presennol i gael eu rhannu rhwng dau awdurdod newydd neu ragor, yr oedd angen i'r awdurdodau benderfynu ar y meini prawf perthnasol i ddsbarthu swyddi a staff i bob awdurdod olynol, a gofynnwyd i ni roi ein cyngor. Buom yn trafod y materion hyn gyda phwyllgorau trosiannol, a oedd eisocs yn delio â hwy. Daethom i'r

casgliad, i'r mwyafrif helaeth o staff, y byddai'n hollol amlwg oherwydd lleoliad eu swydd i ba awdurdod newydd y dylent drosglwyddo. I eraill, byddai'r awdurdod newydd yn hawdd ei nodi drwy gyfeirio at y gyfran honno o'u gwaith a oedd i'w phriodoli i leoliad neu ardal arbennig. Ar gyfer y gweddill o'r staff heb unrhyw hunaniaeth ddaearyddol benodol, gellid eu dosbarthu yn ôl y gyfran o gyllideb y Cyngor presennol a gâi ei gwario yn ardal yr awdurdod newydd, neu yn ôl y boblogaeth. Awgrymwyd y dylai'r awdurdodau hyn gytuno'n lleol ar y dull i'w ddefnyddio gyda chynrychiolwyr staff, ond pan fyddai anhawster, y byddem yn tueddu i ddefnyddio cyfran y gyllideb fel maen prawf. Yr oedd y broses di-agredu staff yn faes lle teimlem y byddai'n lleol i'r staff i drefniadau gael eu datblygu a'u cytuno yn ôl amgylchiadau lleol. Gwnaethpwyd yn glir gennym y byddem ar gael i helpu drwy drafodaeth a chynghori pe bai unrhyw anawsterau.

45. Ar ôl cytuno ar nifer y staff i'w trosglwyddo, yr oedd yn rhaid i'r awdurdodau wedyn ddatblygu, a chytuno gyda'r staff, y meini prawf i'w defnyddio i benderfynu pa unigolion fyddai'n trosglwyddo i ba awdurdod. Yr oedd y meini prawf ar y cyfan yn cynnwys dewisiadau personol, amgylchiadau domestig, hyd gwasanaeth a'r cyfuniad medrau yr oedd ei angen ar awdurdodau. Yr oedd hwnnw'n gyfnod pryderus i'r staff a gynhwysid yn y drefn hon. Byddai penderfyniadau ar ddi-agredu yn effeithio nid yn unig ar eu man gweithio ond hefyd, o bosibl, ar eu rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol. Yr oedd y staff yn awyddus i osgoi mynegi eu dewis dros awdurdod pan na fyddai angen eu medrau penodol hwy, o bosibl, a byddai rhai'n dadlau na ddylai fod angen iddynt fynegi dewis dros awdurdod neu'r llall tan i'r awdurdodau unedol ddatblygu eu hadeiladwaith staffio. Er ein bod yn cydymdeimlo â'r gofidiau hyn, teimlem fod oedi'n anymarferol - mewn llawer enghraifft, ni fyddai dewis personol yn ffactor hanfodol beth bynnag wrth benderfynu i ble y byddai unigolyn yn cael ei drosglwyddo - yn ogystal â pheryglu'r holl broses drosglwyddo. Cydnabyddem hefyd na fyddai fyth yn bosibl i'r holl staff gael eu symud i awdurdod eu dewis cyntaf. Felly, rhoddwyd blaenoriaeth uwch ar sicrhau y dylai staff a oedd yn anhapus â'r di-agredu gael cyfle i apelio i drosglwyddo i awdurdod unedol gwahanol ac i wneud cais am swyddi gydag awdurdodau eraill.

## Y BROSES BENODIADAU

46. Yr oedd ein harweiniad ar ystyriaeth ymlaen llaw, fel y trafodir ym mharagraffau 57 i 72, yn gymwys i swyddi lle'r oedd angen cystadleuaeth. Cydnabyddwyd, fodd bynnag, mai ychydig amser fyddai ar gael i awdurdodau lenwi swyddi o dan eu hadeiladwaith newydd. Ni fyddai'n bosibl nac yn angenrheidiol llenwi pob swydd drwy gystadleuaeth. Mewn llawer maes mewn gweithgarwch llywodraeth llenwi pob swydd drwy gystadleuaeth. trosglwyddo i'r awdurdod newydd yn eu swyddi presennol. Mewn meysydd eraill, fodd bynnag, byddai'n rhaid i awdurdodau benderfynu ym mhob achos a oedd angen cystadleuaeth neu a allai swydd gael ei llenwi gan unigolyn yr oedd ei gyfrifoldebau presennol yn debyg iawn i'r rheiny yn y swydd newydd.

47. Yr oeddem yn cydnabod mai'r awdurdodau'n lleol, o reidrwydd, fyddai'n gwneud penderfyniadau am y cwestiwn a oedd angen llenwi swydd drwy gystadleuaeth neu drwy

ryw fath arall o gymathu swyddi. Fodd bynnag, yr oeddem hefyd yn ymwybodol y gallai penderfyniadau felly fod yn holl-bwysig i ragolygon cyflogaeth unigolyn yn y dyfodol, y gallai unigolion ofni y gallai'r dull o gymhathu swyddi fod yn agored i'w gam-dddefnyddio, ac y gellid gofyn i'r Comisiwn ymyrryd mewn unrhyw anghydfod ynglŷn â phenderfyniadau felly. Daethom i'r casgliad y dylem gynnig ein barn ar y mater hwn, ond wrth wneud hynny, teimlem y dylid rhoi pwys priodol ar brofiad awdurdodau lleol yn y maes hwn, a cheisiodd peidio ag ymyrryd â chyfrifoldebau a disgresw'n priodol yr awdurdodau.

48. Yn ein harweiniad, felly, yr oeddem yn nodi rhai enghreifftiau lle gallai cystadleuaeth fod yn ofynnol: sef lle gallai cymathu swyddi (a elwir hefyd yn 'sloio i mewn') fod yn anfantais i staff eraill. Pwysleisiodd yr angen am drefniadau clir ac amlwg wedi eu cytuno, a thynnwyd sylw awdurdodau at bosiblwyddd apeliadau. Gwnaethpwyd yn glir gennym hefyd y byddem, o gael ymholiadau gan staff, yn cysylltu â'r awdurdod dan sylw ac y byddem yn disgwyl cadarnhau ei benderfyniad yn unig os byddai arferion personell da wedi eu dilyn. Teimlem fod digon o wybodaeth a phrofiad am arferion penodi da yn bodoli mewn llywodraeth leol, ac am y rheswm hwnnw ni chynhwyswyd unrhyw arweiniad manwl ar drefniadau dewis yn ein cyngor ar 13 Mawrth 1995.

49. Yr oedd yr ymateb wedyn gan awdurdodau yn awgrymu y byddai'r broses o lenwi swyddi yn yr awdurdodau newydd wedi bod yn dasg amhosibl pe na bae cymathu swyddi wedi ei ddefnyddio i leihau'n sylweddol nifer y cyfweiliadau cystadleuol yr oedd yn rhaid eu cynnal. Yr oedd ymateb aelodau staff yn cadarnhau ei bod yn hanfodol, yn y lle cyntaf, i drefniadau fodoli'n lleol i unigolion allu apelio yn erbyn penderfyniadau cymathu swyddi, ac yn ail, fod y meini prawf a ddefnyddid wrth benderfynu a oedd cymathu swyddi'n bod neu a oedd angen cystadleuaeth yn ddigon clir ac amlwg i ganiatáu cael trafodaeth wrthrychol pe bai apêl yn cael ei gwneud.

## Cyfle Cyfartal

50. Yr oedd arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwahodd y Comisiwn i ystyried cyhoeddi arweiniad ar gyfrifoldebau cyfle cyfartal. Wrth gwrs, yr oedd gan awdurdodau ddyletswydd eisoes i gydymffurfio â'r gyfraith ar osgoi gwahaniaethu ar sail rhyw a hil. Credem ei bod yn gywir ystyried a fyddai arweiniad ychwanegol o les i awdurdodau yn ystod y broses drosglwyddo. Cawsom drafodaethau gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yng Nghymru a chytunodd i baratol canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau lleol ar y materion a oedd yn debygol o godi yng nghyd-destun ad-drefnu. Buom yn ymgynghori hefyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, ac o ganlyniad tynnwyd sylw awdurdodau at eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 pan anfonwyd arweiniad y Comisiwn Cyfle Cyfartal at awdurdodau ym mis Ebrill 1995.

51. Yn sgil sylwadau gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal ym mis Ionawr 1996 a chan Gadeiryddion Pwyllgorau Cymreig Cyflogaeth Pobl Anabl, cyhoeddwyd llythyr pellach gennym ar 31 Ionawr 1996 yn tynnu sylw awdurdodau unwaith yn rhagor at eu cyfrifoldebau statudol i osgoi gwahaniaethu.

## Yr Iaith Gymraeg

52. Cawsom sylwadau gan UNSAIN ynglŷn â phennu'r iaith Gymraeg fel gofyniad ar gyfer rhai swyddi; mynegodd yr undeb ei ofid y gallai rhai ymgeiswyr posibl gael eu hepgor yn anhag rhag cael eu hystyried. Gwnaethpwyd yn glir ein barn mai mater i awdurdodau lleol oedd penderfynu ym mhob achos, o fewn y ddeddfwriaeth berthnasol, ddilysrwydd gofyniad i allu siarad Cymraeg.

## Trefniadau Penodi a Dewis - Cwynion

53. Ar ôl rhoi sylw dyladwy i brofiad personnel awdurdodau lleol, siom i ni oedd cael sylwadau, yn ystod y cyfnod o wneud penodiadau ar lefel prif swyddogion, gan undebau ac unigolion yn mynegi gofid nad oedd awdurdodau ym mhob amgylchiad yn dilyn yr arferion personnel gorau nac arweiniad y Comisiwn Cyfle Cyfartal. Cafodd y sylwadau hyn eu hystyried, ac ym mis Medi 1995 cyhoeddwyd cylchlythyr 6/95 gennym ar drefniadau penodi a dewis. Yr oedd y cylchlythyr hwnnw'n tynnu sylw awdurdodau at bwysigrwydd trefniadau personnel da ac yn ei gwneud yn glir y byddem yn mynd ar ôl unrhyw gwynion a gaem am enghreifftiau o fethu a dilyn arferion da.

54. Rhwng mis Awst 1995 a mis Mawrth 1996, cawsom 10 o gwynion ysgrifenedig ffurfiol am benderfyniadau gan awdurdodau yn ystod y broses o lunio rhestr fer o ymgeiswyr, ac ymchwiliwyd i'r cwynion hynny. Cawsom wybod, drwy gyfrwng nifer o sylwadau anffurfiol, nad y cwynion ffurfiol hyn oedd yr holl gwynion gan unigolion a oedd yn anhapus am eu triniaeth; mae'n bosibl fod yna lawer yn rhagor nad oeddent yn teimlo'n alluog i gwyno oherwydd ofn peryglu eu cyfle o gael cyflogaeth rywle arall yn y sefydliad neu mewn awdurdodau eraill. Fodd bynnag, gallem weithredu'n unig pan fyddai achwynwyr yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ni.

55. Ni fyddai'n iawn cyhoeddi gohebiaeth na chyngor sy'n ymwneud ag unigolyn y gellir ei adnabod; felly, ni all yr adroddiad hwn drafod yn fanwl o gwbl yr achostion y deliwyd â hwy. Ein dull oedd gofyn i'r awdurdod unedol am ei sylwadau am y gwyn. Yn y rhan fwyaf o achostion, yr oedd eglurhad bodhaol yn bod ac ni chwasmos reswm dros fynd â'r mater ymhellach. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cefnogi dull yr awdurdod mewn dau o'r achostion hyn, ac yn y ddwy enghraifft buom yn ystyried a ddylem dynnu sylw'r Ysgrifennydd Gwladol at ein gofid. Er ein bod yn ansicr am y trefniadau a oedd wedi eu defnyddio, nid oedd gennym dystiolaeth fod hynny wedi cael effaith sylweddol ar ganlyniad terfynol y broses ddeuwis. O ganlyniad, nid ystyriem fod gennym sail dros gyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol (o dan Adran 40 (3) o'r Ddeddf) i orchymyn awdurdod i ail-reddeg penodiad. I wneud hynny, byddai'n rhaid i ni fod wedi darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol dystiolaeth y byddai'n deg ac yn rhesymol iddo wrthod penderfyniad yr awdurdod ac unrhyw gontract cyflogaeth a oedd eisoes wedi ei wneud: fel arall, mae'n bosibl na ellid cynnal y cyfarwyddyd mewn llys barn.

56. Er bod y 10 achos y buom yn delio â hwy yn cynnwys cyfran fach iawn yn unig o'r staff a drosglwyddwyd i'r awdurdodau newydd, siom i ni fodd bynnag oedd fod rhai

unigolion, naill ai o ganlyniad i gyfathrebu gwael â'r staff, neu oherwydd diffyg eglurder yn y trefniadau dewis, neu oherwydd arferion gwael gwirioneddol, wedi teimlo'n ddigon anfodlon am y broses benodi i ddod atom yn ffurfiol. Yr oedd trefniadau penodi teg ac eglur yn hanfodol bwysig i gynnal ysbryd staff a oedd yn trosglwyddo i awdurdod newydd.

## YSTYRIAETH YMLAEN LLAW

57. Ystyriaeth ymlaen llaw oedd yr enw a roddid i'r trefniant lle byddai awdurdodau yn rhoddi blaenoriaeth, yn y lle cyntaf, i grŵp penodol o staff wrth hysbysebu swyddi a'u llenwi. Cafodd y trefniant hwn ei lunio i ddiogelu staff yn ystod y broses drosglwyddo a phenodi. Nid oedd yn gwarantu y byddai unigolion yn cael eu rhoi ar restr fet ar gyfer cyfweiliadau nac yn llwyddo ynddynt; ond yr oedd yn rhoi'r hawl iddynt gael ystyriaeth i'w ceisiadau cyn y gallai ymgeiswyr o'r tu allan i'r grŵp ystyriaeth ymlaen llaw wneud cais.

58. Gan gydnabod y gallai trefniadau ystyriaeth ymlaen llaw gael effaith sylweddol ar ragolygon cyflogaeth unigolion, dechreuwyd trafod y cwestiwn hwn yn gynnar. Cyhoeddwyd ein cylchlythyr ymgynghori cyntaf ar ystyriaeth ymlaen llaw ar 16 Medi 1994. Yr oedd hwnnw'n gosod allan farn y Comisiwn ar gystadlaeth i swyddi prif swyddogion a pha grwpiau o staff fyddai'n gymwys i wneud cais am swyddi lle'r oedd angen cystadlaeth ar lefel prif swyddog ac is. Yr oedd y Swyddfa Gymreig wedi mynegi'r farn y dylai penodiadau prif swyddogion fod yn agored i gystadlaeth agored lawn a chefnogid y farn honno gan y Comisiwn. Gwelsom fod ystyriaeth ymlaen llaw yn bwnc lle'r oedd barn yr awdurdodau'n amrywio'n helaeth, a pharhaodd y drafodaeth am hyn tan yn hwyr ym 1995. Ym mis Ionawr 1995, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori, cyhoeddwyd cylchlythyr 1/95 gennym ar ystyriaeth ymlaen llaw. Dilynwyd hwnnw gan gylchlythyr 3/95 ym mis Mawrth a chan gyngor pellach i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Ebrill ac i'r awdurdodau ym mis Mai a mis Awst. Caiff cynnwys ein harweiniad ei drafod yn fanylach ym mharagraffau 57 i 72 isod.

## Penodi'r Prif Weithredwr

59. Wrth ystyried pa gyngor yr oedd angen ei roi i awdurdodau lleol, yr oeddem yn cydnabod mai'r cam cyntaf y byddai angen i bob awdurdod ei gymryd fyddai penodi pennaeth ei wasanaeth cyflogedig. Gallai unrhyw oedi cyn gwneud y penodiad hwn gael effaith gynyddol ar benodiadau eraill gan achosi oedi wrth benodi prif swyddogion ac felly cyn paratoi adeiladwaith trefniadaeth adrannau. Yn wir, ar un adeg dadleuai rhai awdurdodau y dylai'r Comisiwn sefydlu amserlen yn gosod allan y dyddiad pan fyddai pob awdurdod unedol yn cynnal ei gyfweiliadau, ac y dylai'r Comisiwn ei hun oruchwylio'r broses. Nid ystyriem fod hynny'n ymarferol.

60. Yr oeddem yn ymwybodol y byddai penodi'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn gosod naws penodiadau dilynol. Ym mis Tachwedd 1994, felly, (tua 10 mis cyn ein cyngor diweddarach ar osgoi arferion gwael mewn trefniadau penodi) yn sgil trafodaethau



gyda'r Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), cyhoeddwyd cylchlythyr ymgynghori gennym ar benodi prif weithredwyr, a hwnnw'n cynnwys rhestr archwilio ar gyfer hysbysebion ac awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth i roi i ddarpar ymgeiswyr. Nid oedd yn cynnig cyngor penodol ar drefniadau dewis, ond yr oedd yn pwysleisio y dylai'r broses fod yn deg ac y dylai ymddangos yn deg. Argymhellwyd gennym y dylai pob awdurdod newydd gael sylwbydd penodi annibynnol i roi cyngor diddedd ar drefniadau. Yr oedd hynny'n fater dadleuol ar y pryd, ond cydymffurfiodd pob un o'r awdurdodau â'n harweiniad gan benodi sylwbydd annibynnol.

61. Yr oeddem yn awyddus i sicrhau na chât dim byd ei wneud gan yr awdurdodau presennol i ragfarnu ystyried ceisiadau am swyddi gan yr awdurdodau newydd. Ar y cychwyn cyngorwyd llywodraeth leol gennym mai'r awdurdodau newydd ddylai benderfynu disgrifiadau swyddi ar gyfer penaethiaid eu gwasanaeth cyflogedig a rhoi hysbysebion yn y wasg. Fodd bynnag, dadleuodd rhai pwyllgorau trosglwyddo y gellid arbed amser gwerthfawr pe bai hysbysebion yn cael eu cyhoeddi cyn yr etholiadau, pe baent dros dro'n unig ac i gael eu cadarnhau gan yr awdurdodau newydd wedyn. Cytunem, pe bai pwyllgorau trosglwyddo yn dymuno cymryd y cam hwnnw, heb ragfarnu penderfyniad yr awdurdod newydd yn y pen draw, na fyddem yn ceisio'u hatal. Cyhoeddodd y mwyafrif o'r pwyllgorau trosglwyddo hysbysebion ymlaen llaw. Gofynsom am gael gweld copïau o'r hysbysebion cyn eu cyhoeddi a chopiau o'r drafft o ddisgrifiadau swyddi a manylion personau a oedd wedi eu paratoi, a darparwyd y rheiny.

62. Yr oedd ymatebion i'n cylchlythyr ymgynghori ar ystyriaeth ymlaen llaw yn awgrymu bod yna gefnogaeth eang, ond mid unfrydol, i benodi'r prif weithredwr drwy gystadlueth agored lawn. Credai rhai cyrrif y dylai cystadlueth gael ei chyfyngu i Gymru, neu i'r prif weithredwyr presennol yng Nghymru, yn y lle cyntaf. Yn ystod ein cyfarfodydd gyda phwyllgorau trosglwyddo ac awdurdodau lleol, cawsom yr argraff fod yna deimlad o ansicrwydd a fyddai pob awdurdod newydd yn defnyddio trefniadau cystadlueth agored yn llawn. Daethom i'r casgliad y byddai'n llesol i'r holl awdurdodau newydd ac i ymgeiswyr posibl am y swyddi pe bae'r broses yn cael ei gwneud yn hollol sicr. O gofio y gallai awdurdod newydd benderfynu fel arall ar fyr rybudd ar ôl yr etholiad i beidio â dilyn ein harweiniad, gofynsom i'r Ysgrifennydd Gwladol, ym mis Ebrill 1995, wneud cystadlueth agored yn orfodol, fel y cyngorwyd yn ein cylchlythron ar ystyriaeth ymlaen llaw. Cytunodd yntau a chyhoeddodd gyfarwyddyd yn unol â hynny o dan adran 40 (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

#### **Ystyriaeth ymlaen llaw - Swyddi Prif Swyddogion**

63. Yr oeddem o'r farn yn gynnar iawn y dylid, ar gyfer swyddi ar lefel prif swyddog haen gyntaf, roi ystyriaeth ymlaen llaw i swyddogion llywodraeth leol a oedd yn gweithio yng Nghymru. Yr oedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghori yn cefnogi'r farn honno a dyna oedd ein safbwynt drwy gydol y broses ad-drefnu. Cafwyd ychydig ddaidau am yr hyn oedd swydd prif swyddog, a diffiniwyd hi gennym fel swydd haen gyntaf.

- yn uniongyrchol gyfrifol i bennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod; neu

- wedi ei chynnwys yn y fim rheolaeth gorfforaethol (lle byddai adailadwaith felly yn cael ei mabwysiadu); neu

- yn angenrheidiol yn ôl y statud.

#### **Ystyriaeth ymlaen llaw - Swyddi Islaw Lefel Prif Swyddog**

64. Ar gyfer swyddi islaw lefel prif swyddog, teimlem y gallai ystyriaeth ymlaen llaw gael ei rhoi naill ai i staff yn yr awdurdodau blaenorol neu i staff yn awdurdodau'r hen ardal sirol. Ym Mhowys, nid oedd gwahaniaeth rhwng y ddau ddewis hwnnw, gan y byddai holl awdurdodau'r hen ardal sirol yn rhan o'r awdurdod newydd. Fodd bynnag, yn Aberconwy a Cholwyn (Conwy) er enghraifft, byddai wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i nifer y staff a fyddai'n gymwys i gael eu hystyried ar gyfer swyddi yn yr awdurdod hwnnw. Y rheswm am hynny oedd fod yr awdurdod yn cynnwys dwy ardal cyngor dosbarth mewn dwy sir gyfagos. Yn yr achos hwn, byddai cyfyngu ystyriaeth ymlaen llaw i awdurdodau blaenorol yn golygu y byddai staff mewn pedwar awdurdod (CS Gwynedd, CS Clwyd, CB Aberconwy a CB Colwyn) yn gymwys ar gyfer ystyriaeth ymlaen llaw, tra byddai ymestyn ystyriaeth ymlaen llaw i'r holl staff yn yr hen ardal sirol yn golygu y byddai staff mewn naw cyngor dosbarth ychwanegol (Ynys Môn, Arfon, Dwyrfor, Meirionnydd, Delyn, Alun a Glannau Dyfrdwy, Wrecsam Maelor, Rhuddlan a Glyndwr) yn gymwys. Mae'r enghraifft hon yn dangos yn glir y tyndra a oedd yn bodoli mewn rhai ardaloedd rhwng y dymuniad i roi cyfle i gynifer â phosibl o'r staff gael gwneud cais am swyddi gwag, a'r anawsterau ymarferol a allai godi o wneud hynny.

65. Yn ein cylchlythyr ymgynghori ym mis Medi 1994, yr oeddem wedi dod i'r farn y dylai ystyriaeth ymlaen llaw gael ei chyfyngu i ardal yr awdurdod lleiaf (blaenorol). Dangosodd yr ymatebion i'n hymgyngori nad oedd cytundeb mewn llywodraeth leol a chafodd nifer o dduilliau eraill hefyd eu cyflwyno. Yr oedd i bob dull ei fanteision a'i anafanteision, ac mewn rhai achosion yr oedd y dadleuon bron yn gyfwbwys. Fodd bynnag, daethom i'r farn y byddai'n decach i fwy o staff ar y cyfan i osod yr ardal ehangach yn cynnwys sir gyfan a rhoesom wybod i'r awdurdodau am ein casgliad ym mis Ionawr 1995. Yn y cyfnod cynnar hwnnw, nid oedd yr ymrwymiad i egwyddor trosglwyddo'r staff i gyd eto wedi ei wneud yn ffurfiol, a chredem, heb warant trosglwyddo, y byddai buddiannau staff yn cael eu diogelu'n well gan faes ehangach o ystyriaeth ymlaen llaw. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, yr oeddem yn ymwybodol iawn o'r diffyg unfrydedd barn mewn llywodraeth leol am y pwnc hwn, a phan ddaeth yr awdurdodau atom gyda chynigion gwahanol ar gyfer trin ystyriaeth ymlaen llaw yn eu hardaloedd, gwrandawyd gyda chydymdeimlad ar eu sylwadau.

## Trefniadau lleol

66. Ar ôl cadarnhau y byddai'n bosibl i'r holl staff drosglwyddo pe baent yn dymuno cael eu trosglwyddo, dangosodd awdurdodau mewn rhai ardaloedd fwy o ddiddordeb mewn mynd ar ôl trydydd dewis. Daethant i'r casgliad mae'r dull tecaf fyddai cyfyngu ystyriaeth ymlaen llaw, nid yn unig i staff yn yr awdurdodau blaenorol, ond i'w gyfyngu ymhellach i'r staff hynny a fyddai'n trosglwyddo i gyflogaeth yr awdurdod unedol hwnnw. Cododd y farn hon oherwydd y byddai ystyriaeth ymlaen llaw mewn rhai ardaloedd ar sail yr awdurdod blaenorol yn gyfle i swyddogion cyngorhau sir wneud cais am swyddi mewn tri awdurdod unedol neu fwy, tra gallai staff yn y cyngorhau dosbarth hynny nad oeddent yn cael eu rhannu wneud cais am swyddi mewn un awdurdod yn unig. Yr oedd i'r trydydd dull hwn, a elwid yn gyffredinol yn ddull "cronfa", y fantais i awdurdodau unedol o gyfyngu nifer y staff y byddai'n rhaid rhoi gwybod iddynt am swyddi gwag.

67. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion hyn yn ofalus. Yr oeddem yn ymwybodol fod rhai anafanteision yn gysylltiedig â'r dull hwn. Yn enwedig, gyda'r trefniant hwn byddai gan staff a oedd yn anhapus o gael eu dosbarthu i awdurdod unedol penodol lai o gyfle i wneud cais am swyddi yn yr awdurdodau unedol cyfagos nag a fuasai ganddynt o dan y trefniant sir-gyfan. Am y rheswm hwn, yr oedd yn bwysig i awdurdodau fod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod eu trefniadau di-agredu yn glir, yn deg ac yn cael eu cefnogi gan y staff. Wrth gwrs, byddai gan staff a oedd yn anfodlon â chanlyniad yr ymarfer di-agredu gyfle i apelio yn erbyn eu dosbarthiad i awdurdod penodol. Er mwyn bod yn deg â'r unigolion hynny felly, byddai angen i awdurdodau sicrhau nad oedd unrhyw apeliadau felly heb eu penderfynu wrth roi gwybod i staff am swyddi gwag. Yr oedd hynny'n golygu ei bod yn bwysicach fyth i'r mecanwaith apeliadau weithredu'n gyflym ac yn effeithiol.

68. Trafodwyd y gofidiau hyn gyda'r awdurdodau dan sylw, a chan gymryd i ystyriaeth yr ymrwymiad i drosglwyddo staff a oedd newydd ei gadarnhau, daethom i'r casgliad, lle'r oedd cefnogaeth unfryd i drefniadau lleol mewn ardal benodol, na fyddem yn gwrthwnebu trefniadau felly. Gosodwyd allan rai meini prawf ar gyfer y trefniadau hyn yn ein cylchlythyr 3/95 ym mis Mawrth 1995: yr oedd angen cytundeb yr holl awdurdodau presennol a'r rhai newydd yn yr ardal a chytundeb staff a chynrychiolwyr undebau llafur cyn y byddem yn cymeradwyo trefniadau lleol ar gyfer ystyriaeth ymlaen llaw a fyddai'n wahanol i'n harweiniad.

69. Yr oedd cytundeb yn ddiweddar gan awdurdodau lleol i drosglwyddo'r staff i gyd yn hanfodol i'n penderfyniad i dderbyn trefniadau lleol. Heb yr ymrwymiad hwnnw, byddai'r trefniant "cronfa" wedi bod yn annerbyntol i ni. Byddai wedi golygu y câi staff a fyddai wedi eu hepgor o'r SIO (er enghraifft, oherwydd barnu nad oedd TUPE yn gymwys iddynt) eu hamddifadu hefyd o'r cyfle i wneud cais am swyddi pan fyddai swyddi gwag yn cael eu hysbysebu am y tro cyntaf. Ni allem fod wedi cydsynio i ddull gyda goblygiadau felly.

## Ystyriaeth i staff "Wedi eu lleoli" a "Heb eu lleoli"

70. Daeth barn wahanol arall am ystyriaeth ymlaen llaw i'r amlwg mewn llywodraeth leol ar ôl cyhoeddi'n arweiniad o ganlyniad i gytundeb gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) y dylai fod gan staff a oedd yn trosglwyddo ar sail "wedi eu lleoli" - ac ystyr hynny i ni oedd staff a fyddai'n trosglwyddo yn eu swyddi presennol neu a oedd wedi eu dosbarthu i swyddi penodol gyda'r awdurdod newydd heb gystadlaeth - hawl i ystyriaeth ymlaen llaw yn unig ar ôl i staff "heb eu lleoli" gael eu hystyried. Ein barn ni oedd na dylai staff "wedi eu lleoli" yn gyffredinol gael eu hepgor o flaenoriaeth ymlaen llaw, ond yr oeddem yn cydnabod fod awdurdodau lleol ac undebau llafur yn rhoi llawer o bwys ar y cytundeb NJC, ac ym mis Mai 1995, derbynwyd gemym y gallai'r trefniadau lleol y cyfeiriwyd atynt uchod gyda'r dulliau diogelwch a osodwyd allan ym mharagraff 68, hefyd gynnwys y mater hwn. Erbyn dechrau Ionawr 1996, yr oeddem wedi cymeradwyo trefniadau lleol ym mhob un o'r wyth sir. Yr oedd yn ymddangos bod y trefniadau lleol hyn yn gweithio'n dda mewn gwirionedd.

## Hysbysebu Ehangach

71. Pan fyddai awdurdodau unedol yn dymuno hysbysebu swyddi gwag y tu allan i'r maes ystyriaeth ymlaen llaw, ar sail Cymru gyfan neu gystadlaeth agored, gofynsom i'r cyngorhau ddog at y Comisiwn cyn cymryd y cam hwnnw. Felly, yr oeddem yn gallu bodloni'n hunain fod awdurdodau'n rhoi ystyriaeth briodol i weithwyr llywodraeth leol cyn ceisio penodi ymgeiswyr allanol.

72. Cyn 1 Ebrill 1996, cawsom yn agos i 200 o geisiadau gan awdurdodau lleol am fynd ymlaen i hysbysebu'n agored, ac yr oeddem yn gallu cytuno ar unwaith â'r mwyafrif ohonynt. Mewn nifer fach o achostion, yr oedd yn ymddangos fod yna ymgeiswyr lleol cymwys, a gofynsom i'r awdurdodau roi cyfweiliad iddynt hwy cyn mynd ymlaen i'r ail gam. Caiff y trefniadau ystyriaeth ymlaen llaw a oedd yn gweithredu ar ôl 1 Ebrill 1996 eu trafod ym Mhennod 6.

## APELIADAU

73. Yr oedd ein harweiniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei gwneud yn ofynnol i ni benderfynu'r mecanwaith apeliadau mwyaf effeithiol i unigolion a fyddai'n dymuno herio penderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt o ganlyniad uniongyrchol i ad-drefnu. Ystyriem mai hon oedd un o'n blaenoriaethau pennaf, ac ym mis Medi 1994, cymerwyd camau i sefydlu gweithgor anffurfiol yn cynnwys undebau llafur, cymdeithasau awdurdodau lleol a'r Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol (LGMB).

74. Yr oedd arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ein gwahodd i ystyried y peirianwaith presennol ar gyfer Cyngorhau Rhanbarthol, wedi ei addasu yn ôl anghenion arbennig yr ad-drefnu yng Nghymru, fel a ddigwyddodd wrth ad-drefnu llywodraeth leol y tro diwethaf. Credem fod natur sylfaenol y newidiadau a fwriedid y tro hwn yn golygu ei bod yn hanfodol cael mecanwaith effeithiol a chyflym. Yr oeddem yn awyddus, felly, i'r mecanwaith

apeliadau arbennig ganolbwyntio ar y pynciau hynny a fyddai'n cael mwyafrif o effaith ar ragolygon cyflogaeth unigolion yn y dyfodol ac a fyddai'n fwyaf anodd eu datrys yn lleol. Byddai ymateb cyflym yn hanfodol, yn enwedig mewn perthynas â materion gorchymyn trosglwyddo staff ac ystyriodd y gweithgor yn ofalus pa newidiadau oedd yn angenrheidiol yn nhrefniadau presennol y Cynghorau Rhanbarthol i'w galluogi i gynnwys y grwpiau hynny o staff nad oeddent cyn hynny yn cael eu cynnwys ganddynt, ac i weithio'n gyflym.

75. Daethom i'r casgliad mai'r prif bynciau y byddai aelod unigol o staff hwyrach am eu henio oedd, yn gyntaf, gael ei hepgor o'r gorchymyn trosglwyddo, neu'n ail, ei gynnwys yn y gorchymyn trosglwyddo, ond o safbwynt yr unigolyn, wedi ei ddostrarthu i'r awdurdod newydd anghywir. Cawsom ein perswadio hefyd fod angen hawl apelio yn erbyn methiant i gynnwys unigolyn yn y grŵp priodol i gael ystyriaeth ymlaen llaw ar gyfer swyddi lle'r oedd cystadleuaeth yn digwydd. Nododd y cynrychiolwyr llywodraeth leol ar y gweithgor rai materion eraill y dymunent i'r peirianwaith eu cynnwys, ond derbyniwyd na ddylai'r Comisiwn gadw llygad ar y rheiny ac na ddylent oeddi'r broses o ystyried apeliadau mewn cysylltiad â'r prif bynciau. Yr oeddem yn awyddus, cyn i beirianwaith y Cynghorau Rhanbarthol gael ei ddefnyddio, y dylai popeth posibl fod wedi ei wneud ar lefel leol i ddatrys yr anghydfod, ac ar ôl i beirianwaith y Cynghorau Rhanbarthol ddod i rym, y byddai apeliadau'n cael eu penderfynu'n gyflym. Felly, argymhellwyd amserlen lem gennym ar gyfer cyflwyno ac ystyried y dogfennau perthnasol ac ar gyfer trefnu gwrandawriad. Ystyriem ei bod yn bwysig i'r panel a gâi ei sefydlu i wrando apêl gael Cadeirydd annibynnol, oherwydd byddai'r panel, er na fyddai gan aelodau'r panel apelio ddi-ddordeb personol yn yr achos, yn cynnwys nifer cyfartal o gynrychiolwyr o ochr y cyflogwr ac o ochr y gweithwr.

76. Cyhoeddwyd ein cylchlythyr (4/95) ar drefniadau apelio ar 5 Mai 1995. Yr oedd hwnnw'n gosod allan y ddau bwnc y gellid apelio yn eu cylch ac a oedd yn fater i'r Comisiwn, ynghyd â'r tri phwnc ychwanegol a gyflwynwyd gan lywodraeth leol. Yr oedd yn disgrifio'r trefniadau a'r amserlen i'r fyddai'n gynnwys, gan arwyddo y byddai'r LGMB yn ymgymryd â gwaith pellach i weithredu'r trefniadau'n llawn.

77. Felly, lluniodd LGMB ac UNSAIN restr o gadeiryddion apelio annibynnol drwy ymgynghori â llywodraeth leol, a gallodd y Comisiwn gefnogi'r rhestr honno ym mis Awst 1995. Cawsom gyfarfod gyda chadeiryddion annibynnol ym mis Medi i drafod y mecanwaith apelio ac unrhyw faterion y dymunent eu codi. Ymhlith y materion a drafodwyd yr oedd trefniadau lleol ar gyfer ystyriaeth ymlaen llaw, staff a gâi eu cynnwys gan y mecanwaith apelio, a swyddogaeth y cadeiryddion annibynnol.

78. Paratôd LGMB hefyd, eto drwy ymgynghori ag undebau a llywodraeth leol, ddogfennau apelio safonol i'w defnyddio gan awdurdodau, a chymeryd camau i sicrhau bod y trefniadau Cynghorau Rhanbarthol wedi eu haddasu'n arbenig yn cael eu hymestyn i gwmpasu holl weithwyr llywodraeth leol fel yr oeddem wedi rhagweld.

79. Erbyn mis Medi 1995, yr oedd fframwaith yn bodoli ar lefel genedlaethol i wrando apeliadau. Wedyn, buom yn canolbwyntio ar annog awdurdodau i sicrhau bod mecanweithiau lleol effeithiol yn bodoli er mwyn sicrhau mai'r apeliadau hynny'n unig na ellid eu datrys ar lefel leol a fyddai'n cyrraedd lefel genedlaethol. Yn ystod ein cyfarfodydd gydag awdurdodau unedol ym mis Medi - Hydref 1995, cawsom sicrywdd gan bob awdurdod ar y pwynt hwn, ond clywsom wedyn am oedi mewn un sir. Llwyddwyd i bwysu ar yr awdurdod hwnnw i symud ymlaen yn gyflym i gytuno ar fcanwaith gyda'r staff.

80. O ganlyniad, deliwyd â mwyafrif yr apeliadau ar lefel leol a chyhaeddodd deuddeg y lefel genedlaethol. O'r rheiny, yr oedd wyth yn ymwneud â'r gorchymyn trosglwyddo staff, a chadarnhawyd dwy o'r rheiny gan y panel apelio. Mae nifer isel yr apeliadau cenedlaethol a gyflwynwyd yn awgrymu bod y trefniadau apelio lleol wedi gweithio'n effeithiol.

### HYFFORDDIANT A CHYNGHORI

81. Yr oedd arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ein gwahodd i ystyried a oedd angen cyngor am hyfforddiant a chynghori. Yr oeddem yn awyddus i sicrhau y dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau i baratoi staff ar gyfer y newidiadau a fyddai'n eu hwynebu. Trafodwyd yr hyn a allai fod yn angenrheidiol gyda swyddogion llywodraeth leol cynrychioliadol, a chyda'r Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol yng Nghymru, ac ym mis Ionawr 1995, gallem roi cyngor i awdurdodau lleol iddynt ei ystyried wrth gynllunio'u rhaglenni hyfforddiant a'u trefniadau cynghori.

82. Ym mis Awst 1995, dilynwyd hynny gan holiadur yn gofyn am wybodaeth am y camau yr oedd yr awdurdodau presennol yn eu cymryd i baratoi staff ar gyfer ad-drefnu. Atebodd llai na hanner yr awdurdodau, ac yr oedd rhai o'r farn na fyddai'n bosibl i awdurdodau wneud penderfyniadau am eu strategaethau hyfforddiant nes i'r broses o osod staff mewn swyddi gael ei chwblhau i raddau helaeth, a nes i ganlyniad y cytundeb referniw llywodraeth leol fod yn wybyddus - h.y. ym mis Rhagfyr neu Ionawr. Felly, cyhoeddodd y Comisiwn gylchlythyr ychwanegol ym mis Ionawr 1996 yn annog awdurdodau newydd i osgoi colli swyddi pryd bynnag y byddai'n bosibl drwy ail-hyfforddi staff. Prin oedd yr ymateb i hwn hefyd ond profwyd wedyn fod awdurdodau bob amser mewn gwirionedd yn ceisio achosi cyn lleied â phosibl o golli swyddi'n orfodol.

### AR ÔL ETHOLIADAU'R DARPAR AWDURDODAU

83. Etholwyd y darpar awdurdodau unedol ar 4 Mai 1995, ac erbyn hynny yr oedd y Comisiwn wedi ymgynghori, ac wedi cyhoeddi arweiniad, ar yr holl brif bynciau a oedd yn effeithio ar fuddiannau staff - h.y. penodiadau yn y cyfamser, taliadau am ddyfetswyddau ychwanegol, egwyddor trosglwyddo'r staff i gyd, cystadleuaeth ac ystyriaeth ymlaen llaw, di-agredu, cyfle cyfartal a threfniadau apelio.

**ADRAN 40 (2) (b) (ii) -  
TREFNIADAETH, RHEOLAETH A  
CHYDNABYDDIAETH STAFF YN YR AWDURDODAU  
NEWYDD**

84. Ar ôl etholiadau'r darpar awdurdodau dyma oedd y prif dasgau a oedd ar ôl i ni:

- ein dyletswydd o dan adran 40(2)(b)(ii) o'r Ddeddf i ystyried a dal i adolygu trefniadaeth, rheolaeth a chydabyddiaeth staff yr awdurdodau newydd (gweler Pennod Pedwar);
- cadw llygad ar weithredu'r trefniadau ar gyfer ystyriaeth ymlaen llaw;
- sicrhau bod y mecanwaith apelio arbennig yn bodoli cyn cyhoeddi drafft y gorchymyn trosglwyddo staff;
- dilyn cynnydd awdurdodau wrth baratoi cyfraniadau i ddrafft y gorchymyn trosglwyddo staff;
- delio ag ymholiadau a chwynion gan staff, yn arbennig mewn cysylltiad â'r broses benodiadau.

85. Yn ystod mis Medi a Hydref 1995, cafwyd cyfarfodydd gyda phob un o'r 22 o ddarpar awdurdodau unedol, a chynrychiolwyr undebau llafur a staff, i drafod eu cynnydd ym mhob un o'r meysydd uchod. Mae'r paragraffau blaenorol eisoes wedi disgrifio pa gamau oedd yn angenrheidiol mewn perthynas â phob un ond y cyntaf o'r tasgau a restrwyd uchod. Caiff ein dull o ddelio â'n cyfrifoldebau o dan adran 40(2)(b)(ii) ei drafod ym Mhennod Pedwar.

86. Yr oedd y gofyniad i'r Comisiwn Staff "ystyried a dal i adolygu trefniadaeth, rheolaeth a chydabyddiaeth staff y prif gynghorau newydd" yn annisgwyl, ac ymddangosodd yn unig wrth gyhoeddi'r Mesur Llywodraeth Leol. Yr oedd y Pwyllgor yn gofidio am natur a chwmpas ymddangosiadol eang y gofyniad fel yr oedd wedi ei ddraffio, am nad oeddem yn glir a oedd wedi ei fwriadu i fod yn arolwg parhaus o strwythurau rheolaeth a thâl yn yr awdurdodau newydd, fel yr oedd nifer o'r cynghorau presennol yn ofni.

87. I ymateb i gais brys gan y Pwyllgor am gael ymgynghori, eglurodd y Swyddfa Gymreig - ac wedyn cynhwysodd yn eu harweiniad a gyhoeddwyd i'r Comisiwn - y dylai'r Comisiwn wrth gyflawni'r ddyletswydd hon "gadw golwg arbennig o fanwl ar nifer a chydabyddiaeth uwch reolwyr [ac y byddai yn] annhebygol o orfod ymwneud â staff ar raddfa is". Yr oedd hyd yn oed y swyddogaeth gulach hon yn achosi gofid oherwydd y perygl y gallai'r Comisiwn fod yn ymyrryd yn amhriodol â rhyddid a chyfrifoldebau awdurdodau yn y maes hwn, a gofid y gallai arwain at anghydfodau gydag awdurdodau ar adeg ddiagon cythryblus iddynt. Yr oeddem yn awyddus iawn i beidio â pheryglu'n prif ddyletswydd, sef goruchwyllo proses drosglwyddo llyfn gan warchod buddiannau staff ac osgoi unrhyw berygl i ddarpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd; a ninnau'n ccisio gwneud hynny mewn partneriaeth gydag awdurdodau.

88. At hynny, yr oeddem yn cydnabod y byddem yn gweithio o dan nifer o gyfyngiadau. Y cyntaf o'r rheiny oedd pwerau statudol y Comisiwn, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdodau Lleol, a'r berthynas rhyngddynt i gyd. Nid oedd gan y Comisiwn y pŵer i gyfeirio awdurdodau lleol i fabwysiadu dull penodol o weithredu. Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud hynny, ond ar ôl cael cyngor y Comisiwn yn unig. Felly, yr oedd yn hanfodol i gyngor felly gael ei eirio'n fanwl gywir a bod yn glir o ran ei ddiben, a hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol allu dangos, mewn llysbarn pe bai angen, ei fod wedi gweithredu'n rhesymol wrth wneud gorchymyn yn seiliedig ar y cyngor hwnnw. Ar eu rhan hwy, yr oedd gan awdurdodau lleol y cyfrifoldeb cyfreithiol o benderfynu'r strwythurau rheolaeth a'r lefelau cyflog i'w mabwysiadu. Yr oeddem yn ymwybodol iawn y byddai angen cael cyfiawnhad cryf dros unrhyw ymyrraeth ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol, ac i fod yn hollol hyderus am unrhyw gyngor a thystiolaeth gefnogi a gyflwynid gennym i'r Ysgrifennydd Gwladol.

89. Yr ail gyfyngiad oedd diffyg meincnodau wedi eu cydnabod yn ffurfiol ar strwythurau staffio, lefelau cyflog a chostau rheolaeth priodol. Golygai hynny y byddai unrhyw farn am y cwestiwn a oedd cyflog benodol neu grŵp o gyflogau wedi eu gosod yn rhy uchel yn

arbennig o oddrychol. Yr unig fframwaith ar gyfer penderfyniadau awdurdodau ar gyflogau rheolwy'r hyn oedd y bandiau cyflog ar gyfer prif weithredwyr ac uwch swyddogion a oedd wedi eu cytuno'n gynharach gan y Cyd-Bwyllgorau Trafod (JNC) priodol ar lefel y Deyrnas Gyfunol. Yr oedd y graddfeydd cyflog eang iawn hyn wedi eu gosod mewn bandiau yn ôl maint poblogaeth yr awdurdod. Gan fod bandiau poblogaeth yn gor-gyffwrdd a chan fod gan awdurdodau y rhyddid i osod cyflogau rywle o fewn eu band penodol hwy, yr oedd yn bostbl o fewn y cytundeb JNC i awdurdod bach osod lefelau cyflog uwch ar gyfer swyddi tebyg nag awdurdod mwy o faint. Nid oeddem yn credu y byddai'n rhesymol i ni argymhell i bob awdurdod lleol, o ran egwyddor, weithio o fewn graddfeydd cyflog is neu gulach na'r rheiny a oedd wedi eu gosod gan y JNC. Yr oedd hynny'n golygu bod pob un o'r awdurdodau unedol yn rhydd, pe bai'n dymuno, i osod cyflogau cymharol uchel ar gyfer awdurdod o'i faint, o fewn y cytundeb JNC ac yn ôl ei ewyllys.

90. Oherwydd yr ystyriaethau hyn, daethom i'r casgliad y byddai angen i ni gael sail gadarn iawn dros gymryd unrhyw gamau yn erbyn awdurdodau, a phenderfynwyd mabwysiadu dull ymarferol: os oeddem i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol, byddai angen dangos bod ymyrraeth felly'n angenrheidiol er mwyn gwarchod buddiannau staff.

91. Ein gofid parhaus drwy hyn i gyd oedd, pe bai awdurdod yn tynnu costau cymharol uchel ar gyflogau a buddiannau mynyddol i uwch reolwyr ac wedyn yn cael anawsterau ariannol, y gallai strwythurau ar lefelau is ddiodef gan olygu colli swyddi y gellid osgoi eu colli fel arall. O gofio natur oddrychol y gwaith a'r diffyg canllawiau cymharu dibynadwy, tasg anodd oedd asesu a oedd y perygl hwnnw'n bod yn strwythurau uwch reolwyr yr awdurdodau.

92. Cawsom wybodaeth gan awdurdodau unedol am eu strwythurau wrth iddynt ddatblygu, ac archwiliwyd hwy i weld a oedd unrhyw anghysondebau amlwg. Trafodwyd y rheiny wedyn gyda'r awdurdod dan sylw. Buom yn ceisio gweithio gydag awdurdodau mewn ffordd anffurfiol, ac yn wir, mewn llawer achos byddem yn cysylltu ag awdurdodau yn syml er mwyn egluro'n dealltwriaeth o'u cynigion. Yn y cyfnod cynnar hwnnw, yr oedd ein gofidiau o reidwrydd yn ansicr iawn. Dyma enghreifftiau o'r pwyntiau a godwyd gydag awdurdodau unedol: niferoedd ymdangosiadol uchel o uwch reolwyr naill ai o ran cyfanswm neu mewn perthynas â'r boblogaeth yr oeddlyn yn ei gwasanaethu, cyflogau a oedd yn uwch nag a ddisgwyllid ar gyfer y lefel gysylltiedig o gyfrifoldeb, a chostau rheolaeth cyffredinol a oedd yn ymdangos yn uchel naill ai o ran cyfanswm neu mewn perthynas â'r boblogaeth a wasanaethid. Bu'r cysylltiadau anffurfiol iawn hyn yn ddefnyddiol oherwydd mewn nifer o achosion golygodd ein trafodaethau cynnar fod awdurdodau unedol wedi adolygu eu strwythurau ac wedi nodi cyfle i arbed arian.

93. Yn gyffredinol, gwelwom nad oedd angen cysylltu ag ychydig dros un rhan o dair o'r awdurdodau, cawsom gysylltiadau anffurfiol gydag un rhan o dair, a chyda'r un rhan o dair a oedd yn weddill, yr oedd ein gofidiau'n fwy difrifol. Lle'r oedd y gofidiau hynny'n parhau, cafwyd gohebiaeth neu gyfarfodydd ffurfiol gyda'r awdurdodau hynny. Yn y

mwyafrif o'r achosion, yr oeddent naill ai'n gallu darparu cyfiawnhad dros y strwythur staffio penodol a ddefnyddient neu'n datgan eu bwriad i osod rheolaeth lem ar gostau staffio'n gyffredinol ac felly daethom i'r casgliad na fyddai'n iawn i ni geisio ymyrryd.

94. Mewn nifer fach iawn o enghreifftiau, fodd bynnag, ac er gwaethaf addewidion, yr oeddem yn parhau i ofidio'n fawr am faich y costau oherwydd strwythur penodol a goblygiadau posibl hynny ar staff iau. Achosion oedd y rheiny lle'r oedd cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r gyllideb, mewn awdurdodau bach, wedi ei ddisbarthu ar gyfer costau uwch reolwyr. Ym mhob achos, mynegwyd ein barn wrth yr awdurdod dan sylw a buom yn ystyried a ddylid tynnu sylw'r Ysgrifennydd Gwladol at yr achosion hyn. Wrth ystyried y cam hwnnw, yr oeddem yn cydnabod bod yn rhaid i'n cyfrifiadau gael eu trin yn ofalus am nifer o resymau:

- oherwydd bod graddfa'n golygu na ellid arbed arian, yr oedd costau rheolaeth yn debygol o fod yn uwch, fel cyfran o'r gyllideb, mewn awdurdodau llai;
- gallai ffactorau eraill, fel sefyllfa gymdeithasol-economaidd, dacaryddiaeth neu anawsterau penodi yr awdurdod wthio cyflogau i fyny; ac

- yr oedd y wybodaeth a oedd gennym yn cael ei diweddar'u'n gyson gyda'r canlyniad mai awgrym ar y gorau oedd ein data a'n cyfrifiadau, a hynny'n ei gwneud yn amhosibl bod yn sicr ar unrhyw un adeg bod costau awdurdod penodol yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd.

95. Yr oedd yna gyfyngiadau sylweddol hefyd o ran natur y cyfarwyddyd y gallem ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ei roi, pe baem yn dod i'r casgliad y gellid cyfiawnhau hynny mewn enghraifft benodol. Os oeddem wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdod, er enghraifft, ostwng ei gostau rheolaeth o swm neu ganran benodol, gallai fod wedi dadlau, gyda rhywfaint o gyfiawnhad, fod y gostyngiad yn oddrychol neu hyd yn oed yn fympwyol. Yn yr un modd, gallai ei gwneud yn ofynnol i awdurdod ddileu swydd benodol o'r strwythur fod wedi arwain at honiadau y gallai gweithredu felly effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol.

96. At hynny, yr oeddem yn ymwybodol, yn y lle cyntaf, y gallai ymyrraeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol olygu oedi a hynny'n peryglu paratodau awdurdod unedol ar gyfer ad-drefnu; ac yn ail, er mwyn ymyrryd yn effeithiol, y byddai angen gwneud hynny'n gymmar yn y broses o ddatblygu strwythurau a phenodi swyddogion. Ond ni allem gael darlun llawn o strwythurau'r holl awdurdodau tan ddiwedd y broses benodi, ac erbyn hynny byddai'n rhy hwy'r i ymyrryd yn effeithiol.

97. O gofio'r holl ystyriaethau hyn, daethom i'r casgliad, er bod gennym reswm da dros ofidio mewn rhai achosion (a mynegwyd hynny'n hollol glir i'r awdurdodau hynny), yr oedd gormod o ansicrwydd am safon y wybodaeth a oedd ar gael i ni i'n caniatáu i nodi unrhyw awdurdod i'w archwilio'n gyhoeddus. Heb dystiolaeth glir a diamheuol y byddai

## STAFF LLYWODRAETH LEOL YN TROSGLWYDDO I GYRFF ERAILL

### AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL

101. Ym mis Tachwedd 1995, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol orchymyn yn dod ag awdurdodau newydd y parciau cenedlaethol (NPA) o fewn gorchwyl y Comisiwn. Yr oedd ein cyngor i'r NPA yn canolbwyntio ar dri maes:

- penodi swyddog y parc cenedlaethol/pennaeth y gwasanaeth cyflogedig;
- cyflog swyddog y parc cenedlaethol/pennaeth y gwasanaeth cyflogedig;
- trefniadau ystyriaeth ymlaen llaw ar gyfer penodi i swyddi eraill yn yr NPA.

102. Buom yn ymgynghori am y trefniadau ar gyfer penodi'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig/swyddog parc cenedlaethol. Y dewisiadau oedd cystadleuaeth agored neu ffensiô cylch, neu drosglwyddo'r swyddog parc cenedlaethol presennol yn uniongyrchol. Yr oedd y dadleuon yn debyg iawn o'r naill ochr, ond o ystyried yr ymatebion ar ôl ymgynghori - ac yn arbennig rai sylwadau cryf y byddai cystadleuaeth mor hwyr yn y broses ad-drefnu yn golygu bod swyddogion presennol y parciau o dan anfantais amheg oherwydd y byddai swyddi cymharol eraill mewn awdurdodau uncold eisocs wedi eu llenwi - daethom i'r casgliad y dylai'r swydd gael ei llenwi drwy drosglwyddo swyddog presennol y parc cenedlaethol yn uniongyrchol. Wrth ddo i'r casgliad hwn, yr oeddem mewn gwirionedd yn cydymdeimlo â'r farn y byddai cystadleuaeth agored yn well, a phe baem wedi bod yn ystyried y mater hwn yn gynharach yn y broses, byddem wedi cynghori felly. Fodd bynnag, teimlem fod y cyfnod yr oedd amsefnen yr ad-drefnu wedi ei gyrraedd yn golygu bod hynny fwy neu lai'n amhosibl.

103. Wrth ymgynghori am gyflogau swyddogion parciau cenedlaethol, ystyriwyd sylwadau a gafwyd yn ystod ymarfer ymgynghori cynharach i'r perwyl na fyddai cyfrifoldebau swyddogion presennol y parciau cenedlaethol yn newid yn sylweddol o dan y drefn newydd, ac y gellid cyfiawnhau trosglwyddiad uniongyrchol ar y sail honno. Felly, ein cyngor oedd na ddylai'r gyflog breseanol gael ei chodi heb gyflwyno achos cryf dros godiad. Ein barn ni oedd y byddai arfarniad swydd annibynnol yn ffordd briodol o benderfynu a oedd tystiolaeth felly'n bod. Byddai'n galluogi mabwysiadu dull cyson gan awdurdodau'r tri pharc, a rhoesom gyngor yn unol â hynny. Fel y digwyddodd, yr oedd yn bosibl i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ar ymdeoliad y swyddog presennol, benodi swyddog parc cenedlaethol ar lefel y gyflog a oedd wedi ei sefydlu'n flaenorol. Penododd awdurdodau parciau cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro y swyddogion presennol ar eu cyflogau presennol, gan gadarnhau y byddai arfarniad swydd annibynnol yn cael ei wneud maes o law.

buddiannau staff iau yn cael eu peryglu gan benderfyniadau am strwythurau uwch reolwyr, nid oeddem mewn sefyllfa i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyryd ym mhrosesu awdurdodau lleol wrth wneud penderfyniadau. O ganlyniad i'r holl ffactorau hyn, nid oedd unrhyw enghraifft lle teimlem y gallem fod wedi cyfiawnhau cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cyfarwyddyd i awdurdod.

98. Dywedsom wrth yr Ysgrifennydd Gwladol am ein casgliad cychwynnol ym mis Awst 1995. Wedyn, cadarnhawyd nad oedd y sefyllfa wedi newid pan oedd gennym ddarlun llawnach o'r strwythurau a'r cyflogau uwch reolwyr ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau uncold ym mis Rhagfyr 1995. Nid oes gennym eto dystiolaeth y gellid bod wedi cyfiawnhau ymyrraeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

99. Ar ddechrau'r ymarfer, yr oeddem yn ddigon gofidus am y graddau yr oedd yn briodol ac yn ymarferol i'r Comisiwn gyflawni ei ddyletswydd o dan Adran 40 (2) (b) (ii). Gellid dadlau bod ein penderfyniad i beidio ag argymhell ymyrraeth yn dangos bod cyfiawnhad i'r ansicrwydd hwnnw, ac na ddylai'r ddyletswydd honno fod wedi ei gosod arnom. Yr ydym wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cwestiwn hwn. Ein casgliad yw bod ein gwaith yn y maes hwn wedi llwyddo i ryw raddau, yn bennaf wrth dmlinellu i'r awdurdodau bwysigrwydd diogelu staff iau. Yr ydym yn amheus a fyddai wedi bod yn ymarferol gwneud arolwg cynhwysfawr o strwythurau rheolaeth ar adeg pan oedd darpar awdurdodau'n gorfod symud yn gyflym iawn i benodi eu huwch reolwyr. Y ffactor allweddol oedd yr hyblygrwydd eang iawn a ganiateid gan y Cytundeb JNC, a oedd ynddo'i hun wedi ei wneud yn hollol gywir drwy drefniadau trafod sefydledig rhwng cyflogwyr a gweithwyr.

100. Daethom i'r casgliad nad oedd y dasg hon, hyd yn oed yn y dull cyfyngedig a ddefnyddiwyd gennym, yn hollol gyson â'n cyfrifoldeb i weithio gydag awdurdodau i warchod buddiannau staff yn ystod y broses drosglwyddo. At hynny, credwn nad oedd yn ymarferol i gorrff gyda'n gorchwyl, ein maint a'n hadnoddau ni gyflawni'r dasg hon mewn ffordd gynhwysfawr ac effeithiol.

## GWEITHGAREDDAU AR ÔL I EBRILL 1996

### CADW LLYGAD AR Y TROSLWYDDO

107. Yr oeddem yn ymwybodol, er bod yr ymrwymiad i drosglwyddo'r holl staff a oedd yn dymuno cael eu trosglwyddo yn ddiogelwch pwysig i'r staff, na allai warantu eu sefyllfa gyflogaeth dros gyfnod hir. Felly, yn ystod yr wythnosau ar ôl 1 Ebrill 1996, yr oeddem mewn cysylltiad rheolaidd â'r awdurdodau ynglŷn â'u cynnydd wrth chwilio am swyddi i staff "heb eu lleoli". Fel y digwyddodd, dywedodd yr awdurdodau lleol wrth y Comisiwn fod 233 o staff heb eu lleoli ar 1 Ebrill 1996. Adeg ysgrifennu hyn (Medi 1996), yr oedd y nifer hwnnw wedi gostwng i 21 a'r awdurdodau'n parhau i ymdrechu i leoli'r staff hynny. Bydd y cynllun iawndal colli swydd yn parhau mewn grym tan 30 Medi 1997; felly, ni fyddwn yn gwybod hyd a lled y colli swyddi oherwydd yr ad-drefnu am gryn amser. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod yr awdurdodau lleol, cyn belled â phosibl, wedi ceisio gostwng lefelau staffio drwy ddulliau ar wahân i goli swyddi'n orfodol.

### TREFNIADAU YSTYRIAETH YMLAEN LLAW AR ÔL I EBRILL 1996

108. Ym mis Chwefror 1996, buom yn ystyried pa drefniadau ystyriaeth ymlaen llaw ddylai fod yn gymwys ar ôl 1 Ebrill 1996, a chyhoeddwyd cylchlythyr ymgynghori i wahodd sylwadau gan awdurdodau ac eraill am ein barn. Cynigiem, pe bai awdurdod yn analluog i lenwi swydd o fewn ei staff presennol, y dylai wedyn wahodd ceisiadau gan holl staff yr awdurdodau yn ardal yr hen sir ac y dylai'r trefniant hwnnw fod yn gymwys tan 31 Mawrth 1997. Yn ein barn ni, byddai'r dull hwn yn cynnwys y staff "heb eu lleoli" a oedd yn weddill mewn awdurdodau cyfagos a hefyd yn rhoi cyfle i staff a oedd wedi eu trosglwyddo i leoliad newydd, neu a oedd yn cael iawndal oherwydd dirywiad mewn amodau, wneud cais am unrhyw swyddi gwag a oedd o ddi-ddordeb iddynt.

109. Yng ngoleuni'r ymatebion a gawsom, daethom i'r casgliad mai hwn oedd y dull cywir, ond yr oeddem yn cydnabod mewn rhai ardaloedd y gallai'r awdurdodau ddyuno pathau gyda'u trefniadau presennol lleol ar gyfer ystyriaeth ymlaen llaw, neu ryw fath o fersiwn ddiwygiedig ohonynt. Yr oedd ein cylchlythyr (4/96), felly, yn caniatáu i awdurdodau weithredu trefniadau lleol cyn belled â bod yr holl awdurdodau a'r cynrychiolwyr staff yn ardal yr hen sir yn cytuno.

110. Yr oedd ein cylchlythyr yn rhoi rhyddid i awdurdodau benderfynu pryd y byddai'n briodol hysbysebu swyddi ar sail Cymru gyfan a phryd i fynd ymlaen gyda chystadlaeuath agored lawn. O gadw llygad ar y trefniadau hyn mor belled, awgrymir bod awdurdodau'n gweithredu o fewn ysbryd y cytundeb ac yn ceisio rhoi blaenoriaeth i staff llywodraeth leol yng Nghymru lle mae hynny'n briodol.

104. Ein cyngor am drefniadau ystyriaeth ymlaen llaw ar gyfer swyddi gwag islaw lefel swyddog parc cenedlaethol oedd y dylai ystyriaeth ymlaen llaw fod yn gymwys i'r holl staff yn ardal neu ardaloedd yr hen siroedd a gynhwsyd gan y parc cenedlaethol. Pe bai NPA yn dymuno defnyddio dull gwahanol, yr oedd rhyddid iddynt gyntuno ar drefniant lleol gyda staff ac awdurdodau yn yr ardal.

### AWDURDODAU TÂN CYFUNOL

105. Mewn ymarfer ar wahân i ad-drefnu llywodraeth leol, ymgwymerodd y Swyddfa Gartref ag ad-drefnu awdurdodau tân yng Nghymru. Cafodd yr wyth awdurdod tân presennol a oedd yn seiliedig ar y siroedd eu cyfuno'n dri awdurdod. Yr oedd arweinriad y Swyddfa Gymreig yn gwahodd y Comisiwn i ystyried safle staff cefnogi a fyddai'n gweithio'n llwyr neu'n rhannol dros y gwasanaeth tân, ond nad oeddent o dan reolaeth uniongyrchol y prif swyddog. Buom yn ymgynghori â chynghorau sir am niferoedd y staff cefnogi canolog a oedd yn gweithio'n llwyr neu'n bennaf ar faterion yr awdurdod tân. Awgrymai'r ymatebion fod y niferoedd o dan ddeg, ac ysgrifenasom at y cynghorau sir ym mis Gorffennaf 1995 yn awgrymu y dylid cael cytundeb lleol ar y cwestiwn a ddylai'r unigolion dan sylw drosglwyddo i'r awdurdod tân neu i'r awdurdod unedol. Cafodd sefydlu'r awdurdodau newydd a throsglwyddo staff iddynt ei weithredu wedyn drwy dri gorchymyn cyfuno a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cartref ym mis Rhagfyr 1995.

### STAFF YN TROSLWYDDO I ASiantAETH YR AMGYLCHEDD

106. O ganlyniad i sefydlu Asiantaeth yr Amgylchedd ar 1 Ebrill 1996, yr oedd nifer o staff rheoleiddio gwastraff a oedd yn gweithio mewn cynghorau dosbarth i gael eu trosglwyddo i'r Asiantaeth drwy gyfrwng cynllun trosglwyddo wedi ei baratoi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yr oedd yn bosibl y byddai nifer fach o'r unigolion hyn - a oedd yn cael eu cynnwys gan fecanwaith anghydfodau'r Swyddfa Gymreig yn ymwneud ag Asiantaeth yr Amgylchedd - hefyd am apelio o dan fecanwaith apelio arbenig y Cynghorau Rhanbarthol. Ym mis Hydref 1995, felly, cyhoeddwyd cyngor gennym am y cysylltiadau rhwng y ddwy drefn hon. Fel y digwyddodd ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau felly.

## CASGLIADAU

114. Mewn ad-drefnu o'r natur hwn ac ar y raddfa hon, yr oedd yn hanfodol i ryw fecanwaith gael ei ddablygu i ystyried sut orau i warchod buddiannau staff. Yr oedd hynny'n arbennig o wir yn ystod y cyfnod cyntaf pan oedd ansicrwydd a gofid yn amlwg (gweler Pennod 2). Credwn fod y Comisiwn Staff a'i ragflaenydd y Pwyllgor Ymgynghorol, mewn sefyllfa dda i gyflawni'r dsg honno. Credwn hefyd fod ein gorchwyl - ar wahân i'n dyletswydd o dan Adran 40 (2) (b) (ii) o'r Ddeddf, am y rhesymau a osodwyd allan ym Mhenod Pedwar - yn darparu'r fframwaith cywir i ni weithio gyda'r awdurdodau a chyrrff eraill i warchod staff. Ystyriwn mai llesol i'r broses hon oedd fod ein swyddogaeth yn un ymgynghorol o ran natur, gyda phŵer ewyllysioi yr Ysgrifennydd Gwladol ar gael fel cam terfynol. Unwaith yn unig yr oedd angen i ni gyngghori'r Ysgrifennydd Gwladol i ddefnyddio'r pŵer hwnnw (paragraff 62), ac ystyriwn fod hynny'n fesur o'r llwyddiant a gawsom yn ein hymdrechion i gael cytundeb gydag awdurdodau pryd bynnag yr oedd hynny'n bosibl.

115. Pan gyhoeddwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) gyntaf, rhagwelwyd gan y Swyddfa Gymreig y byddai lefelau staffio llywodraeth leol yn gostwng tua 500 o ganlyniad i'r ad-drefnu. O'r cychwyn cyntaf, a thrwy gydol yr ad-drefnu, yr oedd gofid cyffredinol y byddai nifer y swyddi a gâi eu colli yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif hwnnw. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl gwneud asesiad cywir o'r effaith a gafodd yr ad-drefnu ar lefelau staffio llywodraeth leol, neu'r effaith a gaiff arnynt. Yr ydym wedi ymchwilio i'r mater hwn ac wedi dod i'r casgliadau canlynol dros dro.

116. Yr oedd Rhan III o Reoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Golli Swyddi) 1994 yn darparu ar gyfer talu iawndal i unigolion cymwys "yr oedd colli eu swyddi i'w briodoli i unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan neu o dan" Deddf 1994. Yr oedd cyfanswm o 1,640 o'r staff a adawodd eu gwaith mewn llywodraeth leol cyn 1 Ebrill 1996 yn gymwys i gael iawndal o dan y cynllun hwn; mae eu hymadael wedi ei nodi'n glir felly fel canlyniad i ad-drefnu.

117. Mae'n amhosibl dweud faint o'r 124 o staff a oedd ar ôl ac a adawodd ar delerau ymadael gwirfoddol neu delerau ymddeol cynnar gwirfoddol cyn 1 Ebrill 1996, ond nad oeddent yn cael eu cynnwys gan Ran III o'r Rheoliadau, a fyddai wedi parhau mewn llywodraeth leol pe na bae'r ad-drefnu wedi digwydd. Gallwn gymryd, fodd bynnag, i'r mwyafrif helaeth, fod ad-drefnu yn ffactor, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yn eu penderfyniad i adael llywodraeth leol. Mae'r ffigurau hyn yn rhoi awgrym o raddfa'r tarfu mewn trefniadau staffio a ddaeth yn sgil yr ad-drefnu. Fodd bynnag, mae'n werth sylwi bod y gostyngiadau hyn mewn lefelau staffio wedi eu gwneud, ar y cyfan, yn wirfoddol a bod colli swyddi'n orfodol, bryd hynny, wedi ei gadw i'r lleiafswm.

118. Yn y tudalennau blaenorol yr ydym wedi disgrifio'n fanwl sut y ceisïem gyflawni'n dyletswyddau o dan Adran 40 o Ddeddf 1994. Yn y paragraffau olaf hyn, dymunwn yn

### HYFFORDDIANT A CHYNGHORI

111. Yn sgil yr ad-drefnu, mae hyfforddiant a chyflogaeth nawr yn faterion i'r awdurdodau newydd eu penderfynu yn y ffordd arferol. Yr oeddem yn parhau'n argyhoeddedig o bwysigrwydd hyfforddiant a chynghori, ac ym mis Mai 1996, tynnwyd sylw'r awdurdodau at hyn yng nghylchlythyr 5/96.

### TREFNIADAU APELIO AR ÔL 1 EBRILL 1996

112. Ym mis Mai 1996, buom yn ymgynghori ag awdurdodau a chyrrff eraill am y cyfnod y dylai'r trefniant apelio arbennig barhau i fod yn gymwys. Daethom i'r casgliad y dylai'r mecanwaith apelio barhau mewn grym am hyd at 18 mis yn ôl pwnc yr apêl fel a ganlyn:

- dylai apelïadau yn erbyn y gorchymyn trosglwyddo staff barhau ar gael am 6 mis ar ôl 1 Ebrill;
- gallai apelïadau ym ymwneud ag ystyriaeth ymlaen llaw gael eu gwneud tan 31 Mawrth 1997, pan fyddai'r trefniadau ystyriaeth ymlaen llaw yn peidio â bod mewn grym; a
- byddai angen mecanwaith apelio ar gyfer iawndal drwy gydol y "cyfnod penodol" ar gyfer taliadau iawndal yn ymwneud ag ad-drefnu, hynny yw, tan 30 Medi 1997.

### TREFNIADAU'R DYFODOL

113. Er 1 Ebrill, yr ydym wedi cael llai a llai o ymholiadau gan unigolion ac awdurdodau. Mae'r rheiny wedi cyrraedd lefel ddigon isel i lefelau staffio'r Adran Ysgrifenyddol gael ei gostwng i un aelod staff rhan-amser. Ni ddisgwyliwn y bydd angen unrhyw arweiniad pellach gan y Comisiwn yn ystod y misoedd i ddod, ond byddwn yn parhau i fod ar gael tan fis Gorffennaf 1997, os bydd angen ein gwasanaeth.



syml dynnu sylw at yr agweddau hynny ar y broses ad-drefnu yr ystyriem eu bod yn arbennig o arwyddocaol.

\* Credwn fod yr ymrwymiad i drosglwyddo'r holl staff a ddymunai gael eu trosglwyddo (paragraffau 19-23) yn sylfaenol i hybu di-agredu a throsglwyddo staff yn llyfn i'r awdurdodau newydd. O dan amgylchiadau'r ad-drefnu, dyna hefyd oedd y ffordd decaf yn ein barn ni.

\* Yr oedd y mecanwaith apelio a'n harweiniad ar ystyriaeth ymlaen llaw (paragraffau 51-80) yn rhwyd ddiogelwch bwysig i staff a oedd yn anhapus am eu penodiad i awdurdod penodol.

\* Er i ni dderbyn nifer fach o gwynion ffurfiol am drefniadau dewis (paragraffau 53-56), credwn, yn y mwyafrif o achosion, fod staff wedi eu trin yn deg yn ystod y broses benodi. Dylid pwysleisio fod mabwysiadu meini prawf clir, amlwg, wedi eu cytuno ar gyfer penderfynu a oedd cymhathu swyddi'n bodoli neu a oedd angen cystadleuaeth yn hanfodol i gael canlyniad teg, ynghyd â sefydlu mecanwaith clir wedi ei gytuno i staff gael apelio yn erbyn penderfyniadau rhestr fer.

\* Mater cysylltiedig oedd mater cyfathrebu â staff ac undebau llafur. Mewn rhai enghreifftiau, gellid bod wedi osgoi anawsterau a lleihau gofid y staff pe bae'r awdurdodau hynny wedi defnyddio dulliau mwy uniongyrchol o gyfathrebu â'u staff. Ar adegau, gallai cyflymdra'r digwyddiadau ei gwneud yn anoddi i sianelau cyfathrebu swyddogol weithio'n fwy effeithiol na'r sianeli answyddogol. Ond nid oedd hynny ond yn tanlinellu pwysigrwydd gwneud ymdrech gydwybodol i roi gwybodaeth i'r staff am ddatblygiadau, ac yn enwedig i egluro pam yr oedd oedi yn y broses o wneud penderfyniadau. Yr oedd y Comisiwn Staff yn gallu cyflawni swyddogaeth ddefnyddiol mewn amgylchiadau lle'r oedd methiant cyfathrebu wedi digwydd drwy dynnu sylw rheolwyr at ofidiau staff a'u hannog i ddelio â'r gofidiau hynny.

119. Credwn ei bod yn arbennig o fuddiol i'n gwaith fod y chwe Chomisiynydd yn cynrychioli sbectwm eang o brofiad. O edrych yn ôl, barnwn y byddai'n fanteisiol pe bae pob un o'r chwech wedi ei benodi ar ddechrau'r dasg, fel aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol.

120. Wrth ddirwyn ein hadroddiad i ben, dymunwn bwysleisio bod ein gwaith wedi ei hwyluso'n sylweddol gan yr ewyllys da a'r cymorth a gawsom drwy gydol yr amser gan gynrychiolwyr llywodraeth leol a staff. Gellir maddau i ni am ail-ddatgan ein parch a'n hedmygedd o'r swyddogion personael; ni ddylai neb danbriso'r pwysau a oedd arnynt. Diolch hefyd i'r Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol (Cymru), swyddogion cenedlaethol a rhanbarthol yr undebau llafur, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r holl bobl eraill a roddodd gyngor amhrisiadwy. Yn olaf, rhoir diolch arbennig i'n Hadran Ysgrifenyddol am eu gwasanaeth teyrngar ac effeithiol - pryd bynnag y byddai angen ymdrech ychwanegol, câi ei rhoi'n barod ac yn frwdfrydig - ac am eu cyfraniadau gwerthfawr i'n trafodaethau.

**GEIRFA**

AWC	Cynulliad Siroedd Cymru
CWD	Cyngor Dosbarthau Cymru
Di-agredu	Y broses o ddosbarthu staff o awdurdodau yr oedd eu hardaloedd yn cael eu rhannu i'r awdurdodau dilynol.
JNC	Cyd-Bwyllgor(au) - rhan o fecanwaith llywodraeth leol ar gyfer cael cytundeb ar faterion yn ymwneud â thâl a thelerau ac amodau gwasanaeth.
Cymhathu swyddi	Y broses o benderfynu a oedd swyddi yn strwythurau staffio'r awdurdodau newydd yn rhoi cymhathiad addas a chyfrifoldebau deiliaid swyddi yn yr hen awdurdodau.
LGMB	Bwrdd Rheoli Llywodraeth Leol
NJC	Cyd-Gynghor(au) Cenedlaethol - rhan o fecanwaith llywodraeth leol i ddod i gytundeb ar faterion yn ymwneud â thâl a thelerau ac amodau gwasanaeth.
Ystyriaeth ymlaen llaw	Y trefniant lle byddai awdurdodau'n rhoi blaenoriaeth, yn y lle cyntaf, i grŵp penodol o staff wrth hysbysebu a llenwi swyddi gwag.
Llenwi swydd/Slotio i mewn	Y broses lle bydd awdurdod, ar ôl penderfynu bod cymhathu swydd yn bodoli, yn gosod unigolyn mewn swydd yn y strwythur newydd heb yr angen am gynnal cyfweiliad cystadleuol.
STO	Gorchymyn Trosglwyddo Staff - gorchymyn wedi ei wneud o dan Adran 42 o Ddeddf 1994 yn trosglwyddo staff i gyflogaeth yr awdurdod olynol perthnasol.
TUPE	Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth)
WTUC	Cyngor Undebau Llafur Cymru
Heb eu Lleoli	Y term a ddefnyddir yn gyffredinol i ddisgrifio unigolyn nad oes swydd wedi ei nodi ar ei gyfer gyda'r awdurdod olynol.

## RHESTR O GYLCHLYTHYRON AC ARWEINIAD Y COMISIWN

Dyddiad	Pwnc
21 Hydref 1993	Cyngor i'r awdurdodau presennol am benodi a materion perthnasol cyn ad-drefnu - cylchlythyr y Pwyllgor Ymgynghorol
9 Mai 1994	Trosglwyddo staff - cyngor y Pwyllgor Ymgynghorol i'r Ysgrifennydd Gwladol
24 Mehefin 1994	Aelodaeth a swyddogach y Comisiwn Staff - cylchlythyr 1/94
27 Mehefin 1994	Penodiadau staff a'u hail-raddio yn yr awdurdodau presennol yn y cyfamser - cylchlythyr drafft
8 Gorffennaf 1994	Iawndal a arfaethir ar gyfer cynllun colli swyddi - llythyr i Adran yr Amgylchedd
6 Medi 1994	Penodi ac ail-raddio staff yn yr awdurdodau presennol yn y cyfamser - cylchlythyr 2/94
6 Medi 1994	Taliadau ychwanegol am gyfrifoldebau ychwanegol - llythyr arweiniad
16 Medi 1994	Bwletin staff rhif 1
16 Tachwedd 1994	Penodi pennaeth gwasanaeth cyflogedig - cylchlythyr drafft
8 Rhagfyr 1994	Trosglwyddo staff - llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol
19 Rhagfyr 1994	Cynllun iawndal am golli swyddi - llythyr at Adran yr Amgylchedd
3 Ionawr 1995	Ystyriaeth ymlaen llaw - cylchlythyr 1/95
13 Ionawr 1995	Bwletin staff rhif 2
13 Ionawr 1995	Hyfforddiant - cylchlythyr 2/95
20 Ionawr 1995	Cynllun iawndal arfaethedig am golli cydnabyddiaeth - llythyr at Adran yr Amgylchedd

20 Ionawr 1995	Trosglwyddo staff - Y mateb yr Ysgrifennydd Seneddol i lythyr y Comisiwn ar 8 Rhagfyr
7 Chwefror 1995	Penodiadau - pennaeth gwasanaeth cyflogedig - cylchlythyr y Comisiwn
28 Chwefror 1995	Ystyriaeth ymlaen llaw: sefyllfa pobl dan hyfforddiant - arweiniad y Comisiwn
1 Mawrth 1995	Trefniadau apelio ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol - cylchlythyr drafft
13 Mawrth 1995	Ystyriaeth ymlaen llaw: cytundebau lleol - cylchlythyr 3/95
13 Mawrth 1995	Y broses trosglwyddo staff: di-agredu a phenodiadau - arweiniad y Comisiwn
13 Mawrth 1995	Ystyriaeth ymlaen llaw: staff wedi eu lleoli a heb eu lleoli - llythyr ymgynghori
28 Mawrth 1995	Bwletin staff rhif 3
21 Ebrill 1995	Cystadleuaeth agored ar gyfer swyddi penaethiaid gwasanaeth cyflogedig - gofyn am gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Seneddol
27 Ebrill 1995	Cystadleuaeth agored ar gyfer swyddi penaethiaid gwasanaeth cyflogedig - yr Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno i roi cyfarwyddyd
28 Ebrill 1995	Goblygiadau cyfartalwch ad-drefnu llywodraeth leol - y Comisiwn yn anfon arweiniad wedi ei baratoi gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal
4 Mai 1995	Cynnal etholiadau darpar awdurdodau
5 Mai 1995	Swyddogaeth y Comisiwn Staff a'r arweiniad yn cael ei gyhoeddi - llythyr at swyddogion priodol darpar awdurdodau
5 Mai 1995	Trefniadau apelio ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol - cylchlythyr 4/95
5 Mai 1995	Pennaeth gwasanaeth cyflogedig: cyflogau - llythyr y Comisiwn at y darpar awdurdodau
16 Mai 1995	Staff sy'n gymwys i gael ystyriaeth ymlaen llaw - arweiniad ar staff "wedi eu lleoli" a "heb eu lleoli"

19 Mai 1995	Bwletin staff rhif 4
26 Mai 1995	Cyflogau a strwythurau uwch reolwyr - llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol
4 Gorffennaf 1995	Staff cynorthwyol gwasanaeth tân - llythyr arweiniad
9 Awst 1995	Sirwythurau a chyflogau uwch reolwyr - llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol
25 Awst 1995	Cyhoeddi holiadur hyfforddiant
30 Awst 1995	Bwletin staff rhif 5
31 Awst 1995	Ystyriaeth ymlaen llaw: cadarnhau arweiniad y Comisiwn - cylchlythyr 5/95
14 Medi 1995	Ystyriaeth ymlaen llaw â staff CBAC - llythyr ymgynghori
15 Medi 1995	Trefniadau penodi a dewis - cylchlythyr 6/95
18 Medi 1995	Awdurdodau'r parciau cenedlaethol: penodi pennaeth y gwasanaeth cyflogedig - llythyr ymgynghori
28 Medi 1995	Awdurdodau'r parciau cenedlaethol - arweiniad gan y Swyddfa Gymreig
18 Hydref 1995	Ystyriaeth ymlaen llaw â staff CBAC - cadarnhau arweiniad
23 Hydref 1995	Trosglwyddo staff rheoleiddio gwastraff i Asiantaeth yr Amgylchedd: trefniadau anghydfodau - cylchlythyr 7/95
31 Hydref 1995	Awdurdodau'r parciau cenedlaethol: trefniadau penodi - arweiniad y Comisiwn
27 Tachwedd 1995	Awdurdodau'r parciau cenedlaethol: cyflogau pennaeth gwasanaeth - arweiniad y Comisiwn
1 Rhagfyr 1995	Sirwythurau a chyflogau uwch reolwyr - cyngor terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol
6 Rhagfyr 1995	Awdurdodau'r parciau cenedlaethol: ystyriaeth ymlaen llaw - cylchlythyr 8/95

6 Rhagfyr 1995	Awdurdodau'r parciau cenedlaethol: cymhwyso Adran 40/2/b/ii/- cylchlythyr 2/95
6 Rhagfyr 1995	Bwletin staff rhif 6
23 Ionawr 1996	Hyfforddiant - cylchlythyr 1/96
31 Ionawr 1996	Osgoi gwahaniaethu - cylchlythyr 2/96
12 Chwefror 1996	Trefniadau ystyriaeth ymlaen llaw ar ôl 1 Ebrill 1996 - cylchlythyr ymgynghori 3/96
14 Mawrth 1996	Gorchymyn trosglwyddo staff rhif 2 - cyngor y Comisiwn i'r Swyddfa Gymreig
26 Mawrth 1996	Trefniadau ystyriaeth ymlaen llaw ar ôl 1 Ebrill 1996 - arweiniad y Comisiwn, cylchlythyr 4/96
2 Ebrill 1996	Bwletin staff rhif 7
3 Mai 1996	Hyfforddiant - cylchlythyr 5/96
13 Mai 1996	Hyd trefniadau apelio cynghorau rhanbarthol - cylchlythyr ymgynghorol 6/96
15 Gorffennaf 1996	Trefniadau apelio - parhau trefniadau arbennig y cynghorau rhanbarthol cylchlythyr 7/96
15 Gorffennaf 1996	Dirwyn y Comisiwn i ben

Gellir cael copïau o'r cylchlythron a'r llythron arweiniad a restrwyd uchod o

Adran LGRG 1, y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NQ.